Cofrestrfa Tir EM




Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2019/20

# Trawsnewid mewn ansicrwydd

Cofrestrfa Tir EM

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2019/20

Cyflwynir yr adroddiad i'r Senedd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002.
Cyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag Adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Masnachu'r Llywodraeth 1990 Atodlen 1, paragraff (6A), (b).

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 16 Gorffennaf 2020.

HC582




© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio os datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd yn rhaid ichi geisio caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Ar gyfer ymholiadau am y cyhoeddiad hwn ffoniwch y tîm Cymorth Cwsmeriaid ar 0300 006 0411 neu ebostiwch customersupport@landregistry.gov.uk; ar gyfer ymholiadau'r wasg ffoniwch Swyddfa'r Wasg ar 0300 006 3365.

ISBN 978-1-5286-1830-4

CCS0320287692 07/20

Argraffwyd ar bapur gyda 75% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu fan lleiaf.

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Clawr: Mae hen swyddfa ddosbarthu'r Post Brenhinol ar New Oxford Street yng nghanol Llundain wedi cael ei thrawsnewid gan y penseiri Allford Hall Monaghan Morris a'r adeiladwr Laing O'Rourke i greu The Post Building. Yn fenter ddatblygu ar y cyd gan Oxford Properties a Brockton Capital, mae'r adeilad – sydd yn parhau ym mherchnogaeth rydd-ddaliol y Post Brenhinol – yn darparu wyth llawr o le swyddfa a saith llawr o fflatiau preswyl uwchben llawr gwaelod manwerthu bywiog. Mae'n creu lle cyhoeddus newydd ar Museum Street, yn darparu teras to cyhoeddus ac yn dod â bywyd newydd i'r ardal hanesyddol Dunn's Passage sydd ym mherchnogaeth y rhydd-ddeiliad cyfagos One New Oxford Street General Partner Limited. Wedi ei gwblhau yn 2019, mae tenantiaid The Post Building yn cynnwys McKinsey & Company, Rothesay Life a Chymdeithas Adeiladu Nationwide. Mae Swyddfa Penbedw wedi bod yn cofrestru'r prydlesi. Llun: Timothy Soar

Tudalen cynnwys: Gorsaf fysiau Preston yw un o brif nodweddion pensaernïol y ddinas. Enillodd gwaith adnewyddu'r orsaf fysiau restredig, gan John Puttick Associates a Cassidy+Ashton, Wobr Gogledd Orllewin 2019 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain. Cofrestrwyd prydlesi manwerthu newydd yn ddiweddar yn yr orsaf sydd ym mherchenogaeth Cyngor Sir Swydd Gaerhirfryn. Llun: Cassidy + Ashton/Gareth Gardner

# Cynnwys

## Adroddiad perfformiad


**Trosolwg – Cipolwg ar Gofrestrfa Tir EM** 4
Ein rôl yn y farchnad eiddo 6
Rhagair – Cyfweliad y Cadeirydd gan Michael Mire 8
Trosolwg gyda Simon Hayes, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir 10
Cyfweliad gyda Phennaeth Prynu Cartref HSBC UK 13

**Adroddiadau'r Cyfarwyddwyr**
Gwneud trawsnewid yn gryfder 14
Wynebu'r her 20
Darparu hyder a chanlyniadau 24
Canolbwyntio o'r newydd ar fod yn ddigidol 28
Yn unedig trwy ein diwylliant 34

**Dadansoddiad perfformiad ac adolygiad ariannol**
Adolygiad ariannol 41
Ein dangosyddion perfformiad allweddol 44
Perfformiad cynaliadwyedd 46
Gwybodaeth gorfforaethol arall 50

**Geirfa** 54


## Adroddiad atebolrwydd


Adroddiad llywodraethu corfforaethol 55
Adroddiad tâl a staff 65
Adroddiad archwilio ac atebolrwydd seneddol 77
Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ'r Senedd 78


## Datganiadau ariannol


Datganiadau ariannol 80
Atodiadau 104




# Adroddiad perfformiad

## Trosolwg – Cipolwg ar Gofrestrfa Tir EM

Pwrpas y trosolwg yw rhoi crynodeb o Gofrestrfa Tir EM, ei diben a'i pherfformiad yn erbyn amcanion.

### Ein huchelgais

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi ymrwymo i fod y gofrestrfa tir fwyaf blaenllaw yn y byd ar gyfer cyflymder, symlrwydd a dull agored i ddata, ac anelu at gyflawni cofrestru cynhwysfawr erbyn 2030.

### Ein cenhadaeth

Eich hawliau tir ac eiddo:
wedi eu gwarantu a'u gwarchod.

### Ein prif rôl

Tir yw ased mwyaf ein cenedl. Mae eglurdeb a diogelwch perchnogaeth tir yn hanfodol ar gyfer marchnad eiddo weithredol. Mae marchnad iach yn hanfodol ar gyfer economi a chymdeithas lwyddiannus. Mae tir yn cael ei ddefnyddio i gefnogi holl ddimensiynau bywyd – amaethyddol, busnes, cymdeithasol a phersonol. Gall ei werth ariannol newid, ond mae ei rôl allweddol hanfodol mewn bywyd yn parhau'r un fath.

Rhown yr eglurder a'r sicrwydd angenrheidiol hwnnw mewn buddion a pherchnogaeth eiddo. Gwnawn hyn trwy gynnal cofrestr tir o fwy na 25 miliwn o deitlau tir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr yr amcangyfrifir eu bod yn werth mwy na £7 triliwn. Mae'r cofnodion wedi eu gwarantu gan y wladwriaeth. Mae hyn yn cefnogi benthyca gwarantedig ar £1-1.5 triliwn o eiddo. Sicrhawn y gall trafodion eiddo gael eu cofrestru'n gywir, yn effeithlon ac yn ddiogel. Mae hyn yn darparu ffydd a hyder yn y farchnad eiddo ac felly yn yr economi yn gyffredinol.

### Ein gwerthoedd

— Rydym yn rhoi sicrwydd
— Rydym yn meddu ar unplygrwydd
— Rydym yn ysgogi arloesedd
— Rydym yn broffesiynol

### Ein dyletswyddau statudol

Mae Cofrestrfa Tir EM yn adran anweinidogol o'r llywodraeth a sefydlwyd ym 1862.

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi'r pŵer inni ddelio â'r "busnes o gofrestru" a hwn yw ein prif statud llywodraethu. Mae ein hincwm o ffïoedd yn talu ein holl gostau o dan amodau gweithredu arferol.

Pennaeth Cofrestrfa Tir EM yw'r Prif Gofrestrydd Tir, a benodir o dan statud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol sydd â chyfrifoldeb Seneddol am Gofrestrfa Tir EM ac am y ddeddfwriaeth y gweithredwn arni ei sail.

Mae Deddf Seilwaith 2015 yn galluogi Cofrestrfa Tir EM i lunio cofrestr genedlaethol o bridiannau tir lleol.

### Ein diwylliant

Yng Nghofrestrfa Tir EM:

— mae gennym hanes balch a threftadaeth gyfoethog – am fwy na 150 o flynyddoedd rydym wedi gwarchod perchnogaeth eiddo a darparu'r sail ar gyfer yr economi fodern;
— mae ein pobl yn bwysig – rydym am fod y cyflogwr mwyaf cynhwysol yn y llywodraeth, gan sicrhau cyfle teg a chyfartal i bawb;
— rydym yn agored, yn onest ac yn trin pawb â pharch – rydym yn ymddiried yn ein gilydd ac yn dathlu ein pobl oherwydd rydym yn falch o bwy ydyn nhw;
— mae gennym ymdeimlad cyffredin o berthyn ac yn helpu ein gilydd – rydym yn uniaethu â'n gilydd er mwyn teimlo ein bod yn cael ein cefnogi, yn gyffyrddus ac yn cael ein gwerthfawrogi;
— mae llais pawb yn bwysig – ceisiwn annog her barchus a gwerthfawrogwn pob barn a chyfraniad;
— canolbwyntiwn ar fod yn fedrus ac yn wybodus iawn – rydym wedi ein hymrymuso, yn atebol ac yn gyfrifol am ein gwaith ein hunain;
— darparwn wasanaeth gwych i'n cwsmeriaid – anelwn at ragoriaeth, gan gydbwyso effeithlonrwydd a chynhyrchiant gydag ansawdd ac unplygrwydd;
— crëwn hyder trwy fod yn gydnerth ac yn ymatebol ond hefyd yn ddigyffro ac yn ddigynnwrf – rydym yn gallu addasu, yn hyblyg ac yn gallu gweithio'n gyflym;
— ceisiwn annog ein pobl i fod yn arloesol a gwella'n barhaus yr hyn a wnawn a sut rydym yn gwneud hynny – rydym yn gwneud wynebu heriau yn hwyl ac yn gyffrous trwy dimau cydweithredol, technoleg newydd a ffyrdd newydd o weithio; ac
— mae ein harweinwyr yn gefnogol – canolbwyntiwn ar hyfforddi a datblygu ein hunain ac eraill i wneud ein gorau glas â hyder – mae arweinwyr cadarnhaol ac egnïol yn cynnwys eraill er mwyn cael canlyniadau gwell a'n helpu i dyfu'n gryfach.

### Ein gwasanaethau

Mae Cofrestrfa Tir EM yn darparu ehangder eithriadol o wasanaethau gyda'r diben syml o gynnal eglurder a diogelwch mewn perchnogaeth eiddo a benthyca gwarantedig a chefnogi trafodion cyflym. Rydym wedi rhoi'r ffydd a'r hyder y mae eu hangen ar y farchnad a'r economi trwy fod yn arbenigol a chael unplygrwydd ym mhopeth a wnawn.

**35.6m**
Ceisiadau gwasanaeth

**£305.9m**
Cyfanswm incwm

**94.8%**
Ceisiadau wedi eu derbyn trwy sianeli electronig

Cyfran y ceisiadau wedi eu derbyn yn electronig, heb gynnwys diweddariadau cofrestr swmpus. Roedd diweddariadau cofrestr swmpus yn cyfrif am oddeutu 2.7% o'r holl geisiadau yn 2019/20, a heb eu cynnwys oherwydd bod nifer y ceisiadau o'r fath yn amrywiol iawn.

Cofrestrfa Tir EM
Copi swyddogol o'r gofrestr teitl

Cofrestrfa Tir EM
Cynllun Teitl

**25.8m**
Teitlau cofrestredig

**90%**
Cwsmeriaid a holwyd sy'n dweud bod ein gwasanaethau yn dda, yn dda iawn neu'n rhagorol

**£88,116**
Wedi ei godi ar gyfer elusennau




Tir cofrestredig yng Nghymru a Lloegr
**87.4%**
13,216,226 hectar

Abertawe
Caerloyw
Caerlŷr
Coventry
Croydon
Durham
Fylde
Hull
Nottingham
Penbedw
Peterborough
Plymouth
Telford
Weymouth



**14**
o leoliadau swyddfa



**5,787**
Gweithwyr
(5,189 cyfwerth ag amser llawn)

Benyw
**60.5%**

Gwryw
**39.5%**

Rhan-amser
**33.9%**

**80**
Prentisiaid

# Ein rôl yn y farchnad eiddo

**Beth mae ein cwsmeriaid yn ei ofyn**

**Enghreifftiau o'n gwasanaethau a all helpu ym mhob cam**

## Chwilio am eiddo

- beth sydd ar gael yn agos i gartref?
- pa mor fawr yw'r ardd?
- pa mor fawr yw'r maes parcio?

- gweld cofrestr
- data pris a dalwyd



## Trefnu morgais

- faint alla i ei fenthyg?
- beth yw gwerth yr eiddo?
- oes unrhyw fenthyciadau eraill wedi eu gwarantu yn erbyn yr eiddo?

- chwiliad pridiannau tir
- mynegai prisiau tai
- chwiliad methdaliad
- ymholiadau gwarantedig




## Cyn cyfnewid

- ydy'r tir wedi ei gofrestru?
- pwy sy'n berchen ar yr eiddo?
- ydy morgais yn ddyledus?

- chwiliad o'r map mynegai (chwiliad o'r map cenedlaethol)
- copi swyddogol o gofnod cofrestr



## Cyfnewid contract

- ydy'r cynnig wedi ei warchod?
- ydy trawsgludwr y gwerthwr wedi chwilio'r gofrestr?

- chwiliad swyddogol (diogelwch blaenoriaethu cwblhau)



## Cwblhau

- ydy fy menthyciad wedi cael ei warantu?
- ydy gwerthu'r eiddo wedi cael ei gwblhau?

- diweddariadau cofrestr
- cofrestru teitlau newydd



## Byw a gweithio yn yr eiddo

- ydy fy manylion wedi cael eu diweddaru?
- sut galla i ddiogelu fy hun rhag twyll eiddo?
- mae'n rhaid imi ailforgeisio

- Property Alert (gwasanaeth monitro eiddo am ddim)
- morgais digidol



# Ein gwasanaethau

### Gwasanaethau newid cofrestr

Pan fydd pethau'n newid, mae'n rhaid diweddaru'r gofrestr yn gywir. Mae eiddo yn cael ei werthu, cartrefi ac adeiladau swyddfa yn cael eu hailforgeisio, perchnogion yn priodi neu eiddo'n cael ei drosglwyddo pan fydd perchnogion yn marw. Pan gaiff adeiladau eu rhannu'n fflatiau, darnau o dir yn cael eu gwerthu a datblygiadau newydd yn cael eu cwblhau, rhaid i deitlau newydd gael eu creu. Gall newid y gofrestr fod yn gymhleth felly bydd ein gweithwyr achos arbenigol yn canolbwyntio eu gwybodaeth a'u profiad technegol ar y gwaith hwn.

### Ymholiadau gwarantedig

Mae ein gwasanaethau chwiliad o'r map mynegai, copïau swyddogol a chwiliadau swyddogol yn gwarchod ac yn rhoi sicrwydd i weithwyr eiddo proffesiynol a dinasyddion trwy warchod trafodion tra bo'r trosglwyddiad yn cael ei gwblhau. Mae'r gwasanaethau hyn yn awtomataidd i raddau helaeth er mwyn i gwsmeriaid gael eu canlyniadau ar unwaith, gan gyflymu trawsgludo.

### Gwasanaethau gwybodaeth


Mae gennym un o'r cronfeydd data eiddo geo-ofodol trafodaethol mwyaf yn Ewrop ac er 1990 mae ein cofrestr wedi bod ar agor i'r cyhoedd. Mae ein gwasanaethau ar-lein yn golygu y gall pobl weld a yw eiddo wedi ei gofrestru (heb y manylion penodol), gweld cynnydd eu cais a chael hysbysiadau i ddiogelu eu heiddo rhag twyll yn rhad ac am ddim. Am ffi fach gall unrhyw un gael cipolwg ar fanylion unrhyw eiddo cofrestredig ar unwaith.

### Gwasanaethau eraill

Gall ein gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol ddangos a oes cyfyngiadau ar ddefnyddio eiddo. Mae ein gwasanaeth Pridiannau Tir yn gwarchod rhai buddion mewn tir digofrestredig a chadwn y mynegai methdaliad ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae ein Hadran Credydau Amaethyddol yn cynnal cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar asedau amaethyddol.


Mae'r wybodaeth yn ein cofrestr yn werthfawr i ystod eang o ddefnyddwyr. Mae ein data yn cefnogi entrepreneuriaid, yn rhoi gwybodaeth i brynwyr a rhoddwyr benthyg ac yn hwyluso tryloywder i ymladd twyll a llygredd.

## Ceisiadau gwasanaeth




Nodyn: Mae'r cyfanswm ceisiadau gwasanaeth yn cynnwys diweddariadau cofrestr swmpus

## Incwm



# Rhagair



Golwg o'r awyr o King's Cross a St Pancras yng nghanol Llundain gan Google Earth. Mae'r safle wedi cael ei drawsnewid o fod yn dir gwastraff diwydiannol i hyb trafnidiaeth cenedlaethol a rhyngwladol a chanolfan manwerthu a masnachol. Arferai 4 Pancras Square, a ddyluniwyd gan Eric Parry Architects, gael ei ddefnyddio ar gyfer ierdydd rheilffyrdd a chynwysyddion nwy. Gyda deg llawr a theras to agored wedi ei dirlunio mae'r prosiect yn darparu lle swyddfa o safon uchel, gydag amwynderau ac unedau manwerthu oddi dano. Rhoddodd Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain Wobr Llundain a Gwobr Genedlaethol iddo yn 2019. Cafodd ei gofrestru'n flaenorol fel sawl teitl gwahanol hyd nes iddynt gael eu huno gan Swyddfa Croydon i wneud cofrestriadau'n haws yn y dyfodol.

Llun: Google Earth

# Cyfweliad y Cadeirydd gan Michael Mire



**Michael Mire** Cadeirydd Cofrestrfa Tir EM

"MAE EIN STRATEGAETH BOB AMSER WEDI CANOLBWYNTIO AR GREU BUDD ECONOMAIDD EHANGACH, NID YN UNIG TRWY DRAWSNEWID EIN HUNAIN OND HEFYD O RAN SUT Y GALLWN ALLUOGI TRAWSGLUDO DIGIDOL A SUT Y GALL DEALLUSRWYDD LLEOLIAD SBARDUNO CHWYLDRO DIGIDOL EHANGACH FYTH. CREDAF FOD Y NODAU HYN YN BWYSICACH NAWR NAG ERIOED O'R BLAEN."

**Sut mae Cofrestrfa Tir EM wedi perfformio eleni o ran cyflawni yn erbyn ei nodau strategol?**

Mae ein strategaeth yn parhau tan 2022 gydag uchelgais i Gofrestrfa Tir EM arwain y byd ar gyfer cyflymder, symlrwydd a dull agored i ddata. Er nad ydym efallai wedi bodloni pob un o'n dangosyddion perfformiad allweddol eleni mae ein trawsnewid wedi dechrau o ddifrif ac fel Cadeirydd rwy'n falch gweld y sefydliad yn dal i symud yn agosach at wireddu'r uchelgais hwnnw.

Rydym wedi buddsoddi mewn offer a systemau digidol newydd gan gyflwyno deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio robotig i weithio ochr yn ochr â'n harbenigwyr cofrestru. Mae eu mewnbwn a'u syniadau yn ysgogi gwelliannau i'r prosesau presennol ond hefyd y systemau newydd y byddant yn eu defnyddio yn y dyfodol. Rydym yn datblygu diwylliant cryf o gynhwysiant ac arloesi sydd wedi gweld ymgysylltu â gweithwyr yn parhau i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae ein rhaglen y Stryd Ddigidol yn parhau i ddal dychymyg cyfreithwyr, bancwyr a chwmnïau wrth inni archwilio defnyddio system talebau mewn trafodion eiddo yn y dyfodol a chreu cofrestr ddigidol 3D i wella ymhellach y buddion y gall proses drawsgludo hollol ddigidol eu creu. Mae'r adroddiad hwn yn esbonio sut rydym wedi parhau i drawsnewid er gwaethaf blwyddyn o ansicrwydd mawr.

**Sut oedd Cofrestrfa Tir EM wedi ymateb i argyfwng y coronafeirws?**

Credaf fod y sefydliad wedi ymateb yn dda. Roedd ein buddsoddiadau yn ein systemau digidol sylfaenol dros y blynyddoedd yn golygu bod nifer o drafodion yn gallu parhau'n ddi-dor ond roedd hefyd yn sail i drawsnewid mewnol mawr wrth i fwy na 5,000 o gydweithwyr allu gweithio o gartref am y tro cyntaf. Er bod ychydig o oedi i gwsmeriaid yn anochel, golyga fod rôl hanfodol cofrestru tir mewn trafodion wedi parhau trwy'r argyfwng cenedlaethol. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi sicrhau bod y DU yn y sefyllfa orau posibl i ymateb i anghenion y farchnad eiddo wrth i unrhyw alw sydd wedi cronni gael ei ryddhau.

**Beth ydych chi'n meddwl fydd y gwahaniaeth mwyaf y byddwn yn ei weld yn y farchnad eiddo yn ystod y flwyddyn nesaf?**

Bydd marchnadoedd gwerthu eiddo yn fyd-eang yn ceisio adfer eu sefyllfaoedd blaenorol ac yn ceisio dysgu gwersi o'r pandemig byd-eang. O ran y DU credaf y byddwn yn gweld mwy o awydd i wneud trafodion eiddo yn fwy digidol. Mae gormod o brosesau papur o hyd yn y broses drawsgludo o'i gymharu â marchnadoedd eraill. Mae hyn wedi cael ei oddef gan ddefnyddwyr hyd yn hyn ond bydd y bygythiad posibl o argyfwng arall yn y dyfodol yn newid y disgwyliadau hynny. Rwy'n meddwl y bydd y rhai nad ydynt yn croesawu technoleg ddigidol yn y sector yn newid y ffordd y maent yn gweithio a bydd y rhai sydd wedi ei mabwysiadu'n gynnar am weld mwy yn ei mabwysiadu, mwy o integreiddio a llai o gamau ffisegol.

**Sut dylai Cofrestrfa Tir EM ymateb i'r galw newydd hwn am drawsgludo digidol?**

Mae cwsmeriaid a budd-ddeiliaid yn galw ar sefydliadau allweddol y llywodraeth fel ninnau i ddarparu arweinyddiaeth a chyfeiriad. Credaf ein bod mewn sefyllfa dda i gyflawni'r rôl honno iddynt.

Mae ein strategaeth bob amser wedi canolbwyntio ar greu budd economaidd ehangach, nid yn unig trwy drawsnewid ein hunain ond hefyd o ran sut y gallwn alluogi trawsgludo digidol a sut y gall deallusrwydd lleoliad sbarduno chwyldro digidol ehangach fyth. Credaf fod y nodau hyn yn bwysicach nawr nag erioed o'r blaen. Rydym mewn sefyllfa bellach i helpu i ysgogi'r newidiadau hynny yn y farchnad eiddo.

# Trosolwg



Circus West Village yng Ngorsaf Bŵer Battersea yn ne Llundain. Mae'r orsaf bŵer restredig Gradd II hon, ym mherchnogaeth Battersea Project Land Company Limited, wedi bod ar gau er 1983. Circus West Village yw Cam 1 datblygiad Gorsaf Bŵer Battersea, gan greu cymdogaeth newydd sbon gydag 865 o gartrefi, siopau a bwytai, gan gynnwys Battersea Brewery, Vagabond Urban Winery, Cinnamon Kitchen, Megan's Restaurant a phrif stiwdio Boom Cycle. Cofrestrwyd prydles sengl o'r safle hwn gan Swyddfa Weymouth ym Medi 2019.

Llun: Shutterstock/Willy Barton

# Simon Hayes
# Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir



**"MAE HAWLIAU EIDDO SY'N WERTH MWY NA £7 TRILIWN A BENTHYCA GWARANTEDIG SY'N WERTH MWY NAG £1 TRILIWN YN CAEL EU GWARANTU A'U GWARCHOD YN Y GOFRESTR TIR. ROEDD TRAFODION BLYNYDDOL Y FARCHNAD DAI SY'N WERTH £244.7 BILIWN YN GALLU DIGWYDD OHERWYDD BOD YR HAWLIAU HYNNY YN GALLU NEWID DWYLO YN GYFLYM AC YN DDIOGEL."**

Bu hon yn flwyddyn i'w chofio mewn sawl ffordd. Wrth i'r DU barhau i baratoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd, cafodd y tirlun gwleidyddol ei liwio'n bennaf gan ei natur anrhagweladwy, gyda newidiadau mawr yn y cyfeiriad a'r hwyl. Arweiniodd hyn at ansicrwydd economaidd a oedd i'w gweld yn creu lefel o ddisymudedd yn y farchnad eiddo, wrth i brisiau tai barhau'n weddol gwastad, a hyd yn oed cwympo'n annisgwyl mewn rhai ardaloedd. Yn olaf, wrth i ryw raddfa o sefydlogrwydd gael ei ddisgwyl yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol ym mis Rhagfyr, daeth her y coronafeirws, her nas welwyd erioed ei fath o'r blaen yn y byd ac sydd wedi atal llawer o weithgareddau dyddiol pobl, ac sydd wedi i bob pwrpas gau lawr rhannau mawr o'r economi fyd-eang, ac a fydd yn newid y ffordd rydym yn byw ac yn gweithio.

O ganlyniad i hyn, a newidiadau pwysig eraill ar lefel sefydliadol, bu'n rhaid i Gofrestrfa Tir EM a'i staff arddangos hyblygrwydd, cydnerthedd a chreadigrwydd er mwyn parhau i gyflawni ein swyddogaeth hollbwysig i gefnogi'r farchnad eiddo a'r economi ehangach. Mae'n falch gennyf allu adrodd yma ar ein llwyddiant o ran gwneud hynny.

Yn ystod y flwyddyn hon ymatebwyd i fwy na 35 miliwn o geisiadau am wasanaeth, gan gynnwys 5.9m o newidiadau i'r gofrestr, 20.7m o ymholiadau gwarantedig a 7.8 miliwn o geisiadau gwasanaethau gwybodaeth.

Cefais y fraint o ymuno â'r sefydliad yn Nhachwedd 2019 fel ei 17eg Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir er 1862. Cymerais yr awenau oddi wrth Mike Harlow, a fu'n gweithredu fel Prif Weithredwr Dros Dro llwyddiannus iawn am y 10 mis blaenorol. Hoffwn dalu teyrnged iddo, a gweddill y tîm Gweithredol, am eu harweinyddiaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Treuliais lawer o'm misoedd cyntaf yn teithio ar draws Cymru a Lloegr, gan siarad â chynifer â phosibl o'n staff, ein cwsmeriaid a'n partneriaid. Trwy ymweld â phob un o'n 14 swyddfa cefais ddealltwriaeth wych o'r heriau a wynebwn bob dydd, pwysigrwydd ein tasg, a'r arbenigedd a'r ymrwymiad anhygoel a ddangosir gan yn agos at 6,000 o'n cydweithwyr. Mae fy nealltwriaeth hefyd wedi cael ei dyfnhau trwy ymweliadau swyddfa gydag aelodau Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, sy'n cynnwys sesiynau 'neuadd dref' lle y gall cydweithwyr ofyn cwestiynau. Mae'r sgyrsiau a gefais â chwsmeriaid a'r diwydiant ehangach hefyd wedi bod o gymorth mawr o ran rhoi rhyw syniad o'r hyn y mae ei angen arnynt gan Gofrestrfa Tir EM, beth rydym yn ei wneud yn dda ar hyn o bryd, a'r hyn yr hoffent ein gweld yn ei wella neu'n ei wneud yn wahanol yn y dyfodol. Ar ôl chwe mis yn y swydd, rwy'n falch i fod yn rhan o sefydliad sy'n darparu gwasanaethau o safon uchel gyda chymaint o ofal ac ymrwymiad, ond rwyf hefyd yn gyffrous am y cyfleoedd sydd o'm blaenau i fod yn gofrestrfa tir sy'n wirioneddol arwain y byd. Fy nghenhadaeth yw adeiladu ar y sylfeini a osodwyd dros y 157 o flynyddoedd diwethaf, a symud Cofrestrfa Tir EM ymlaen i'r dyfodol â hyder, a gydag ymrwymiad at ragoriaeth ym mhobpeth a wnawn.

**Llwyddiannau allweddol**

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein llwyddiannau allweddol yn ystod 2019/20, a hefyd yn edrych ymlaen at ein blaenoriaethau pwysicaf yn y dyfodol. Wrth gwrs, mae digwyddiadau mis Mawrth ymlaen wedi golygu bod angen gwneud newid mawr yn y ffordd rydym yn gweithio, ond hefyd yn ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae ein huchelgeisiau ar gyfer ein trawsnewid yn parhau yr un fath, ac mae ein cyrchfan heb newid. Ond bydd ein taith yn wahanol, ac mae'n rhaid inni gydnabod ac addasu i hynny. Fodd bynnag, rwy'n benderfynol ein bod yn mynd ati mewn ffordd sy'n lleddfu'r bygythiadau i'n gwasanaeth, a'r anawsterau a wynebir gan bawb sy'n rhan o'r farchnad eiddo ar hyn o bryd, ond sydd hefyd yn achub ar y cyfleoedd a gyflwynir i wneud pethau'n wahanol, i weithio mewn ffyrdd gwahanol, a pharhau i wella'r hyn a wnawn. Rydym eisoes wedi cymryd camau mawr pwysig i'r cyfeiriad hwnnw, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Mae economi'r DU yn seiliedig ar un o'r marchnadoedd eiddo tiriog mwyaf blaenllaw yn y byd. Mae'n farchnad sy'n bosibl




Y Prif Weithredwr Simon Hayes a'r cyfarwyddwyr anweithredol Kirsty Cooper ac Elliot Jordan yn ateb cwestiynau gan gydweithwyr yn Swyddfa Nottingham yn ystod ymweliad swyddfa gan y cyfarwyddwyr

oherwydd bod hawliau eiddo sy'n werth mwy na £7 triliwn a benthyca gwarantedig sy'n werth mwy nag £1 triliwn yn cael eu gwarantu a'u gwarchod yn y Gofrestr Tir. Roedd trafodion blynyddol y farchnad dai sy'n werth £244.7 biliwn[1] yn gallu digwydd oherwydd bod yr hawliau hynny yn gallu newid dwylo yn gyflym ac yn ddiogel.

Mae'r prif ffigurau yn awgrymu nad hon oedd ein blwyddyn gryfaf o ran perfformiad, gyda dim ond chwech o'r 15 dangosydd perfformiad allweddol wedi eu cyflawni. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn adrodd stori braidd yn arwynebol, ac nid yw'n adlewyrchu gwir gyflwr y sefydliad yn fy marn i. Mewn sawl achos dim ond o drwch blewyn y collwyd ein targedau cyffredinol, er enghraifft colli ein targedau ansawdd a chyflymder gwasanaeth gan lai nag un pwynt canran.

Er y cafwyd oedi yn ein gallu i awtomeiddio'r broses yn llawn, a gafodd effaith ar y targed, gwelodd ein gwasanaeth newydd y morgais digidol gynnydd enfawr yn y galw a HSBC a Santander yw ein cwsmeriaid mwyaf bellach. Gwelsom y canlyniadau gorau erioed yn ein sgorau diwylliant ac ymgysylltu, ac er inni golli ein targed cwsmeriaid rydym yn dal i ymfalchïo yn y sgôr boddhad cwsmeriaid o 90%.

**Newid dramatig**

Roedd pandemig y coronafeirws yn golygu bod yn rhaid inni newid ein harferion a'n prosesau'n sylweddol iawn bron dros nos. O fewn mis cyntaf y cyfnod clo, cafodd mwy na 1,500 o staff fynediad llawn i weithio o bell a chwblhawyd mwy na miliwn o geisiadau gwasanaeth, gan gynnwys 100,000 o newidiadau i'r gofrestr. Ochr yn ochr â hyn roeddem yn cyflwyno'n gyflym sianeli cyfathrebu newydd i'n cwsmeriaid gan gynyddu ein capasiti yn ddyddiol trwy ddatrysiadau technoleg newydd. Roedd y gamp hyd yn oed yn fwy trawiadol oherwydd nid oedd cofrestru tir erioed wedi cael ei wneud o'r tu allan i'n swyddfeydd o'r blaen, ac nid oedd y mwyafrif o'n cydweithwyr erioed wedi gweithio o gartref o'r blaen. Ar adeg ysgrifennu, mae 97% o'n staff wedi eu cyfarparu ac yn gweithio fel hyn.

Ar yr un pryd gwnaethpwyd nifer o newidiadau i'n harferion i helpu ein cwsmeriaid, gan lacio'r dyddiadau cau ar gyfer anfon gwybodaeth a galluogi'r defnydd o dechnoleg newydd ar gyfer dilysu hunaniaeth ac anfon dogfennau atom.

[1]Cyfanswm gwerth y farchnad dai yng Nghymru a Lloegr oedd £244.7 biliwn yn y flwyddyn yn diweddu Medi 2019, ffynhonnell y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Ochr yn ochr â'r ymateb brys hwn rydym yn cynnal, ac yn wir mewn sawl ffordd yn cynyddu, ein ffocws ar y dyfodol a'r cyfle sydd gennym i foderneiddio'r sefydliad. Mae ein Strategaeth Fusnes gyfredol yn amlinellu'n fras y nod i fod yn arweinydd byd trwy ragoriaeth weithredol a diwylliannol, gan ddigideiddio prosesau trawsgludo a galluogi data geo-ofodol er mwyn ysgogi arloesi pellach ar draws y farchnad eiddo ehangach a'r economi. Mae'r nodau hyn yn bwysicach fyth yn awr ac mae'n rhaid i gyflymdra'r newid gynyddu.

Mae'r rhan fwyaf o'n hymholiadau cofrestru eisoes wedi eu hawtomeiddio'n llwyr ond y flwyddyn nesaf bwriadwn greu proses ddigidol o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer un o'n diweddariadau cofrestr mwyaf cyffredin: gwerthiant preswyl nodweddiadol gyda morgais. Bydd hyn yn dwyn ynghyd holl linynnau ein rhaglenni digidol ac yn dangos graddfa ein huchelgais ac yn sbardun ar gyfer trawsnewid ar draws pob un o'n gwasanaethau.

Mae ein gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol digidol yn enghraifft berffaith ohonom yn gwella rhan arall o'r broses drawsgludo ehangach wrth inni ddiwydiannu'r broses o fudo awdurdodau lleol ar draws Cymru a Lloegr.

**Gweithio mewn partneriaeth**

Felly mae llawer y gallwn ac y byddwn yn ei wneud i ailwampio ein prosesau a gwneud Cofrestrfa Tir EM, fel adran anweinidogol, yn addas ar gyfer y byd sydd ohoni. Ond ni allwn newid yr amodau er mwyn galluogi trawsgludo digidol ar ei ben ei hun, neu hyd yn oed dim ond gydag adrannau eraill o'r llywodraeth. Dyna pam rydym am gydweithio'n agosach mewn partneriaeth â'r farchnad. Rydym wedi sefydlu fforwm diwydiant newydd i arwain y gweithgarwch hwn. Gan adeiladu ar waith ein rhaglen ymchwil a datblygu y Stryd Ddigidol, rydym yn canolbwyntio ar y rôl y gallwn ei chwarae i arwain y farchnad tuag at drawsgludo gwirioneddol ddigidol.

Fel un sy'n newydd i fyd cofrestru tir a thrawsgludo, cefais fy synnu gan y cyfleoedd niferus sydd i wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg newydd, data gwell, a ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn gwella'r profiad i bawb a galluogi'r farchnad i weithio'n fwy effeithlon. Ar yr un pryd, bu'r un mor glir hefyd faint o awydd sydd i weithio mewn partneriaeth ar draws y sector er mwyn i hyn ddigwydd. Rwy'n ffyddiog y gallwn adeiladu ar y sylfeini addawol sydd wedi cael eu gosod, a helpu i arwain y broses o foderneiddio a thrawsnewid.




Ym mis Tachwedd daethom ag arweinwyr gwelliant parhaus o bob adran o'r llywodraeth at ei gilydd yn Swyddfa Caerlŷr ar gyfer y gynhadledd Gwelliant Parhaus mewn Arweinyddiaeth. Agorwyd y digwyddiad gan Syr John Manzoni, Prif Weithredwr y Gwasanaeth Sifil ar y pryd, a ddywedodd: "Mae'r cynnydd y mae'r rhwydwaith Gwelliant Parhaus yn ei wneud o ran datblygu'r gallu Gwelliant Parhaus ar draws y llywodraeth wedi creu cryn argraff arnaf. Roedd yn braf cael gweld hynny yn uniongyrchol fy hun."

# Cyfweliad



## Michelle Andrews
## Pennaeth Prynu Cartref
## HSBC UK




**Beth mae HSBC UK yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol o ran prynu a gwerthu cartrefi yn ddigidol?**
Mae ein mentrau digidol yn canolbwyntio ar gwsmeriaid, broceriaid a thrawsgludwyr fel budd-ddeiliaid allweddol. Ar gyfer ein cwsmeriaid a'n broceriaid, mae'n golygu symleiddio'r broses ymgeisio a'i gwneud yn hygyrch, i gydweddu â'u bywydau er mwyn iddynt allu ymgysylltu â ni pryd a sut y dymunant, a chael y penderfyniad "ie" hwnnw iddynt mor gyflym â phosibl. Ar gyfer y trawsgludwr, mae'r ffocws ar symleiddio ac awtomeiddio, fel ceisiadau Tystysgrif Teitl a datganiad adbrynu sy'n hanfodol i'r broses prynu a gwerthu cartref. Rydym hefyd yn edrych ar brosesau ymholiad trawsgludo, opsiynau awtomeiddio a hunanwasanaeth.

**Wrth i'r potensial gynyddu ar gyfer prynu a gwerthu cartref yn ddigidol, beth ydych chi'n meddwl yw'r heriau mwyaf ar gyfer y diwydiant? Beth ydych chi'n meddwl y gellid ei wella nawr?**
Yr her allweddol i'r diwydiant yw cydweithredu, gweithio gyda'n gilydd i wneud newid darparwr morgais, boed hynny trwy brynu cartref neu ailforgeisio, mor syml â symud cyfrif cyfredol. Mae ymchwil yn awgrymu bod y perchennog tŷ cyfartalog yn symud tŷ unwaith bob 20 mlynedd yn unig. Mae nifer o fenthycwyr morgais yn parhau ar gyfraddau amrywiadwy safonol a ddim yn ystyried symud i gyfradd morgais is, a all arbed miloedd o bunnoedd iddynt yn dibynnu ar y telerau a swm eu morgais. Gallai cydweithio i wneud y broses yn symlach fod o fudd i filoedd o berchnogion tai.

O ran yr hyn y gellid ei wella nawr, mae'r broses datganiad adbrynu yn her allweddol. Mae'n ymddangos bod gan bob rhoddwr benthyg broses gais wahanol, amserlen wahanol i ddarparu a hefyd cyfnodau dilysrwydd gwahanol. Mae'r rhain yn allweddol i gwblhau trafodion a gallant gael effaith uniongyrchol ar daith y cwsmer. Mae'n rhaid inni symleiddio a chydlynu, a bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr.

**Sut brofiad gawsoch chi yn cydweithio â Chofrestrfa Tir EM ar ein gwasanaeth morgais digidol? HSBC UK yw un o'r prif roddwyr benthyg sy'n defnyddio ein gwasanaeth. Sut byddech chi'n hoffi gweld y gwasanaeth hwn yn datblygu?**
Mae HSBC UK wedi gweithio gyda Chofrestrfa Tir EM a chynorthwyo gyda chyflwyno'r weithred ddigidol o'r cychwyn cyntaf. Gwyddom fod ein cwsmeriaid ailforgeisio wedi ymateb yn gadarnhaol i ddefnyddio'r weithred ddigidol ac rydym yn falch ein bod yn arwain y ffordd o ran y defnydd o'r opsiwn hwn. Rydym yn ymrwymedig i hyn ac yn awyddus i weld hyd a lled y gwasanaeth yn ehangu mor gyflym â phosibl ar gyfer ailforgeisio oherwydd gwyddom fod y galw yno. Rydym hefyd yn awyddus i weld hyn yn cael ei ehangu i brynu tai.

**Ble ydych chi'n meddwl y mae'r DU yn eistedd yng nghyd-destun byd-eang prynu a gwerthu tai yn ddigidol?**
Yn ein profiad ni mae mwy a mwy o gwsmeriaid a broceriaid yn disgwyl cyflymder ac effeithlonrwydd gwasanaethau digidol, er mwyn iddynt allu ymgysylltu â ni sut a phryd y mae'n gyfleus iddynt wneud hynny ar gyfer eu taith morgais, trwy ystod eang o sianeli. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod manteision bod yn ddigidol i'w gweld ym mhob rhan o'n bywydau. O ran y diwydiant ehangach, mae'r un heriau yn cael eu hwynebu ond at ei gilydd dechrau'r daith yw hon, gyda chyfle i gofrestrfeydd tir, rhoddwyr benthyg, syrfewyr, asiantau tai a thrawsgludwyr gydweithredu i gynnig profiad prynu a gwerthu tŷ symlach a digidol. Does ond angen inni edrych ar heriau diweddar y cyfnod clo a wynebwyd gan ein diwydiant i weld bod angen mwy o newid. Roedd rhai ymatebion a newidiadau digidol cyflym iawn i'w prosesu i sicrhau bod y farchnad yn dal i symud. Mae'n rhaid inni edrych ar yr hyn sydd wedi gweithio ac adeiladu ar hynny.


Llun: Shutterstock/Mark N Dowell

# Gwneud trawsnewid yn gryfder




Mae'r orsaf drenau newydd gwerth £1 biliwn, London Bridge Station, yng nghanol Llundain yn bwriadu darparu lle ar gyfer mwy na 90 miliwn o deithwyr y flwyddyn mewn cynteddfa lefel stryd eang sy'n fwy na chae Stadiwm Wembley. Cafodd yr orsaf ei henwebu ar gyfer Gwobr Stirling 2019 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain ar gyfer adeilad newydd gorau y DU a chafodd perchennog yr orsaf Network Rail ei enwi'n Gleient y Flwyddyn y sefydliad. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Network Rail ar brosiect peilot ar gyfer cofrestru'r cyfan o'i seilwaith a'i ystad, gan gynnwys gorsafoedd a thraciau.

Llun: Shutterstock/TK Kurikawa

# Karina Singh
# Cyfarwyddwr Trawsnewid



"MAE'R NEWIDIADAU AMRYWIOL HYN YN CAEL EU CYFLENWI GAN EIN HARBENIGWYR RHAGLEN A PHROSIECT GYDA CHYMORTH Y SWYDDFA BORTFFOLIO SY'N GWEITHIO YN ÔL SAFONAU ARFERION GORAU. MAE'R HOLL NEWIDIADAU HYN YN ARWAIN AT YR UN CANLYNIAD – GWNEUD DELIO Â CHOFRESTRFA TIR EM YN SYMLACH AC YN GYFLYMACH I GWSMERIAID A HELPU'R SECTOR TRAWSGLUDO."

Buom ar daith drawsnewid dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n cyffwrdd â phob agwedd ar ein gwaith.

Rydym yn rhoi sylw i ddegawd o danfuddsoddi yn ein pobl. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ad-drefnu'n systematig y modd y caiff timau eu strwythuro a'u harwain yn yr adran Gweithrediadau, ac yn y cyfarwyddiaethau Digidol, Data a Thechnoleg a Chyfreithiol a Sicrwydd rydym hefyd wedi dechrau symud i fodel cyflenwi a newydd ffyrdd o weithio.

Rydym hefyd yn buddsoddi yn ein cwsmeriaid. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi buddsoddi'n helaeth yn y tair prif sianel y bydd cwsmeriaid yn eu defnyddio i gysylltu â ni er mwyn gwneud eu rhyngweithio â ni yn gyflymach ac yn symlach. Rydym wedi canoli ein gwasanaeth teleffoni i roi gwasanaeth cyflymach a mwy cyson ar gyfer bron miliwn o ymholiadau bob blwyddyn.

Rydym yn trawsnewid i ddarparu rhagoriaeth, symleiddio prosesau a chorffori meddylfryd o welliant parhaus yn y ffordd rydym yn gweithio. Mae ein datganiad diwylliant a'n dyhead newydd yn gosod y fframwaith ar gyfer y dyfodol rydym yn symud tuag ato.

Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu seilio ar fuddsoddiad mawr yn ein hoffer digidol, gwasanaethau a seilwaith ategol. Rydym wedi dechrau cyflwyno'r system prosesu ceisiadau newydd, sy'n cymryd lle'r ugain a mwy o systemau gwaith achos y mae ein pobl yn eu defnyddio bob dydd, ac mae newidiadau mawr ar droed ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r llwyfan technoleg a rennir yn cymryd lle ein systemau gwaddol, gan wneud gwasanaethau newydd yn fwy hyblyg a chydnerth.


Mae'r newidiadau amrywiol hyn yn cael eu cyflenwi gan ein harbenigwyr rhaglen a phrosiect gyda chymorth y swyddfa bortffolio sy'n gweithio yn ôl safonau arferion gorau. Mae'r holl newidiadau hyn yn arwain at yr un canlyniad – gwneud delio â Chofrestrfa Tir EM yn symlach ac yn gyflymach i gwsmeriaid a helpu'r sector trawsgludo.


Mae cryfhau ein gallu i gyflenwi ac olrhain newid gyda'n pobl a'n cwsmeriaid wedi bod yn sail i'n trawsnewid parhaus.

Mae ein diwylliant corfforaethol yn annog arloesi a chydweithredu trwy gynnwys arbenigwyr cofrestru a chwsmeriaid wrth ddylunio a threialu newidiadau. Mae dull gweithredu cynhwysfawr ac aml-haenog at gyfathrebu ar draws y sefydliad yn golygu bod cydweithwyr yn deall ac yn gallu llunio'r newidiadau sy'n dod ac yn barod ar gyfer yr hyn y mae angen iddynt ei wneud yn wahanol o ganlyniad.

Rydym wedi cryfhau ein timau rheoli lleol hefyd sydd wedi cael cyfres o weithdai i roi'r sgiliau iddynt allu arwain a rheoli newid. Mae ein rhwydwaith rheolwr newid yn helpu arweinwyr lleol i ddeall a chorffori newidiadau gan ddefnyddio ein fframwaith newid pobl newydd ac mae ein timau rheoli buddion yn sicrhau bod y buddion a ddymunir yn cael eu holrhain a'u gwireddu ar lawr gwlad.

### Ein fframwaith newid pobl






**Cyflenwi'r portffolio trawsnewid 2019/20**

## Cwsmer

- Gwelliannau i'r Ganolfan Cymorth Cwsmeriaid
- Gwasanaeth Cofrestru Digidol
- View My Applications
- Llofnodi eich gweithred morgais
- Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo
- Strategaeth Sianel wedi ei cymeradwyo

## Cydweithwyr

- Brilliant by Design
- Gwelliannau proses trwy'r Swyddfa Fodel
- Rheoli newid
- LearnHub
- Cynllun gweithredu diwylliant ac ymgysylltu
- Brysbennu a dyrannu gwaith achos

## Data a digidol

- Prosesu ceisiadau gan gynnwys Workflow
- Cofrestri digidol
- Awtomeiddio proses robotig
- Y Stryd Ddigidol
- Gweithredu llwyfan cyhoeddi data newydd
- Llwyfan technoleg a rennir
- Deddfwriaeth Pridiannau Tir Lleol wedi ei gweithredu a'r garfan gyntaf o awdurdodau lleol yn fyw
- System rhannu data treth trafodiad tir Cymru
- Rhesymoli'r ganolfan ddata

## Galluogwyr a ffyrdd o weithio

- Fusion
- Cyflwyno Windows 10

Mae rhyngweithiadau cwsmeriaid â ni yn symlach ac yn gyflymach trwy dechnoleg a phrosesau gwell yn ein Canolfan Cymorth Cwsmeriaid.

Mae'r Gwasanaeth Cofrestru Digidol wedi bod ar gael mewn beta gyda 23 o gwmnïau trawsgludo yn 2019/20 a bydd ar gael cyn bo hir i bob defnyddiwr porthol, gan gymryd lle'r gwasanaeth cofrestru dogfennau electronig sy'n bodoli yn y pen draw. Mae'n helpu i leihau gwallau, ceisiadau ac ail-wneud gwaith ar gyfer cwsmeriaid, gyda cheisiadau aml-drafodaethol ar gael.

Ar hyn o bryd mae 25m o geisiadau yn cael eu cyflwyno trwy'r porthol bob blwyddyn. Mae View My Applications yn cynnig modd i gwsmeriaid ganfod a gweld y diweddariadau diweddaraf ar bob un o'u ceisiadau a gyflwynir fel hyn, mewn un lle. Agorodd y gwasanaeth i dros 200,000 o ddefnyddwyr porthol ym Mehefin 2020.

Mae ein gwasanaeth morgais digidol wedi cael ei dreialu gyda naw o fanciau'r stryd fawr, sy'n golygu ei bod yn symlach, yn gyflymach ac yn fwy diogel i gael ailforgais. Mae bron 10,000 o ailforgeisi wedi cael eu cofrestru.

Lansiwyd Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo ar GOV.UK ym mis Chwefror, gan ddisodli Find property information. Cyflawnwyd cyfanswm o 61,318 o chwiliadau gan ddefnyddio'r gwasanaeth newydd hwn erbyn 31 Mawrth 2020.

Bydd ein Strategaeth Sianel newydd yn ein helpu i ganolbwyntio mwy ar y cwsmer, gan sicrhau ein bod yn ateb anghenion ein cwsmeriaid ac yn rhoi'r gwasanaethau cywir i gwsmeriaid trwy'r sianeli cywir.

Rydym wedi mynd ati'n systematig i ad-drefnu'r ffordd y caiff timau eu strwythuro a'u harwain yn yr adran, gan greu mwy o hyblygrwydd. Mae meithrin diwylliant lle mae cynhyrchiant yn gwella trwy gydweithredu, cynhwysiant ac arloesi wedi darparu cyfleoedd datblygu ar gyfer cydweithwyr.

Rydym yn gweithio'n fwy cyson ar draws pob un o'r 14 swydd, gan dreialu a gweithredu prosesau i wella ffyrdd o weithio ar gyfer ein cydweithwyr, gan gynnwys brysbennu'n gyson geisiadau creu cofrestr a diweddaru cofrestr.

Diwygiwyd ac ail-lansiwyd y Fframwaith Newid Pobl, gan gynyddu cysondeb a'r defnydd o'r Fframwaith Newid Pobl, gan aseinio adnodd rheoli newid i bob prosiect sy'n effeithio ar ein pobl.

Cafodd system ddysgu newydd ei gweithredu ar gyfer cydweithwyr i gefnogi dysgu a datblygu personol yn fwy effeithiol a darparu mynediad i opsiynau ar gyfer datblygu gyrfa. Mae 21,698 o gyrsiau wedi cael eu cwblhau cyn belled.

Yn unol â'n diwylliant a'n gwerthoedd, rydym yn gweithio mewn ffordd sy'n gwella'n barhaus erbyn hyn, gyda chydweithwyr a grymuswyd ac arweinyddiaeth gryf.

Mae'r prosiect brysbennu a dyrannu gwaith achos wedi sicrhau bod y gwaith achos cywir wedi cyrraedd y bobl gywir. Cafodd casgliadau o'r prosiect eu mabwysiadu fel rhan hanfodol o'n gwaith bob dydd.

Rydym wedi parhau i ddatblygu'r system gwaith achos awtomataidd newydd. Eleni, dechreuom gyda cheisiadau syml, megis hollti cyd-denantiaeth – ac o'r rhain proseswn oddeutu 250 y dydd – a buom yn adeiladu cymhlethdod y ceisiadau y gellir eu trin.

Rydym yn parhau i weithio ar greu cofrestri tir sy'n ateb anghenion ein trawsnewid digidol, gan gynnig gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid a systemau prosesu ceisiadau ar gyfer gweithwyr achos sy'n fwy newydd ac yn gyflymach, gan gynnal cywirdeb y gofrestr yr un pryd.

Rydym wedi dechrau awtomeiddio tasgau syml, ailadroddus, gan ryddhau adnoddau ar gyfer gwaith mwy cymhleth. Arferai anfon llythyrau atgoffa C90A fod yn dasg â llaw, o nodi'r ceisiadau a oedd eu hangen nhw i ddrafftio ac anfon 1,300 o lythyrau bob dydd. Gan ddefnyddio awtomeiddio proses robotig rydym bellach yn anfon hyd at 27,000 o lythyrau atgoffa bob mis ac wedi cynnig modd i dri gweithiwr achos cyfwerth ag amser llawn gael eu hadleoli i wneud gwaith mwy ystyrlon.

Gan weithio gyda'n cymuned y Stryd Ddigidol rydym wedi darparu tair thema ymchwil (defnyddio talebau, cofrestr tir 3D a rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau'r dyfodol).

Mae pum set ddata sy'n bodoli wedi cael eu mudo i'r llwyfan cyhoeddi data.

Adeiladwyd llwyfan technoleg newydd i gynnal ein gwasanaethau digidol newydd, gan ein galluogi i ddatgomisiynu ein systemau gwaddol.

Cafodd pedwar awdurdod lleol pellach eu mudo i'r gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol newydd yn 2019/20, gan ddod â nifer y pridiannau a drosglwyddwyd i'r gofrestr ganolog i 358,935 ar ddiwedd Mawrth. Ar gyfer yr awdurdodau lleol a fudodd cyn belled, mae'r amser cyfartalog i gael y wybodaeth wedi lleihau o 39 diwrnod i ychydig funudau ac mae'r gost gyfartalog i'r prynwr wedi cael ei thorri o £23.75 i £15.

Cyflwynwyd system rhannu data gydag Awdurdod Refeniw Cymru i gefnogi'r gwaith o gasglu treth trafodion tir yn effeithiol yng Nghymru.

Rydym yn parhau i resymoli ein hystad canolfan ddata yn unol â strategaethau ehangach y llywodraeth, gan greu cydnerthedd ychwanegol ac arbedion effeithlonrwydd ariannol a thechnolegol.

Cyflwynwyd system adnoddau dynol a chyllid integredig newydd seiliedig ar gwmwl i leihau dyblygu a darparu un ffynhonnell data.

Dechreuwyd cyflwyno Windows 10 ar draws y sefydliad. Hyd yma mae mwy na 5,000 o beiriannau wedi cael eu huwchraddio i Windows 10 ac mae'r gwaith wedi ei gwblhau 95%.

Roedd effaith gronnol y buddsoddiadau hyn eisoes yn cael effaith gadarnhaol, fel y tystir gan ein sgorau arolwg pobl yn Hydref 2019, lle y cafwyd cynnydd o chwe phwynt canran yn y canfyddiadau ar gyfer 'newid yn cael ei reoli'n dda'. Rodd hyn dau bwynt canran yn uwch na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil a'r lefel uchaf erioed ar y pryd.

**Pridiannau tir lleol**

Ynghyd â thrawsnewid sy'n canolbwyntio ar gofrestru tir, rydym hefyd yn buddsoddi'n helaeth i helpu'r trawsnewid ehangach o'r broses drawsgludo trwy drawsnewid y broses chwilio pridiannau tir lleol.

Mae pridiannau tir lleol yn cynnwys gwybodaeth hollbwysig am y defnydd o dir megis caniatadau cynllunio neu orchmynion diogelu coed, felly mae'r gallu i chwilio'n rhwydd amdanynt yn gydran hanfodol o unrhyw drafodiad eiddo masnachol neu breswyl.

Mae'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn trawsnewid gwasanaeth sy'n dameidiog ar hyn o bryd a gyflenwir gan fwy na 300 o awdurdodau lleol i greu un gofrestr ar-lein o bridiannau tir lleol ar draws Cymru a Lloegr i roi canlyniadau mewn eiliadau.

Roedd Cam 1, a gymeradwywyd yn Ionawr 2018, yn canolbwyntio ar ddigideiddio a mudo cofnodion papur i'r gwasanaeth yn gyntaf. Fel y cam braenaru, mae Cam 1 wedi bod yn llwyddiant gyda naw awdurdod lleol a bron 400,000 o bridiannau wedi eu mudo i'r gofrestr newydd ers ei lansio yng Ngorffennaf 2018 i 31 Mawrth 2020. Mae'r gwasanaeth newydd yn profi bod gwasanaeth cenedlaethol yn ymarferol, gan ddarparu buddion uniongyrchol a pharhaol i gwsmeriaid.


Rydym wedi dysgu llawer yn ystod Cam 1, gan gynnwys bod yr amser a'r ymdrech sydd eu hangen i drawsnewid y data i'r ansawdd a ddymunir yn fwy na'r hyn a dybiwyd yn wreiddiol, a bod y set ddata pridiannau tir lleol yn cynnig buddion economaidd mawr.

Mae ein cwsmeriaid wedi eu darbwyllo o'r buddion ehangach a gynigir i brynwyr tai a buddsoddwyr eiddo trwy symleiddio a thrawsnewid y gwasanaeth. Fodd bynnag, er mwyn datgloi'r buddion hyn yn gyflymach mae'n rhaid inni ddiwydiannu mudo ar draws nifer o awdurdodau lleol law yn llaw. Yn ystod 2020/21, byddwn yn adeiladu ac yn profi model cyflenwi wedi ei ddiwydiannu gydag awdurdodau lleol a'n partneriaid i gynyddu cyflymder mudo'r data.

Eglwys Gadeiriol Peterborough yw sedd Esgob Peterborough. Wedi ei sefydlu yng nghyfnod yr Eingl-Sacsoniaid, mae ei phensaernïaeth yn Normanaidd yn bennaf. Mae'n un o'r adeiladau pwysicaf o'r cyfnod hwn yn Lloegr i barhau'n weddol gyflawn. Trosglwyddwyd data pridiannau tir lleol Cyngor Dinas Peterborough i'n cofrestr ganolog yn Ionawr 2020.




**Rheoli newid, canlyniadau o'r arolygon Pwls**




**Newid ar gyflymdra**

Cafodd ein buddsoddiad mewn gwneud newid sefydliadol yn arferol ei roi ar brawf pan fu'n rhaid inni wneud newidiadau sydyn i'n model cyflenwi cyfan o ganlyniad i bandemig y coronafeirws.

Ymatebodd y sefydliad yn gyflym iawn. Daeth arbenigwyr o bob swyddogaeth at ei gilydd o dan strwythurau parhad busnes newydd i arddangos y diwylliant o arloesi, cydweithredu a chynhwysiant rydym yn ei feithrin. Dangosodd arolygon Pwls ym Mai 2020 gynnydd arwyddocaol yn y sgorau ar gyfer rheoli newid. Gyda'i gilydd roeddent wedi cyflawni newid ar gyflymdra ac ar raddfa nas welwyd erioed o'r blaen yn hanes hir Cofrestrfa Tir EM.

Mae pob sefydliad yn meddwl am newid, boed hynny yn ymateb uniongyrchol i bandemig y coronafeirws, a sut y byddant yn adfer eu sefyllfa neu ragweld sut beth fydd y dyfodol iddyn nhw. Mae bron yn sicr na fydd pethau byth yr un fath. Yr angen mwyaf amlwg yw mabwysiadu technoleg ddigidol yn gyflymach er mwyn i drawsgludo fod yn fwy digyswllt, heb unrhyw wrthdaro yn y dyfodol.

Er y bydd Cofrestrfa Tir EM yn wynebu heriau, rydym wedi llwyddo i reoli, mabwysiadu a chyflenwi trwy flwyddyn o ansicrwydd oherwydd rydym wedi gwneud camau mawr ar ein taith drawsnewid ein hunain.

Yr hyn fydd yn allweddol inni yn 2020/21 fydd defnyddio'r hyn rydym wedi ei ddysgu er mwyn cael mwy o ffocws a chyflymu ein hymdrechion. Bydd graddfa a chyflymdra ein huchelgais yn cael ei grynhoi'r flwyddyn nesaf o fewn ein Strategaeth Fusnes ddiwygiedig, ond rydym eisoes yn ceisio manteisio ar y cyfleoedd a'r ysgogwyr a all symud ein trawsnewid ymlaen i gam cyflymach newydd.

# Pridiannau tir lleol

Ar gyfer yr awdurdodau lleol sydd wedi mudo cyn belled, mae'r amser cyfartalog sydd ei angen i gael y wybodaeth sydd ei hangen wedi lleihau o 39 diwrnod i ychydig funudau ac mae'r gost gyfartalog i'r prynwr wedi ei thorri o £23.75 i £15. Yn ystod 2019/20 ychwanegwyd pedwar awdurdod lleol arall i'n Cofrestr Pridiannau Tir Lleol ganolog, arloesol gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Watford yn Chwefror 2020.

"MAE YMUNO Â'R GOFRESTR PRIDIANNAU TIR LLEOL WEDI GOLYGU NAD OES YN RHAID INNI DDARPARU CANLYNIADAU CHWILIO EIN HUNAIN MWYACH OHERWYDD MAE'R WYBODAETH AR GAEL YN RHWYDD I'N CWSMERIAID O'R GOFRESTR DDIGIDOL, GANOLOG PRYD BYNNAG Y BYDD ANGEN Y WYBODAETH ARNYNT.

"MAE MUDO HEFYD YN EI WNEUD YN LLAWER HAWS INNI DDIWEDDARU'R GOFRESTR GANOLOG PAN FYDD ANGEN. GALLWN WNEUD HYNNY O GARTREF HYD YN OED AC MAE COFRESTRU PRIDIANNAU YN GYFLYMACH NAG Y BU ERIOED O'R BLAEN."

**Ben Martin**
Pennaeth Dros Dro Cynllunio a Rheoli Adeiladu yng Nghyngor Bwrdeistref Watford




Mae Stadiwm Vicarage Road, cartref Clwb Pêl-droed Watford er 1922, yn cynnig lle i fwy na 21,500 o ddilynwyr. Dros y blynyddoedd mae'r tir hefyd wedi croesawu rasys milgwn a thîm rygbi'r undeb y Saraseniaid. Ar ôl cyfnod byr pan brynwyd rhydd-ddaliad y stadiwm yn 2002, yn dilyn ymgyrch 'Let's Buy Back the Vic' gan y dilynwyr gyda chymorth y cyn berchennog Elton John, prynodd y clwb y rhydd-ddaliad eto yn 2004. Mae cynlluniau ar droed bellach i ehangu capasiti'r stadiwm i ddarparu lle ar gyfer oddeutu 30,000 o ddilynwyr. Ymunodd Cyngor Bwrdeistref Watford â'n Cofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Chwefror 2020, gan drosglwyddo ei gofnodion pridiannau tir lleol i'n gwasanaeth digidol canolog.

Llun: Shutterstock/Peter Fleming

# Wynebu'r her




Mae The London Studios a ddyluniwyd gan CH Elsom & Partners wedi ei leoli y tu ôl i'r enwog Southbank yn Llundain. Roedd yr adeilad yn gartref i'r prif stiwdios ar gyfer cynyrchiadau ITV gan gynnwys *Good Morning Britain, The Graham Norton Show, Ant & Dec's Saturday Night Takeaway* a *The Jonathan Ross Show*. Caeodd y stiwdios yn 2018 a gwerthodd ITV y safle yn Nhachwedd 2019 i Mitsubishi Estate London am £164m. Cofrestrwyd y gwerthiant gan Swyddfa Abertawe. Erbyn hyn mae'r adeilad wedi cael ei gynnig ar brydlesi tymor byr ar gyfer cynyrchiadau teledu tan 2021.

Llun: Shutterstock/BigRoloImages

# Cyfweliad gyda Chris Pope
# Prif Swyddog Gweithrediadau



**"RWY'N CREDU Y BYDD Y NEWIDIADAU A WNAETHOM ELENI YNGHYD Â RHAI NEWIDIADAU CYFFROUS YN 2020/21 YN SICR O WELLA PROFIAD Y CWSMER WRTH I DRAWSNEWID DDECHRAU CREU GWIR FUDDION I'N CWSMERIAID."**

**Sut byddech chi'n disgrifio'r flwyddyn hon ar gyfer gweithrediadau Cofrestrfa Tir EM?**

Er gwaetha'r cwestiynau am y farchnad eiddo yn wyneb ansicrwydd gwleidyddol a'r cynlluniau i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae ein gweithgarwch wedi parhau'n fywiog. Darparwyd 5.9m o wasanaethau newid cofrestr, 20.7m o ymholiadau gwarantedig a 7.8m o geisiadau gwasanaeth gwybodaeth. Roedd hyn yn golygu y byddai'r problemau a wynebwyd o ran adnoddau a gallu yn y blynyddoedd blaenorol yn parhau i fod yn her i gyflenwi gweithredol y flwyddyn hon hefyd. Ond doedden ni ddim wedi aros yn ein hunfan.

Penderfynwyd cynyddu ein gallu ar waith mwy cymhleth er mwyn ailgydbwyso ein safle gweithredol, gan gydnabod bod hyn yn golygu ein bod mewn perygl o ran targedau cyflymder gwasanaeth ar gyfer mathau eraill o waith.


Y teimlad oedd mai dyma oedd y peth iawn i'w wneud ar gyfer ein cwsmeriaid. Fodd bynnag, collwyd tri o'r targedau safon gwasanaeth gan lai nag 1%, sy'n teimlo'n galed, ond mae'n adlewyrchu'r ffocws gweithredol ar leihau ceisiadau cymhleth sy'n aros i'w prosesu. Gall hyn deimlo fel asesiad anodd ar gyfer ein harbenigwyr cofrestru gweithredol a oedd unwaith eto wedi gweithio'n ddiflino i gyflawni ein dyletswydd statudol. Ac yna, wrth gwrs, ar ddiwedd y flwyddyn, roedd rhaid inni ymdopi ag effaith y coronafeirws hefyd.

**Sut mae cwsmeriaid wedi teimlo am y gwasanaeth rydych wedi ei ddarparu iddynt y flwyddyn hon?**
Yn y trafodaethau a gawsom â chwsmeriaid, gwyddom mai'r hyn y maent yn ei werthfawrogi fwyaf yw ein cydweithwyr arbenigol a'i fod yn hawdd gwneud busnes â ni. Maent hefyd yn gwerthfawrogi cysondeb, maes sydd wedi gwella'n fawr y flwyddyn hon ond hefyd cyflawni pethau o fewn amserlen resymol. Gwyddom eu bod wedi teimlo'n rhwystredig gan yr oedi a fu i'w ceisiadau creu cofrestr cymhleth.

Roedd cyfradd boddhad cyffredinol cwsmeriaid yn 90% ar gyfer y flwyddyn hon. Yn erbyn cefndir o sgorau hanesyddol o uchel, roedd cwsmeriaid yn cydnabod ein bod yn dal i ddarparu gwasanaeth da iawn er ein bod wrthi'n trawsnewid ac yn goresgyn rhai heriau gweithredol. Credaf eu bod yn dal i werthfawrogi ein hymdrechion i gyflawni'r mwyafrif helaeth o'r miliynau o chwiliadau hanfodol a newidiadau cofrestr a gyflwynant mor gyflym â phosibl ac i safon arbennig o uchel. Er inni golli ein dangosydd perfformiad allweddol gan 2% mae hynny'n sgôr sydd yn dal i fod yn destun balchder ac yn dangos ein rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaeth cyhoeddus.

Ond gwyddom fod angen inni wneud mwy. Rwy'n credu y bydd y newidiadau a wnaethom eleni ynghyd â rhai newidiadau cyffrous yn 2020/21 yn sicr o wella profiad y cwsmer wrth i drawsnewid ddechrau creu gwir fuddion i'n cwsmeriaid.

### Sgôr boddhad cwsmeriaid



**Beth fuoch chi'n ei wneud i wella'r gwasanaeth rydych yn ei ddarparu iddynt?**
Roedd ein Canolfan Cymorth Cwsmeriaid wedi delio â bron miliwn o alwadau ac wedi prosesu 196,055 o e-byst yn 2019/20. Mae ei thrawsnewid wedi ei gwblhau bellach gyda thechnoleg well a thîm hyfforddi penodedig ar gyfer ein cynghorwyr. Ym mis Awst lansiwyd opsiynau ymateb llais rhyngweithiol newydd a chliriach, gan ei gwneud hi'n gyflymach ac yn symlach i gysylltu â ni. Mae'r gwelliannau hyn wedi gweld cyfraddau galwadau ffôn sy'n cael eu gadael yn cwympo gan 20% ac amserau aros galwadau yn lleihau gan bum munud.

Mae bron 95% o'n gwasanaethau yn cael eu darparu trwy ein portholau busnes ar-lein. Eleni buom yn profi nodweddion newydd, a ddatblygwyd gyda chwsmeriaid, sy'n eu galluogi i fewnbynnu data y gellir eu dilysu a'u gwirio cyn i'w cais gael eu cyflwyno – gan leihau gwallau ac atal oedi diangen ac ymholiadau pellach.

Bydd View My Applications hefyd yn cynnig modd i gwsmeriaid weld eu holl geisiadau blaenorol a rheoli eu holl geisiadau, ochr yn ochr â dyddiad amcangyfrifedig ac unrhyw ohebiaeth gysylltiedig, gyda'i gilydd mewn un lle. Mae gwella'r profiad ar gyfer gwneud a rheoli eu ceisiadau yn gam mawr ymlaen ac yn floc adeiladu allweddol ar gyfer ein trawsnewid cyffredinol. Mae ein mabwysiadwyr cynnar yn gyffrous am y nodweddion newydd hyn a fydd ar gael yn fwy cyffredinol yn haf 2020.

Er bod technoleg ddigidol yn dominyddu'r trafodaethau yn y farchnad wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn ateb anghenion unigryw ac amrywiol gweithwyr proffesiynol eiddo sy'n cyflawni prosiectau masnachol a seilwaith mawr cymhleth.

Lansiwyd amrywiaeth o wasanaethau pwrpasol sydd wedi helpu cwsmeriaid eleni gyda mwy na 3,000 o fuddion sy'n cynnwys trafodion aml-haenog ac aml-barti ar draws mwy na 180 o brosiectau.

**Pa fesurau oeddech chi wedi eu cymryd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad?**
Y flwyddyn ddiwethaf yn unig, recriwtiwyd 340 o Swyddogion Cofrestru, 225 o gydweithwyr i rolau Swyddog Cofrestru Gweithredol neu Reolwr Llinell Swyddog Cofrestru Gweithredol, 151 o gydweithwyr i rolau Uwch Swyddog Cofrestru neu Reolwr Llinell Uwch Swyddog Cofrestru ac 18 o gydweithwyr i rolau cofrestru uwch.

Cydweithwyr Swyddfa Caerlŷr wrth eu desgiau, llun wedi ei dynnu cyn iddynt ddechrau gweithio o gartref ym mis Mawrth oherwydd pandemig y coronafeirws.



Llun: Bwrdd Cofrestrfa Tir EM/Ian Stone

Fodd bynnag, mae cael y nifer cywir o arbenigwyr cofrestru yn un agwedd yn unig o'n huchelgeisiau. Rydym am ad-drefnu ac ail-lunio ein gweithrediadau i fod yn swyddogaeth genedlaethol, fwy hyblyg a all ddelio'n well â newidiadau yn y farchnad. Un sy'n gallu gwyro egni yn ddeallusol yn ôl anghenion – galwn y rhaglen hon yn Brilliant by Design, llinyn allweddol o'n Strategaeth Fusnes.

Datblygwyd a dilyswyd cynllun i sicrhau bod gan arbenigwyr gweithredol yr offer a'r sgiliau cywir. Lle cânt eu hysgogi gan ddiwylliant, lle mae gwelliannau cynhyrchiant yn cael eu gwneud trwy gydweithredu, cynhwysiant ac arloesi. Gelwir y dull cyfannol hwn at gael y gorau o'n harbenigwyr cofrestru tir yn Galluogi Potensial Tîm. Roeddem ar fin cwblhau ad-drefnu cenedlaethol o'n timau gweithredol ac wrthi'n cyflwyno Galluogi Potensial Tîm ar draws ein gweithrediadau cyn i'r coronafeirws daro.

Roedd ein penderfyniad i ganolbwyntio o'r newydd ein gallu gweithredol ar waith cymhleth yn brawf cynnar o'r strwythur Brilliant by Design ac a allai ein cydymdrechion greu buddion cynnar. Ym mis Chwefror, cychwynnwyd newid tymor byr i greu un nod clir – lleihau ceisiadau cymhleth sy'n aros i'w prosesu.

Gyda'r momentwm a grëwyd, roeddem ar darged i glirio oddeutu 11,000 o geisiadau o'n hôl-groniad erbyn diwedd y flwyddyn a, thrwy wneud hynny, gwella cyflymder gwasanaeth gan 17 diwrnod. Cyfyngodd y coronafeirws hyn i oddeutu 6,000 o geisiadau o'n hôl-groniad gyda gwelliant o 10 diwrnod.

Credaf fod y canlyniadau calonogol hyn yn dangos ein bod yn dechrau troi'r gornel ar yr heriau blaenorol hynny yn union pan ddechreuodd yr argyfwng iechyd cyhoeddus gydio.

**Sut oedd y coronafeirws wedi effeithio ar weithrediadau Cofrestrfa Tir EM?**
Rydym yn falch bod ein sefydliad 157 oed wedi sefyll yn gadarn trwy'r argyfwng iechyd cyhoeddus gwaethaf mewn mwy na chanrif. Aethom o sefydliad oedd yn gweithredu'n gyfan gwbl o'r swyddfa ac un lleol yn hanesyddol i swyddogaeth genedlaethol sy'n gweithio o bell mewn mater o wythnosau. Erbyn hyn mae ein harbenigwyr wedi eu cyfarparu'n llawn i ddarparu gwasanaeth cofrestru tir o bell. Hyd yn oed yn ystod yr wythnosau cyntaf hynny roeddwn wedi parhau i wneud miloedd o newidiadau i'r gofrestr gan adeiladu'n gyflym ar ein gallu i weithio o bell.

Yr her a wynebwn nawr yw sut y gallwn fanteisio ar ragoriaeth weithredol mewn amgylchedd hollol newydd. Ond roedd hyn yn rhywbeth roeddem eisoes yn ei archwilio'n ofalus fel rhan o'n rhaglen Brilliant by Design. Mae'r newid a orfodwyd arnom i'n model gweithredu yn creu sbardun i gyflymu ein cynlluniau, oherwydd yn sydyn rydym eisoes wedi troi'n swyddogaeth genedlaethol sy'n gweithredu o bron 4,000 o leoliadau gwahanol.

Mae nifer o egwyddorion Galluogi Potensial Tîm sef grymuso arweinwyr, datrys problemau yn gydweithredol, dysgu ar y cyd trwy offer digidol ac ymrwymiad at lesiant wedi cael eu corffori'n gyflym yn y ffordd rydym wedi ymateb ac addasu i'r sefyllfa a wynebwn. Erbyn hyn rydym yn gloywi ac yn ail-ddilysu ein cynllun er mwyn darparu ar gyfer y ffyrdd newydd o weithio. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gallwn fanteisio ar y profiad hwn i greu rhagoriaeth weithredol trwy gael y gorau o gydweithwyr sy'n gweithio o bell a'r rhai sy'n gweithio mewn swyddfeydd, nid yn unig nawr ond yn y dyfodol hefyd.

# Cofrestru ystad GIG Cymru

**Clive Ball**, Pennaeth Eiddo yn GIG Cymru:

"Mae ystad GIG Cymru yn cynnwys amrywiaeth o eiddo o ysbytai aciwt mawr i ysbytai cymunedol llai, canolfannau iechyd a gorsafoedd ambiwlans bach.

"Er bod cyfran sylweddol o ystad GIG Cymru eisoes wedi ei chofrestru, yn unol â dulliau rheoli ystad ddarbodus, penderfynwyd sicrhau bod holl eiddo ac asedau tir GIG Cymru yn cael eu cofrestru gyda Chofrestrfa Tir EM.

"Cofrestrwyd 365 o asedau tir rhydd-ddaliol gyda chymorth Cofrestrfa Tir EM. Mae hyn wedi helpu wrth waredu safleoedd wedi hynny yn ogystal ag anghydfodau ffiniau a hawliadau tresmasu. Mae hefyd yn cefnogi ymrwymiad y llywodraeth at fod yn dryloyw.

"Trwy gydweithio'n agos â Chofrestrfa Tir EM, roeddem yn gallu cwblhau'r ymarfer cofrestru mewn modd effeithlon a chost-effeithiol. Yn 2019 cadarnhaodd Cofrestrfa Tir EM fod ystad GIG Cymru wedi cwblhau cofrestru ei hasedau rhydd-ddaliol, a'r corff cyhoeddus cyntaf yng Nghymru a Lloegr i gael ei gydnabod felly."




Llun: Shutterstock/Jax10289

**Sut ydych chi'n ymateb i anghenion newydd y farchnad?**
Yn y tymor byr rydym yn olrhain yn ofalus deimladau cwsmeriaid ar draws pob sianel ac yn ystyried sut y gallwn helpu ein cwsmeriaid i reoli'r sefyllfa sydd ohoni a hefyd lleihau eu risgiau ar gyfer y dyfodol.

Wrth i'r farchnad eiddo wella, a'n capasiti a'n cynhyrchiant gynyddu, ein ffocws yw clirio'r holl geisiadau sy'n aros i'w prosesu a rhoi sylw i unrhyw faterion ar gyfer cwsmeriaid.

Cydran newydd yn ein deallusrwydd cwsmeriaid yw fforwm diwydiant newydd sydd, am y tro cyntaf, yn dwyn ynghyd ein budd-ddeiliaid allweddol ochr yn ochr â thrawstoriad o'n cwsmeriaid i drafod atebion ymarferol i wella'r modd rydym yn rhyngweithio â'r farchnad.

Mae rhai wedi amcangyfrif bod cynifer â 370,000 o drafodion eiddo wedi cael eu gohirio ond gwyddom o brofiad y bydd y mwyafrif helaeth yn ailddechrau yn y pen draw, gan fod trafodion eiddo eu hunain yn adlewyrchu digwyddiadau bywyd ac amgylchiadau newidiol unigolion a busnesau.

Bwriadwn ddefnyddio'r cyfle annisgwyl hwn i newid y modd y darparwn ein gwasanaethau yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar ragoriaeth weithredol a chreu profiad o safon fyd-eang i'n cwsmeriaid.

# Darparu hyder a chanlyniadau



Cafodd Drake's Island, Plymouth, ei werthu am £2m yng Ngorffennaf 2019 a chafodd caniatâd cynllunio ei roi yn 2020 ar gyfer datblygiad gwesty moethus a sba. Mae'r plot chwe erw, a alwyd yn wreiddiol yn St Michael's Island, wedi ffurfio rhan annatod o amddiffynfeydd môr Plymouth ers yr 16eg ganrif gan gynnwys yn ystod y ddau ryfel byd. Cafodd y trosglwyddiad ei gofrestru gan Swyddfa Telford.

Llun: Shutterstock/RogerMechan

# Mike Harlow
# Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir



**“MAE CAEL Y DASG HONNO YN GYWIR BOB TRO YN GOFYN AM Y RADDFA UCHAF O ARBENIGEDD MEWN CYFRAITH COFRESTRU EIDDO A THIR, DULLIAU RHAGOROL O SICRHAU CYDNERTHEDD YN ERBYN TWYLL A RHEOLI RISG.”**

Ar gyfer pob parsel o dir mae’n rhaid i Gofrestrfa Tir EM ddeall pwy sy’n berchen arno, ei hyd a’i led a’r hawliau cymhleth sydd yn aml yn cyd-fynd ag ef, a’r hawliau a all fod gan eraill drosto. Yn y Gofrestr Tir ceir dros 25 miliwn o barseli unigol o dir sy’n werth mwy na £7 triliwn. Y llynedd ymdriniwyd â bron 6 miliwn o geisiadau i newid y gofrestr. Bob tro mae’n rhaid inni sicrhau ein bod yn delio â’r perchnogion eu hunain ac nid twyllwr, ac mae’n rhaid inni adlewyrchu’n gywir y gwir ddarlun newydd o hawliau cyfraith eiddo y mae’r partïon wedi cytuno â nhw.

Mae cael y dasg honno yn gywir bob tro yn gofyn am y raddfa uchaf o arbenigedd mewn cyfraith cofrestru eiddo a thir, dulliau rhagorol o sicrhau cydnerthedd yn erbyn twyll a rheoli risg.

Mae diogelwch a chywirdeb ein holl gofrestri yn hanfodol i ffydd a hyder yn y farchnad eiddo, sydd yn ei dro yn hanfodol i’r economi yn gyffredinol.

Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd ac ers hynny, mae Cofrestrfa Tir EM, a’r rhai yn y diwydiant trawsgludo, wedi bod yn addasu i’r ffyrdd newydd o weithio sy’n angenrheidiol mewn ymateb i bandemig y coronafeirws. Gwnaethom rai addasiadau mewn ymarfer ar unwaith a fyddai’n galluogi’r farchnad i barhau i weithredu, gan gadw rheolaeth agos yr un pryd dros risgiau i gywirdeb y cofrestri.


Mae’r gwaith hwnnw wedi parhau i’r flwyddyn nesaf, wrth inni geisio sicrhau y gall yr holl drafodion eiddo fynd rhagddynt ar gyflymdra. Trwy gyflymu ein cynlluniau ar gyfer mabwysiadu ffyrdd digidol o weithio – yn fwyaf nodedig mewn perthynas â hunaniaeth a llofnodion digidol – rydym yn cefnogi’r farchnad nawr ac yn datblygu ei heffeithlonrwydd a’i chydnerthedd ar gyfer y dyfodol.

Ni fu erioed yn fwy pwysig i gynnal golwg a rheolaeth glir ar y risgiau i’r cofrestri er mwyn gallu treialu arloesoedd a’i fabwysiadu gyda’r hyder nad yw’n amharu ar y cyfrifoldeb craidd sef cynnal ffydd a hyder.

Mae Adran Actiwari’r Llywodraeth yn asesu’r tueddiadau tymor hir inni. Ei chyngor yw bod iawndal ar gyfer anghywirdeb yn gyson ar y cyfan tra bo twyll yn lleihau. Yn seiliedig ar y cyngor hwnnw lleihawyd ein darpariaeth yn erbyn hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (mewn geiriau eraill, gwallau sydd eisoes yn y gofrestr nad ydym yn ymwybodol ohonynt eto) gan £17.5m i £66.7m.

Mae’n ymdrech sefydliad cyfan sy’n sicrhau’r rheolaeth honno dros wallau a thwyll. Mae’r Gyfarwyddiaeth Cyfreithiol a Sicrwydd yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn deall ac yn dilyn pob agwedd ar y gyfraith cofrestru eiddo a thir, rheoli risg twyll, darparu sicrwydd a helpu’r sefydliad i reoli risg. Cyflawnwn yr amcanion hyn yn bennaf trwy arbenigedd ein staff a defnyddio systemau a phrosesau arferion gorau.

## Hawliadau yn erbyn y warant




Y flwyddyn ddiwethaf derbyniwyd 18 (13 yn 18/19) o hawliadau ar gyfer twyll a 1,055 (1,159 yn 18/19) o hawliadau ar gyfer anghywirdeb yn y gofrestr. Talwn iawndal priodol ar gyfer hawliadau teg. Y flwyddyn ddiweddaf talwyd £2.1m (£0.4m yn 18/19) mewn iawndal ar gyfer twyll a £3.2m (£2.2m yn 18/19) mewn iawndal ar gyfer anghywirdeb. Roedd y cyfanswm iawndal 0.00008% yn unig o gyfanswm gwerth yr eiddo yn y gofrestr.

**Datblygu ein harbenigedd**
Y flwyddyn hon sefydlwyd swyddogaeth risg a sicrwydd ar wahân a ddaeth ag arbenigedd er mwyn inni allu corffori model rheoli risg tair llinell amddiffyn, datblygu galluoedd sicrwydd a dilyn arferion gorau ar gyfer diogelwch, parhad busnes a rheoli a diogelu data. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mwy yn y maes hwn i sicrhau y gallwn drawsnewid gwasanaethau'r sefydliad yn gyflym, ond gyda'r hyder nad ydym yn tanseilio ein pwrpas craidd o gynnal cofrestri diogel a chywir.

Mae ein cynllun prentis cyfreithiol wedi parhau gyda 12 o brentisiaid yn cwblhau eu hyfforddiant hyd at lefel 3 Sefydliad Siartredig y Swyddogion Gweithredol Cyfreithiol (CILEx), a chafodd pedwar cydweithiwr eu derbyn yn Gymrodorion CILEx ar ôl iddynt gwblhau'r cynllun aelodau graddedig, a chafodd un ohonynt ddyrchafiad wedi hynny i fod yn gyfreithiwr. Derbyniwyd 14 o brentisiaid eraill a phedwar dysgwr o bell ar lefel 3 ac ychwanegwyd wyth prentis arall ac un dysgwr o bell sy'n hyfforddi hyd at CILEx lefel 6 i'r chwech gwreiddiol y mae disgwyl iddynt gwblhau eu hyfforddiant yn ystod 2020/21. Cafodd y cyfleoedd ar gyfer ein dysgwyr o bell eu cyflwyno yn swyddfa Abertawe oherwydd nid yw'r cynlluniau prentis ar gael trwy CILEx yng Nghymru. Recriwtiwyd naw cyfreithiwr hefyd o'r tu allan i'r sefydliad, gan helpu i gynnal persbectif iach ar arferion cyfredol yn y farchnadle.

Cafodd ein cyfreithwyr sy'n rhoi cyngor strategol a phrosiect eu dwyn ynghyd i ddarparu un ganolfan rhagoriaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod trawsnewid gwasanaeth yn cael ei ategu gan y wybodaeth gyfreithiol orau ar yr adeg ac ar y cyflymdra y mae ei angen ar brosiectau ystwyth.

Ymysg pethau eraill, mae'r tîm hwn sydd newydd ei ffurfio wedi bod yn gyfrifol am sicrhau'r pontio cyfreithiol hawdd o fod yn gronfa fasnachu ac adnewyddu ein telerau trwyddedu data.

**Datblygu ein systemau**
Y llynedd cyflwynwyd system rheoli twyll newydd arloesol i wella ein cydnerthedd rhag twyll.

Cymerwyd cam yn ôl hefyd ac ystyried sut y gallai cofrestru tir weithio yn gyffredinol mewn byd digidol, gan ddechrau o'r egwyddorion cyntaf. Credwn fod llawer o fanteision i'r sector os ydym yn ailystyried graddfa'r sicrwydd a roddir gan drawsgludwyr i Gofrestrfa Tir EM ar bob trafodiad.

Ochr yn ochr â'n gwaith brys i gefnogi parhad busnes yn ystod argyfwng y coronafeirws, rydym wedi dechrau siarad â budd-ddeiliaid ynghylch y ffordd fwyaf effeithiol o ryddhau'r potensial hwn.



Eleni dathlwyd graddio y cyntaf o'n prentisiaid profiadol sy'n weithwyr achos yn Gymrawd CILEx ac ymgymryd â rôl fel cyfreithiwr Cofrestrfa Tir EM. Ymunodd Alken Brookes â Chofrestrfa Tir EM yn 1997 fel swyddog cofrestru, yn delio â cheisiadau cofrestru syml, ar adeg pan oeddem yn dal i fapio rhai cynlluniau teitl trwy ddefnyddio brwshys paent ar bapur â chefn lliain!

Yn ystod ei yrfa, datblygodd Alken ei wybodaeth o'r gyfraith ac ymarfer cofrestru tir, fodd bynnag, heb gymhwyster proffesiynol cyfreithiol cydnabyddedig nid oedd yn gymwys i weithio fel cyfreithiwr Cofrestrfa Tir EM. Newidiwyd hyn pan ddaeth yn Gymrawd CILEx. Bu Alken yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth recriwtio agored, gan guro ymgeiswyr allanol eraill o safon uchel i fod ein cyfreithiwr hyfforddedig mewnol cyntaf erioed.

**"RWY'N HYNOD FALCH O DDECHRAU YN Y RÔL NEWYDD HON AC AD-DALU AM Y CYMORTH A'R BUDDSODDIAD Y MAE COFRESTRFA TIR EM WEDI EU GWNEUD YN FY NGYRFA."**

**Alken Brookes**, Cofrestrydd Tir Cynorthwyol



Enillodd Nevill Holt Opera yn Swydd Gaerlŷr, wedi ei ddylunio gan Witherford Watson Mann, Wobr Dwyrain Canolbarth Lloegr 2019 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), Gwobr Cadwraeth Dwyrain Canolbarth Lloegr 2019 RIBA, Adeilad y Flwyddyn Dwyrain Canolbarth Lloegr 2019 RIBA a Gwobr Genedlaethol 2019 RIBA. Cafodd ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Stirling 2019 RIBA hefyd. Lleolir y tŷ opera 400 sedd yng nghwrt stabl o'r 17eg ganrif o fewn Neuadd Nevill Holt. Cafodd y cofrestriad cyntaf ei gwblhau gan Swyddfa Caerlŷr.

Llun: agefotostock/Jim Stephenson

# Canolbwyntio o'r newydd ar fod yn ddigidol



Cafodd Goldsmith Street yn Norwich ei ddisgrifio fel "campwaith syml" gan y beirniaid pan gafodd ei gydnabod fel adeilad newydd gorau y DU yn 2019 ac ennill Gwobr Stirling Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain. Wedi ei ddylunio gan Mikhail Riches gyda Cathy Hawley ar gyfer Cyngor Dinas Norwich, mae Goldsmith Street yn darparu bron 100 o gartrefi ynni isel iawn wedi eu trefnu mewn saith bloc teras. "Dyma dai cymdeithasol go iawn sydd wedi cymryd dros ddeng mlynedd i'w hadeiladu, wedi eu darparu gan gyngor uchelgeisiol a meddylgar," dywedodd y beirniaid. Cofrestrodd y cyngor rannau o'r safle o dan brosiect cofrestriad cyntaf gwirfoddol.

Llun: Alamy Stock Photo/John Birdsall

# Cyfweliad gydag Andrew Trigg
# Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg



**“ ROEDD YN RHAID I’N TIMAU WNEUD SEFYDLIAD OEDD YN GWEITHIO BRON YN GYFAN GWBL O’R SWYDDFA GYDAG YN AGOS AT 6,000 O BOBL, WEDI EI LEDAENU AR DRAWS Y WLAD, YN SEFYDLIAD SY’N GWEITHIO O BELL MEWN YCHYDIG WYTHNOSAU. ROEDD Y FFORDD Y DAETH EIN TIMAU AT EI GILYDD I ORESGYN YR HERIAU TECHNOLEGOL A LOGISTAIDD, YNGHYD Â GRADDFA’R DASG EI HUN, YN ANHYGOEL.”**


**Pa fath o flwyddyn fu hi i’r gyfarwyddiaeth?**

At ei gilydd mae wedi bod yn flwyddyn dda i’r Gyfarwyddiaeth Digidol, Data a Thechnoleg. Mae ein timau bob amser yn awyddus i ddarparu mwy ond rwy’n credu ein bod wedi dangos faint mae ein gallu digidol wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae’n fraint imi allu adrodd ar ein gweithgareddau ac mae’n rhaid imi dalu teyrnged i John Abbott a arweiniodd ein cyfarwyddiaeth yn ystod 2019/20.


**Beth oedd uchafbwyntiau’r flwyddyn?**
Yn gynnar yn y flwyddyn roedd hi’n wych cael ein cydnabod gan y diwydiant wrth inni ennill gwobr EG Tech Big Picture Award, enillom ni ddwywaith yn y Real IT Awards a chyrhaeddom y rownd derfynol yng nghategori sector cyhoeddus Intelligent Busnes Awards y *Financial Times*. Roedd y gwobrau yn cydnabod ein hagwedd uchelgeisiol at drawsnewid digidol a’n hymrwymiad at weithio gyda’r farchnad i ddod â data a’r gwasanaethau iddynt i wneud eu bywydau yn haws.

Roeddem wrth ein bodd i fod yn agos at gyrraedd ein targed o brosesu 10,000 o weithredoedd ailforgais digidol erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd oedi wrth awtomeiddio’n llwyr rai elfennau terfynol o system Cofrestrfa Tir EM wedi cyfrannu at beidio â chyflawni’r dangosydd perfformiad allweddol ei hun. Fodd bynnag, roedd yn dangos ein gallu i greu gwasanaeth arloesol y mae darparwyr marchnad arweiniol megis HSBC a Santander am ei hyrwyddo fel rhan o’r ddarpariaeth ddigidol i’w cwsmeriaid.

**Morgeisi digidol wedi eu cofrestru**




Santander HSBC COVENTRY Building Society



Cyflawnwyd ein dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer argaeledd e-wasanaeth. Rydym yn cymryd hwnnw yn ganiataol yn aml oherwydd y lefelau uchel o wasanaeth a gynigiwn ond yn y cyd-destun sydd ohoni rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig i gydnabod y llwyddiant. Mae'r lefel uchel hon o argaeledd wedi golygu bod ein cwsmeriaid yn gallu parhau i anfon ceisiadau trwy ein gwasanaethau ar-lein a derbyn canlyniadau ar unwaith ar gyfer y ceisiadau mwyaf sensitif o ran amser yn ystod argyfwng y coronafeirws.

Mae hyn yn dod â mi i uchafbwynt olaf a ddaeth wrth i'r flwyddyn ddod at ei therfyn. Yn sydyn roedd yn rhaid i'n timau wneud sefydliad oedd yn gweithio bron yn gyfan gwbl o swyddfeydd gydag yn agos at 6,000 o bobl, wedi ei ledaenu ar draws y wlad, yn sefydliad sy'n gweithio o bell mewn ychydig wythnosau. Roedd y ffordd y daeth ein timau at ei gilydd i oresgyn yr heriau technolegol a logistaidd, ynghyd â graddfa'r dasg ei hun, yn anhygoel.

**Ar beth mae Cofrestrfa Tir EM wedi bod yn canolbwyntio o ran trawsnewid digidol?**
Mae'r gwaith ymchwil a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf trwy ein rhaglen y Stryd Ddigidol wedi dangos y bydd angen data strwythuredig ar drawsnewid digidol rhwydd er mwyn awtomeiddio'n llwyr drosglwyddo perchnogaeth eiddo heb yr angen am adfer neu ddilysu gwybodaeth â llaw.

Felly mae ein trawsnewid digidol yn canolbwyntio ar dderbyn data digidol a ddilyswyd gan ein cwsmeriaid, sy'n golygu y gall eu cais gael ei brosesu mewn ffordd sy'n dileu tasgau gweinyddol â llaw ac yna cael ei storio fel data strwythuredig i'w hadfer yn hawdd a'u hailddefnyddio ar gyfer amryw o ddibenion.

Eleni buom yn treialu ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol newydd gyda rhai o'n cwsmeriaid. Yn barod i'w lansio yn yr haf, bydd yn cynnig modd i gwsmeriaid anfon ffurflenni trwy ddefnyddio meysydd digidol a fydd yn dilysu'r wybodaeth y maent yn ei rhoi cyn ei hanfon atom. Mae hyn yn lleihau'r angen am bapur, gan gyflymu'r broses ar gyfer ein cwsmeriaid, ond mae hefyd yn sicrhau bod safonau ansawdd data yn cael eu dilyn o'r cychwyn cyntaf.

Er bod mwy nag 83.6% o'n ceisiadau cwsmeriaid eisoes wedi eu hawtomeiddio'n llawn, bydd newidiadau cymhleth i'r gofrestr bob amser yn gofyn am arbenigwyr cofrestru. Cyflynwyd prosesu robotig y flwyddyn ddiwethaf, gan ei ddefnyddio i gychwyn i anfon llythyrau atgoffa i gwsmeriaid. Erbyn hyn rydym yn ei ddefnyddio i gyflymu gwaith achos. Mae ein robotau yn archwilio mwy na 25,000 o geisiadau yr wythnos i wirio a yw unrhyw geisiadau cyfatebol eraill am yr un tir neu eiddo eisoes yn bodoli yn y system. Mae hyn yn arbed amser gwerthfawr ar gyfer ein harbenigwyr cofrestru. Rydym yn profi sut y gall deallusrwydd artiffisial leihau ymhellach dasgau â llaw llafurus, gyda rhai canlyniadau cynnar addawol. Mae'r camau hyn i gyd yn ffurfio rhan o system prosesu ceisiadau hollol newydd i gymryd lle'r systemau sydd wedi dyddio y mae ein harbenigwyr cofrestru yn eu defnyddio ar hyn o bryd, gan olygu y gallant fod yn fwy cynhyrchiol.


Wrth wraidd hyn yw ein cynlluniau i adeiladu cofrestr wirioneddol ddigidol a all cynnal data strwythuredig. Rydym eisoes wedi dylunio'r model newydd ar gyfer storio a defnyddio data Cofrestrfa Tir EM sy'n defnyddio arferion gorau a safonau byd-eang.

## Y Stryd Ddigidol Blwyddyn 3

Mae'r Stryd Ddigidol yn parhau i gael ei harwain gan sylwadau ein cymuned y Stryd Ddigidol. Cynigiodd y gymuned bob un o'r pynciau rydym wedi eu harchwilio y flwyddyn hon ac roedd ein hymchwil wedi bwydo'n uniongyrchol i drawsnewid digidol ehangach Cofrestrfa Tir EM.

Er bod prosiect y Stryd Ddigidol wedi canolbwyntio'r flwyddyn ddiwethaf ar sut y gallai bloc-gadwyn wella'r broses cofrestru tir, eleni archwiliodd y prosiect dair thema.


- **Defnyddio talebau tir ac eiddo**. Creodd y tîm brototeip o gysyniad Cofrestrfa Tir EM gan greu a chyhoeddi talebau digidol i gynrychioli perchnogaeth teitl. Byddai'r talebau hyn yn cael eu storio ar gronfa ddata wedi ei hategu gan dechnoleg bloc-gadwyn. Gan ddefnyddio talebau diogelwch wedi eu cysylltu â thalebau teitl, byddai perchnogion eiddo yn gallu cofnodi'n ddiogel berchnogaeth ffracsiynol o eiddo – lle mae mwy nag un person â budd cyfreithiol mewn eiddo – gyda mwy o hyblygrwydd nag sy'n bosibl ar hyn o bryd. Gweithiodd y tîm gydag aelod o gymuned y Stryd Ddigidol i ddangos sut y gallai'r talebau diogelwch hyn gael eu masnachu ar farchnadle ddigidol. Mae hyn yn creu cyfres o fuddion posibl, gan gynnwys darparu mwy o gyfle ar gyfer buddsoddi mewn eiddo. Roeddem yn bwriadu cyflwyno ein gwaith ar dalebau yng Nghynhadledd Tir a Thlodi Banc y Byd ym mis Mawrth, ond cafodd y digwyddiad ei ganslo oherwydd y coronafeirws.
- **Rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau gwell**. Ymchwiliodd y tîm i ryngwynebau rhaglennu cymwysiadau gwell, sef meddalwedd sy'n cynnig modd i systemau gwaith achos ein cwsmeriaid ddarllen data Cofrestrfa Tir EM – a sut y gallai hyn gyflymu ceisiadau trwy ddarparu mwy o ddata ar y cychwyn, gan leihau gwallau a chynnig modd diweddaru'r Gofrestr Tir yn awtomatig. Bydd canlyniad yr ymchwil hwn yn bwydo'n uniongyrchol i'r adolygiad o'n sianel Business Gateway.
- **Cofrestr tir 3D**. Adeiladodd y tîm brototeip i ddangos sut y gallai data Cofrestrfa Tir EM gael eu gweld mewn 3D syml. Cafodd y data geo-ofodol a gedwir yn y gofrestr eu rhoi dros y testun gan y tîm er mwyn gweld y gofrestr gyfan yn well. Trwy gynnwys nifer y lloriau gallai arddangos safle gwahanol deitlau o fewn adeilad aml-lawr. Adolygodd cymuned y Stryd Ddigidol y gwaith gan ddweud wrthym fod ganddo'r potensial i wella nifer o'r tasgau bob dydd o fewn y diwydiant tir ac eiddo. Bydd y casgliadau hyn yn llywio ein gwaith ar y gofrestr ddigidol.



# Rhyddhau setiau data

**Prydlesi cofrestredig**
Bydd ein cynlluniau i gyhoeddi ein gwybodaeth les-ddaliad yn ysgogi arloesi ac yn creu mwy o dryloywder yn y broses prynu a gwerthu tŷ. Mae statud yn mynnu ein bod yn cofrestru data ar brydlesi a roddwyd sy'n para dros saith mlynedd. Wrth gyhoeddi'r data yma gobeithiwn gynorthwyo gwerthwyr tai i gyfrifo prisiadau eiddo yn fwy manwl-gywir, a helpu adrannau'r llywodraeth yn eu dealltwriaeth o'r farchnad eiddo. Mae gan y set ddata hon oddeutu 5 miliwn o resi o ddata, gan gynnwys disgrifiad eiddo a dyddiad a chyfnod y brydles.

**Cyfamodau cyfyngu**
Credwn y gallai ymwybyddiaeth gynnar o gyfamodau helpu i gyflymu'r broses prynu eiddo trwy ddatgelu a rhoi sylw i broblemau yn llawer cynt mewn trafodion trawsgludo. Ac yn achos gweithwyr proffesiynol eiddo eraill, megis datblygwyr, mae'n hollbwysig gwybod a oes unrhyw gyfyngiadau ar dir a nodwyd fel tir y gellir ei ddatblygu. Dyna pam ein bod yn bwriadu rhyddhau'r data a gadwn ar gyfamodau cyfyngu i'w defnyddio'n ehangach. Bydd y wybodaeth hon, sy'n cyfateb i oddeutu 17 miliwn o resi o ddata, yn catalogio cyfamodau sydd fel arfer yn codi pan fydd y gwerthwr eiddo am gyfyngu'r hyn y gall y prynwr ei wneud gyda'r tir. Mae enghreifftiau yn cynnwys gwarantu hawl mynediad a gwahardd y defnydd o'r eiddo ar gyfer busnes.



Llun: Shutterstock/Kai Celvin

**Sut ydych chi'n galluogi trawsgludo digidol ac yn datgloi mwy o ddefnydd o geo-ofodol y tu hwnt i gofrestru tir yn unig?**
Mae ein prosiect ymchwil a datblygu y Stryd Ddigidol wedi parhau i edrych ar y manteision posibl y gallai technoleg newydd eu cynnig. Cynhaliwyd pob un o dri phrosiect ymchwil y tîm ochr yn ochr â chymuned y Stryd Ddigidol. Trafododd cynrychiolwyr o bob maes yn y farchnad eiddo yr hyn y byddai ei angen i fabwysiadu technoleg newydd yn llwyddiannus a sicrhau ei bod o fudd i bob parti yn y broses prynu a gwerthu eiddo. Mae canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn yn bwydo'n uniongyrchol i'r cynllunio ar gyfer cyfeiriad trawsnewid digidol yn y dyfodol.

Rydym eisoes yn trawsnewid rhannau eraill o'r broses drawsgludo, yn benodol chwiliadau awdurdod lleol, gan eu gwneud yn fwy digidol trwy gyflwyno ein Cofrestr Pridiannau Tir Lleol genedlaethol. Gyda naw awdurdod lleol wedi mudo erbyn 31 Mawrth 2020, mae'r gwasanaeth eisoes wedi darparu mwy nag 11,000 o chwiliadau mewn ffurf ddigidol o safon uchel ac am bris cyson. Cafwyd mwy na 45,000 o chwiliadau personol digidol hefyd.

Erbyn hyn rydym yn ystyried diwydiannu mudo data i'r gofrestr fel ein bod nid yn unig yn creu gwasanaeth digidol cenedlaethol ond hefyd yn cynyddu deallusrwydd lleoliad y genedl. Y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau â'n rhaglen rhyddhau data gyda thair set ddata newydd wedi eu hategu gan lwyfan newydd a fydd yn dwyn ein holl ddata ynghyd mewn un lle.

Fel aelod sylfaenol o'r Comisiwn Geo-ofodol, darparwyd mewnbwn a chyfeiriad i'w strategaeth newydd, sy'n amlinellu sut y gall y DU arwain y byd ym maes data geo-ofodol a gweithio tuag at ddatgloi'r £6bn i £11bn o fudd economaidd ehangach blynyddol a amcangyfrifir. Potensial y cyfraniad hwn at adferiad economaidd yw'r rheswm pam y mae meddylfryd geo-ofodol yn parhau i fod wrth wraidd ein cynlluniau.

Hon fydd ein pumed flwyddyn o fuddsoddi yn ein rhaglen ddeori Geovation, sy'n cael ei rhedeg ar y cyd â'r Arolwg Ordnans, sydd wedi gweld 117 o fusnesau newydd o Brydain yn graddio, gan greu 484 o swyddi a denu mwy na £77m o fuddsoddiad gan drydydd partïon.

**Beth yw'ch cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf?**
Rwy'n meddwl y bydd sefyllfa'r coronafeirws yn gorfodi pob sector i edrych o'r newydd ar eu cynlluniau digidol i weld a allant wynebu'r heriau posibl mewn dyfodol ansicr. Yn fyd-eang, rwy'n meddwl y bydd gwledydd sydd â marchnadoedd eiddo tiriog gwerthfawr yn rhoi mwy o sylw i'r risgiau o'u gwasanaethau tir ac eiddo gwerthfawr yn methu â gweithredu.

Mae mabwysiadu digidol yn sector trawsgludo y DU wedi cael ei arwain yn bennaf gan y sector ei hun. Bu'n araf i newid ei brosesau, sydd dal yn dibynnu ar bapur llawer gormod. Credaf y bydd y galw gan ddefnyddwyr yn newid. Er bod pobl efallai wedi goddef prynu a gwerthu tŷ fel proses bapur i raddau helaeth cyn hyn, rwy'n meddwl y bydd yr agweddau hyn yn newid yn gyflym nawr.


Ar ôl treulio'r blynyddoedd diwethaf yn creu'r blociau adeiladu angenrheidiol, credaf y gallwn ddwyn y llinynnau hynny ynghyd i ddangos potensial cofrestru tir digidol.

Y flwyddyn nesaf ein nod yw cyflwyno a phrosesu'n ddigidol ein mathau mwyaf cyffredin o drafodion, gan fanteisio ar awtomeiddio lle bynnag y gallwn. I gychwyn byddwn yn canolbwyntio ar geisiadau i ddileu morgais, trosglwyddo perchnogaeth ac ychwanegu pridiant newydd. Mae amlder y ceisiadau hyn yn adlewyrchu'r ffordd y bydd y rhan fwyaf o bobl yn prynu ac yn gwerthu eiddo preswyl. Rydym eisoes wedi profi'r cais cyntaf i drosglwyddo perchnogaeth eiddo, gan gydweithio'n agos â grŵp dethol o gwsmeriaid i adeiladu'r gwasanaeth gorau posibl.

# Cwrdd â'r carfannau Geovation newydd





Mae **Veya** yn rhoi gwybodaeth bwysig i brynwyr tai yn gynharach yn y broses drawsgludo. Gyda'r nod o geisio lleihau'r amser cyfartalog i brynu a gwerthu, mae Veya yn bwriadu sicrhau bod manylion hollbwysig am eiddo ar gael i ddarpar brynwyr cyn eu bod yn gwneud cynnig.




Mae **Crowdhaus** yn moderneiddio'r farchnad chwilio eiddo trwy ddarparu arwyddion 'Ar Werth' clyfar ar gyfer yr 21ain ganrif sy'n anfon hysbysiadau i ddefnyddwyr yn yr ardal. Trwy ail-becynnu data a'u gwneud ar gael unrhyw le, bydd system Crowdhaus yn cyflwyno'r data mewn ffurf hawdd ei thrafod i helpu defnyddwyr i gael gwybodaeth bwysig pan fydd ei hangen arnynt.





Mae ap symudol **SociAbility** a llwyfan casglu data cyfrannu torfol yn golygu y gall defnyddwyr gael gwybodaeth hygyrchedd fanwl a dibynadwy ar gyfer lleoliadau cymdeithasol lleol a siopau yn gyflym ac yn hawdd. Trwy gyfuno data Cofrestrfa Tir EM â llu o ffynonellau data eraill, mae'r ap yn gallu cael y wybodaeth y mae ei hangen ar bobl anabl ond nid oes mynediad ganddynt ati ar hyn o bryd.




Mae **Lairvue** yn gwmni gweld eiddo sy'n darparu gwasanaeth gweld eiddo cynhwysfawr saith diwrnod yr wythnos i sicrhau nad yw trefniadau gweld eiddo yn cael eu canslo, eu gohirio neu eu colli.




Mae **Building Passport** yn defnyddio data geo-ofodol i fapio cynlluniau llawr adeiladau, i greu amgylchedd mwy diogel ar gyfer ymatebwyr cyntaf y gwasanaethau brys.




Mae **OneStay** yn creu marchnadle tryloyw a dibynadwy, lle gall gwesteion gysylltu â gwesteiwyr i gynnig am eiddo rhentu gwyliau a mynd i'r afael â lle a wastraffir a heb ei ddefnyddio, gan ddarparu gwerth.




Mae **Occubly** yn gweithio gyda landlordiaid mawr y DU i ddarparu gwybodaeth trwy ddulliau dadansoddi data datblygedig ac awtomeiddio datrys rhai o'r problemau cymhleth sy'n gysylltiedig ag eiddo prydlesol.

**"HON FYDD EIN PUMED FLWYDDYN O FUDDSODDI YN EIN RHAGLEN DDEORI GEOVATION, SY'N CAEL EI RHEDEG AR Y CYD Â'R AROLWG ORDNANS, SYDD WEDI GWELD 117 O FUSNESAU NEWYDD O BRYDAIN YN GRADDIO, GAN GREU 484 O SWYDDI A DENU MWY NA £77M O FUDDSODDIAD GAN DRYDYDD PARTÏON."**

**Andrew Trigg,** Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg

# Yn unedig trwy ein diwylliant




Roedd diwylliant sefydliadol ymysg y pynciau a drafodwyd pan ddaeth arweinwyr gwelliant parhaus at ei gilydd o bob adran o'r llywodraeth yn Swyddfa Caerlŷr ym mis Tachwedd ar gyfer y gynhadledd Gwelliant Parhaus mewn Arweinyddiaeth.

Llun: Cofrestrfa Tir EM/Ian Stone

# Simon Morris
# Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol



**“TRWY GYDOL Y FLWYDDYN ROEDD FFRYDIAU GWAITH AMRYWIOL WEDI CORFFORI EIN DIWYLLIANT NEWYDD YN EIN HARFERION GWAITH, EIN POLISÏAU CYSYLLTIEDIG Â PHOBL A’R FFORDD RYDYM YN ARWAIN AC YN CEFNOGI EIN POBL. MAE HYN YN CYFLAWNI YMRWYMIAD PWYSIG YM MLWYDDYN TRI EIN STRATEGAETH Y BOBL.”**

Mae’n bleser nodi mai un o’m tasgau cyntaf ers ymuno ym Mehefin 2020 yw gallu adrodd ar flwyddyn wych i Gofrestrfa Tir EM. Pobl arbenigol – gwneud penderfyniadau cofrestru tir cymhleth, cefnogi systemau hanfodol neu ddarparu arferion gorau mewn rolau corfforaethol – yw ased mwyaf gwerthfawr Cofrestrfa Tir EM. Rydym am sicrhau ein bod yn cael y gorau ganddynt.


Diolch i Jon Cocking, a arweiniodd mewn modd mor ddeheuig fel Cyfarwyddwr dros dro yn ystod 2019/20, archwiliodd Cofrestrfa Tir EM ei diwylliant yn y dyfodol gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad a lansio datganiadau diwylliant newydd ym Mai 2019, gan ddiffinio’r hyn sydd ei angen arnom gan bob cydweithiwr i fod yn gofrestrfa tir sy’n arwain y byd. Trwy gydol y flwyddyn roedd ffrydiau gwaith amrywiol wedi corffori ein diwylliant newydd yn ein harferion gwaith, ein polisïau cysylltiedig â phobl a’r ffordd rydym yn arwain ac yn cefnogi ein pobl. Mae hyn yn cyflawni ymrwymiad pwysig ym mlwyddyn tri ein Strategaeth y Bobl.

Mae’n amlwg bod iechyd a llesiant wedi bod yn ffocws parhaus ar gyfer Cofrestrfa Tir EM gydag amrywiaeth o ymgyrchoedd, mentrau a chymorth ar gyfer llesiant meddyliol a chorfforol ein cydweithwyr. Un nodwedd bwysig oedd ein pwyllgorau LR Leisure ac elusennol gyda Jon Cocking yn gweithredu fel cadeirydd y ddau bwyllgor.

Mae ymdrechion ein rhwydwaith o wirfoddolwyr sy’n cydlynu gweithgareddau chwaraeon a chymdeithasol ac ymdrechion elusennol wedi gweld £88,116 yn cael ei godi ar gyfer achosion da a bron chwarter o’r holl gydweithwyr yn cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau a drefnwyd. Mae ein rhwydwaith o hyrwyddwyr cynaliadwyedd wedi plannu coed i helpu bioamrywiaeth a sefydlu clybiau llaeth a chynllun benthyca bagiau siopa i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Mae ymrwymiad, egni a brwdfrydedd ein gwirfoddolwyr yn dangos gwerthoedd Cofrestrfa Tir EM ar waith a’r gorau o’n diwylliant.

Cynhyrchodd Arolwg y Bobl 2019 ym mis Hydref y nifer fwyaf erioed o ganlyniadau unwaith eto. Roedd ein sgôr Mynegai Ymgysylltu o 63% yn ein rhoi yn y chwartil uchaf ar gyfer y Gwasanaeth Sifil ar gyfer sefydliadau o faint a natur gyfwerth. Roedd ein sgôr ar gyfer arweinyddiaeth a rheoli newid o 48% hefyd yn ein rhoi yn yr un braced ac yn golygu ein bod wedi cyrraedd ein targed Strategaeth Fusnes ar gyfer 2022 yn gynt na’r disgwyl. Yn ein harolwg pwls diweddaraf ym Mai 2020, flwyddyn ar ôl lansio ein diwylliant, mae’r sgorau hyn wedi codi’n sylweddol i 73% a 60% yr un, gan ein meincnodi yn erbyn rhai o’r sgorau gorau ar draws y Gwasanaeth Sifil. Rwy’n hynod gyffrous i ymuno â Chofrestrfa Tir EM ar adeg mor gyffrous i’w chydweithwyr.

**Sgôr mynegai ymgysylltu â gweithwyr**



**Rhyddhau a chefnogi ein doniau**

Agwedd allweddol ar lansio'r diwylliant newydd oedd yr ymrwymiad i wella gallu arweinyddiaeth ac mai dim ond newid gan arweinwyr fyddai'n wir gorffori diwylliant newydd o fewn y sefydliad.

Y ffocws ar gyfer y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth oedd arwain newid a datblygu dull hyfforddi o arweinyddiaeth. Mae'r dull hyfforddi mwy blaengar hwn yn canolbwyntio ar rymuso cydweithwyr, annog arloesi a galluogi gwneud penderfyniadau ar y lefelau cywir. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithdai a hwylusir yn allanol ac yn fewnol, siaradwyr gwadd, dysgu ar-lein, adborth 360 a hyfforddi a mentora gweithredol.

Disgwylir i arweinwyr fod yn fodelau rôl ar gyfer y dyheadau a nodir yn ein datganiadau diwylliant newydd, gyda mwy nag 20 o flogiau mewnol wedi eu cyhoeddi ac 16 o dimau uwch arweinwyr yn cymryd rhan mewn sesiynau arweinyddiaeth newid i sicrhau eu bod yn deall y camau y mae angen eu cymryd i gefnogi ein dyheadau. Mae aelodau bwrdd wedi bod yn cynnal rhaglen reolaidd o ymweliadau swyddfa gyda fformatau rhithwir newydd yn cael eu treialu i sicrhau'r effaith fwyaf gyda chydweithwyr o bell. Mae agweddau newydd at reoli perfformiad yn cael eu treialu sy'n rhan o'n hymdrechion i annog arloesi cydweithredol, gwella ein perfformiad ar y cyd a helpu cydweithwyr i ddatblygu a llwyddo.

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi creu sylfeini cryf i adeiladu a chynnal y gweithlu dawnus sydd ei angen arnom. Y flwyddyn hon recriwtiwyd 464 o gydweithwyr newydd ac ehangwyd y rhaglen brentisiaeth arobryn i gynnwys amrywiaeth ehangach o gynlluniau sy'n cynyddu ein doniau arbenigol a rheoli ein hunain gan helpu yr un pryd i rychwantu'r bwlch rhwng uwch rolau technegol a chyfreithwyr.



## "ALLWN I DDIM FOD WEDI CAEL CYFLWYNIAD GWELL I GYFATHREBU CORFFORAETHOL AC RWY'N EDRYCH YMLAEN AT BARHAU I DDYSGU LLAWER MWY"

Ymunodd **Olivia Frost** â'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yng Nghofrestrfa Tir EM fel Prentis Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth, yn gweithio tuag at ennill NVQ (Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol) lefel 4 mewn Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu. Yn ystod ei misoedd cyntaf gyda'r tîm, gweithiodd Olivia ar brosiectau yn amrywio o fwrdd darlunio a ffilmio fideo ar gyfer ein gwasanaeth Llofnodi eich gweithred morgais, diweddaru ein polisi cyfryngau cymdeithasol a gweithio gyda'n Tîm Dylunio Graffig i baratoi ein cylchlythyr ar gyfer cydweithwyr sydd wedi gadael y sefydliad.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gallu i gynllunio gweithlu ar lefelau tactegol, gweithredol a strategol, gan gydweithio â chydweithwyr ar draws y sefydliad. Mae cynllun adnoddu tymor canolig yn ei le ar gyfer arbenigwyr cofrestru sy'n gallu newid fel mae'r amgylchiadau yn newid. Mae'r rhaglen Brilliant by Design wedi sefydlu gofynion penodol ar gyfer gwahanol fathau o gofrestriadau ym mhob swyddfa ac mae system trin galwadau ac adnoddu newydd wedi cael ei chyflwyno yn y canolfannau cyswllt cwsmeriaid.

Mae'r gwaith y mae'r Gyfarwyddiaeth Digidol, Data a Thechnoleg yn ei wneud ar weithredu cymunedau o ymarfer, a defnyddio hyn fel y cyfrwng ar gyfer cynllunio'r gweithle o ran capasiti a gallu, wedi datblygu'n sylweddol y flwyddyn hon ac wedi arwain at agwedd wahanol at ddefnyddio contractwyr i ategu ein gweithlu ein hunain.

Mae prosiect newydd wedi cael ei sefydlu i adeiladu system rhagfynegi, cynllunio a chyllidebu newydd a fydd yn cynnwys cynllunio gweithlu strategol, gan arwain at ddull a ysgogir mwy gan ddata ar gyfer cynllunio'r gweithle mewn pryd ar gyfer cytuno ar gynllun busnes newydd.

Mae'r Fframwaith Dysgu a Datblygu sy'n sail i'n Strategaeth y Bobl wedi llywio ein hymdrechion ar ddatblygu sgiliau a gallu. Rydym wedi cyflwyno system rheoli dysgu ar-lein gynhwysfawr newydd gyda chynnydd arwyddocaol mewn rhyngweithiadau cydweithwyr â mentrau dysgu a datblygu.

Ochr yn ochr ag arweinyddiaeth y maes â blaenoriaeth ar gyfer datblygu sgiliau oedd sgiliau cofrestru technegol ac rydym wedi creu modelau datblygu a defnyddio llwybrau hyfforddi optimwm ar gyfer y rhan fwyaf o'n rolau gweithiwr achos.


Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn meysydd sgiliau allweddol eraill gan gynnwys y maes digidol, masnachol, ariannol a datblygiad proffesiynol parhaus cyfreithiol a chyfathrebu.

Treuliodd gweithwyr (gan gynnwys prentisiaid) 4.8 diwrnod ar gyfartaledd yn hyfforddi, gydag 83% o'r staff yn dweud fod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith yn Arolwg blynyddol Pobl y Gwasanaeth Sifil.

Ynghyd â llwybrau hyfforddi clir, rydym wedi darparu mwy o gyfleoedd i'n cydweithwyr wneud cynnydd, gan gynyddu ein gallu i gwblhau gwaith achos mwy cymhleth. Rydym wedi gwneud yn well na'n dangosydd perfformiad allweddol i ddatblygu a dyrchafu o leiaf 275 o gydweithwyr i ac o fewn y graddau gweithiwr achos gweithredol, gyda ffigur terfynol o 399 o gydweithwyr.

Mae'n rhaid i'r biblinell hon o ddoniau barhau i sicrhau bod Cofrestrfa Tir EM yn cael y gweithle y mae ei angen arni i ateb anghenion nawr ac yn y dyfodol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio ar annog pobl o grwpiau heb eu cynrychioli'n ddigonol i ymgymryd â rolau rheoli ac arwain.

Gyda'i gilydd mae ein chwe rhwydwaith amrywiaeth dan arweiniad cydweithwyr, pob un gyda noddwr Bwrdd Gweithredol, yn cynnwys mwy na 1,200 o aelodau ac yn gweithio ar y cyd i gyflawni nodau'r sefydliad. Er na allwn gyrraedd ein targed ar gyfer cynyddu cydweithwyr duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn graddau rheoli, gwnaethpwyd yn well na'n dangosydd perfformiad allweddol i gynyddu cynrychiolaeth benywod mewn graddau rheolwyr canol ac uwch reolwyr gan 50%. Rwyf am i'n rhwydweithiau ddarparu sylwadau gwerthfawr a her i ysgogi ein huchelgais i fod y cyflogwr mwyaf cynhwysol yn y llywodraeth.




Mae uwch arweinwyr ar draws y sefydliad yn blogio'n rheolaidd ar ein mewnrwyd, o'r Prif Weithredwr i'r dirprwy gyfarwyddwyr a rheolwyr eraill. Mae pob blog yn dechrau sgwrs gyda chydweithwyr, trwy sylwadau ac ymatebion, sy'n datblygu thema'r blog ac yn aml yn cynnig syniadau a dealltwriaeth newydd.

# Ein rhwydweithiau staff

**Mae ein rhwydweithiau staff yn chwarae rôl bwysig o ran ein helpu i ddatblygu'r polisïau gorau i gefnogi ac ysgogi uchelgeisiau ein pobl. Maent yn grymuso ein pobl ac yn helpu i wneud Cofrestrfa Tir EM yn lle gwych i weithio.**



Amgueddfa Dros Dro Hanes Pobl Dduon yn Croydon, a drefnwyd gan aelodau a gwirfoddolwyr y Rhwydwaith Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

## Y Rhwydwaith Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Mae'r Rhwydwaith Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn hyrwyddo cred Cofrestrfa Tir EM sef beth bynnag fo'ch ethnigrwydd neu gefndir, dylai fod y gallu a'r cyfle gennych i gyflawni eich potensial.

Ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon 2019 trefnodd y rhwydwaith nifer o anerchiadau a digwyddiadau. Ysgrifennodd un cydweithiwr hanes personol o gael ei fagu fel rhywun o dras gymysg ym Malaysia a Lloegr, a'r achosion o hiliaeth a wynebodd ar hyd y ffordd. Wedi ei gyhoeddi ar y fewnrwyd, ysgogodd hyn drafodaeth agored am hil a hiliaeth.

Mae gweithgor hefyd wedi ysgogi mwy o gynrychiolaeth gan bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar baneli cyfweld ac wedi creu llysgenhadon recriwtio i ymgysylltu â chymunedau lleol a chynyddu nifer y bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n gwneud cais am swyddi.



Aelodau Sicrwydd yn dangos diwylliant cynhwysol Cofrestrfa Tir EM ac yn gobeithio denu doniau newydd amrywiol yng Ngŵyl Parch Plymouth, Mehefin 2019

## Y Rhwydwaith Sicrwydd

Mae Sicrwydd, ein rhwydwaith ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhyw, yn agored i unrhyw un sydd am godi ymwybyddiaeth o faterion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a chefnogi ein pobl trwy helpu i sicrhau bod ein hamgylchedd gwaith yn caniatáu i gydweithwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol i deimlo'n ddiogel, yn gysurus a gallu bod eu hunain.

Cafodd Mis Hanes Lesbiaidd Hoyw Deurywiol a Thrawsrywiol ei ddathlu yn Chwefror 2020 gyda hanes personol yn disgrifio pam bod un aelod sydd 'allan' yn teimlo'n ddiogel yng Nghofrestrfa Tir EM. Dywedodd un sylwebydd: "Blog gwych [...] rwy'n wirioneddol fach dy fod di'n hapus yma yn nheulu'r Gofrestrfa Tir. Mae'n lle gwych i weithio ac rwy'n falch i fod yn rhan o'r holl rwydweithiau cydraddoldeb."



Cynhaliodd y Rhwydwaith Oedran sesiwn i gydweithwyr yn Swyddfa Fylde yn ystod Wythnos Dysgu yn y Gwaith 2019.

## Y Rhwydwaith Oedran

Mae'r Rhwydwaith Oedran yn darparu lle i gydweithwyr o bob oedran drafod materion cysylltiedig ag oedran a hyrwyddo dealltwriaeth a thriniaeth deg i bawb yn seiliedig ar bwy ydyn nhw, ac nid y flwyddyn ar eu tystysgrif geni.

Trwy gydol 2019/20 mae'r rhwydwaith wedi trefnu digwyddiadau sydd ar gael i nifer o bobl. Roedd y rhain yn cynnwys boreau coffi, hyfforddiant Deall Dementia a sgyrsiau Skype.

Yn Ionawr 2020 dathlwyd Wythnos Ymwybyddiaeth Oedran gyda digwyddiadau yn seiliedig ar flaenoriaethau i bobl o bob oedran – bod yn hyderus gyda sgiliau digidol, ymwybyddiaeth o ddementia a deall eich pensiwn.

**Mike Harlow, Noddwr Bwrdd**
"Mae canfyddiad pobl o'r hyn a olygir wrth fod yn ifanc, yn hen neu yn y canol yn effeithio arnom ni i gyd. Mae'n rhagfarn sydd, fel pob rhagfarn arall, yn angharedig a does dim croeso iddi yma. Rwy'n falch ein bod ni wedi sefydlu'r rhwydwaith a gweld y gefnogaeth iddo yn tyfu'r flwyddyn hon. Rwyf am gefnogi ei ymdrechion i weld pawb yn cael eu parchu a'u deall fel unigolion eithriadol ac unigryw, beth bynnag fo'u hoedran."

Llun: Cofrestrfa Tir EM/Rawpixel.com



Ym Mawrth 2020 cynhaliodd y rhwydwaith ddigwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Menywod traws-lywodraethol

## Rhwydwaith Menywod

Mae'r Rhwydwaith Menywod yn gymuned ddiogel a chefnogol sy'n cynnig arweiniad a chymorth mewn meysydd megis datblygu gyrfa, absenoldeb rhieni a llesiant corfforol a meddyliol.

Mae'r Rhwydwaith yn defnyddio Yammer fel lle diogel i'r aelodau drafod pryderon personol a chysylltiedig â gwaith. Yn ystod cyfnod clo y coronafeirws crëwyd grŵp Facebook ategol i gyrraedd y bobl hynny nad oeddent yn gallu cyrchu systemau Cofrestrfa Tir EM o gartref.




Roedd Mis Hanes Anabledd yn uchafbwynt ar gyfer y Rhwydwaith Gweithwyr Anabl yn 2019. Cafodd y poster hwn, a ddyluniwyd gan aelod o'r rhwydwaith Leticia Atkinson, ei ddefnyddio i roi cyhoeddusrwydd i'r themâu wythnosol ar gyfer gweithgareddau ac adnoddau

## Rhwydwaith Gweithwyr (a gofalwyr) Anabl

Mae'r Rhwydwaith Gweithwyr (a gofalwyr) Anabl yn rhoi cymorth a gofal pan fydd ei angen mwyaf ar gydweithwyr. Mae'r rhwydwaith yn helpu sawl cyfarwyddiaeth yng Nghofrestrfa Tir EM i sicrhau bod eu systemau a'u prosesau yn gydnaws â defnyddwyr technoleg cynorthwyedig, staff a chwsmeriaid ill dau, a chânt eu hymgynghori ar brotocolau a pholisïau sy'n hollol gynhwysol.

Yn 2019 rhannodd Noddwr Bwrdd y rhwydwaith ei brofiad o fod yn ofalwr. Disgrifiodd yr heriau a'r pleser y mae cyflwr ei blentyn yn eu creu a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr gan Gofrestrfa Tir EM, y Rhwydwaith Gweithwyr Anabl a'r Elusen ar gyfer Gweision Sifil.



Dathliadau Mehefin 2019 yn Swyddfa Fylde ar gyfer yr ŵyl Fwslimaidd Eid Al-Fitr. Rhannodd mwy na 125 o bobl fwyd cartref a chael eu henwau wedi eu hysgrifennu mewn caligraffeg Arabaidd

## Rhwydwaith Ffydd a Chred

Prif nod y Rhwydwaith Ffydd a Chred yw hyrwyddo llythrennedd ffydd cryfach ymysg staff oherwydd trwy ddeall ei gilydd mae'n haws inni uniaethu â'n gilydd.

Yn Nhachwedd 2019 dathlodd y rhwydwaith yr Wythnos Ryng-ffydd trwy groesawu cydweithwyr ar draws y Gwasanaeth Sifil a llywodraeth leol yn ne orllewin Lloegr i sesiwn holi ac ateb lle y rhannodd cydweithwyr oedd yn cynrychioli Bwdhaeth, Cristnogaeth, Hindŵaeth, Islam a Siciaeth eu sylwadau a'u profiadau.

**Karina Singh, Noddwr Bwrdd**
"Fel Noddwr Bwrdd ar gyfer y rhwydweithiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a Ffydd a Chred, rwy'n hynod falch o weithio gyda grŵp o unigolion ymroddedig sydd yn wirioneddol awyddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chreu diwylliant cynhwysol trwy'r sefydliad cyfan. Eleni gwelsom aelodaeth o'r rhwydweithiau yn cynyddu'n sylweddol. Mae'r Rhwydwaith Ffydd a Chred wedi mwynhau'r cyfle i gymryd rhan yn y penderfyniad corfforaethol ynghylch geiriad ein cerdyn cyfarchion yr ŵyl. Roedd y gyfres o ddigwyddiadau a drefnwyd ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon yn wych gyda nifer dda yn bresennol. Mae'r rhaglen ddatblygu Pathways ar gyfer cydweithwyr iau, gyda'r ffocws ar amrywiaeth, wedi cael ei groesawu'n gynnes fel rhaglen fyfyriol, fewnweledol ac ysbrydoledig."

# Dadansoddiad perfformiad ac adolygiad ariannol

Richmond House, cyn bencadlys yr Adran Iechyd yng nghanol Llundain, fydd lleoliad dros dro Tŷ'r Cyffredin tra bo'r gwaith adfer arfaethedig yn cael ei wneud ym Mhalas Westminster. Cafodd yr adeilad a'i gymdogion yn 85 Whitehall a 54 Parliament Street eu gwerthu i Dŷ'r Cyffredin ym Medi 2019, trosglwyddiad a gofrestrwyd gan Swyddfa Nottingham. Mae Cyngor Dinas Westminster yn ystyried y ceisiadau cynllunio ar gyfer addasu'r adeiladau.



Llun: Shutterstock/Claudio Divizia

# Iain Banfield
# Prif Swyddog Ariannol




**"YN 2019/20, BUDDSODDWYD CYFANSWM O £31.7M YN EIN RHAGLEN TRAWSNEWID. YN OGYSTAL DYCHWELWYD DIFIDEND I'R LLYWODRAETH O £24.7M A CHADWYD GWARGED BLYNYDDOL O £3.6M*."**

## Adolygiad ariannol 2019/20

Ein hamcan ariannol yn 2019/20 oedd cydbwyso anghenion y sefydliad heddiw â'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi buddsoddi yn y sgiliau a'r capasiti y mae eu hangen arnom nawr heb beryglu'r buddsoddiad yn ein rhaglen trawsnewid, a fydd yn helpu i greu'r gofrestrfa sy'n arwain y byd rydym yn anelu at ei chreu. Rydym wedi canolbwyntio hefyd ar sicrhau bod y cydnerthedd ariannol gennym y mae ei angen arnom i lywio'r anwadalrwydd cynyddol yn y farchnad dai a ddaeth yn sgîl y coronafeirws.

Yn 2019/20, buddsoddwyd cyfanswm o £31.7m yn ein rhaglen trawsnewid. Yn ogystal dychwelwyd difidend i'r Llywodraeth o £24.7m a chadwyd gwarged blynyddol o £3.6m*.


O 1 Ebrill 2020, bydd Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu o dan fframwaith ariannol newydd wrth iddi symud i ffwrdd o fod yn gronfa fasnachu a bod yn adran anweinidogol yn unig. Oherwydd y newid hwn, ceir addasiad untro yn 2019/20 wrth inni ryddhau taliad difidend arbennig o £483.5m i Drysorlys EM. Mae hyn yn adlewyrchu symud cronfeydd wrth gefn oddi wrthym ni i Drysorlys EM.

Parhaodd y farchnad eiddo yn gadarn yng Nghymru a Lloegr am yr 11 mis cyntaf o'r flwyddyn gyda lefelau gweithgarwch yn debyg i 2018/19 cyn y coronafeirws. Yn 2019/20 cydnabu Cofrestrfa Tir EM incwm o £308.6m gan gwsmeriaid. Nid yw hyn yn cynnwys yr arian a dderbyniwyd ar gyfer ceisiadau na chafodd eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

*Mae'r £3.6m wedi ei nodi cyn talu'r difidend arbennig.

| | 2019/20 £m | 2018/19 £m |
|---|---|---|
| **Incwm gweithredu** | 308.6 | 323.2 |
| **Costau gweithredu (gan gynnwys costau gweinyddol)** | (284.5) | (292.2) |
| **Gwarged gweithredu** | 24.1 | 31.0 |
| **Incwm arall (costau)** | 4.2 | 1.3 |
| **Difidend** | (24.7) | (27.3) |
| **Gwarged argadwedig cyn y difidend arbennig** | 3.6 | 5.0 |
| **Difidend arbennig** | (483.5) | - |
| **Gwariant cyfalaf** | 22.7 | 16.8 |

## Incwm gweithredu




Fel ar 31 Mawrth 2020 roedd y gweddill ffïoedd a dderbyniwyd ymlaen llaw yn £40.5m, cynnydd o £16.8m er 31 Mawrth 2019. Y prif ysgogwyr ar gyfer y newid hwn oedd yr effaith y cafodd y coronafeirws ar ein gallu i brosesu ceisiadau ym mhythefnos olaf mis Mawrth a chynnydd mwy cyffredinol yn ein stoc o geisiadau trosglwyddiad o ran a phrydlesi newydd cymhleth heb eu cwblhau. Mae Cofrestrfa Tir EM yn parhau i fuddsoddi mewn gweithwyr achos i ateb y galw ychwanegol hwn, er bod oedi wrth gwrs rhwng recriwtio a chynhyrchiant llawn yn wyneb natur arbenigol y rôl.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, cafodd bron hanner ein hincwm gweithredu ei ysgogi gan ddiweddariadau i deitlau sy'n bodoli yn y gofrestr, a oedd yn cyfrif am £138.6m. Cynhyrchodd creu cofnodion cofrestr newydd (megis cofrestriadau cyntaf, trosglwyddiadau o ran a phrydlesi newydd) incwm o £75.3m.

Daeth ein prif incwm arall o wasanaethau ymholiad gwarantedig. Mae'r rhain yn gamau hanfodol ym mhob trafodiad eiddo a lle gwelwn y galw mwyaf am ein gwasanaeth. Fodd bynnag, gan eu bod yn awtomataidd i raddau helaeth, nid ydynt yn codi ffi mor uchel â'n gwasanaethau newid cofrestr (sy'n gofyn am fewnbwn gan ein gweithwyr arbenigol proffesiynol). Yn 2019/20, roedd gwasanaethau ymholiad gwarantedig yn cyfrif am £61.0m.

Mae gwasanaethau gwybodaeth yn galluogi defnyddwyr i fynd ar-lein i gael ciplun o unrhyw blot cofrestredig o dir neu eiddo a chynhyrchodd £19.5m yn 2019/20. Gyda'i gilydd, cynhyrchodd y tri gwasanaeth cofrestru craidd uchod £294.3 miliwn yn 2019/20 (96% o incwm gweithredu).


Darparwn wasanaethau tir ac eiddo eraill hefyd. Mae ein gwasanaeth Pridiannau Tir digidol yn gwarchod buddion mewn tir digofrestredig a chadwn y mynegai methdaliad ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae ein Hadran Credydau Amaethyddol yn cadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill. Gyda'i gilydd cynhyrchodd y rhain £7.0m.

Yn ogystal cynigiwn wasanaethau data masnachol i gwsmeriaid yn y farchnad eiddo a mannau eraill yn yr economi. Cynhyrchodd incwm o ryddhau ein data'n fasnachol £4.5m yn 2019/20. Ar wahân i'r incwm o'n gwasanaethau, derbyniwyd incwm amrywiol o £2.8m, a daw'r rhan fwyaf ohono trwy'r eiddo buddsoddi sydd gennym, a osodwn yn fasnachol.

## Costau gweithredu

Mae 2019/20 wedi gweld gostyngiad o 2.7% yn ein costau gweithredu. Ysgogwyd hyn gan leihad o £22.2m yn ein darpariaeth indemniad yn dilyn y cyfrifiad blynyddol gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Y tu allan i'r addasiad hwn, roedd cynnydd mewn costau i'w priodoli i'r buddsoddiad a gynlluniwyd mewn trawsnewid yn unol â'r proffil yn y Strategaeth Fusnes a'n hymrwymiad i ehangu capasiti gweithwyr achos er mwyn rhoi sylw i dan-adnoddu hanesyddol ac ateb lefelau galw.

Roedd nifer o bwysau nad oedd modd eu hosgoi hefyd megis y cynnydd traws-lywodraethol yng nghyfraniad blwydd-dal cyflogwyr. Mae'r lleihad yn y ddarpariaeth indemniad yn golygu nad oedd angen unrhyw gyllid o gronfeydd wrth gefn i ddarparu ar gyfer y pwysau hyn fel y cytunwyd yn wreiddiol gyda Thrysorlys EM.




## Costau busnes fel arfer

Recriwtiwyd mwy o gydweithwyr arbenigol ac ariannwyd mwy o oramser i helpu i reoli'r galw a chwblhau'r mwyafrif helaeth o'n ceisiadau o fewn ein targedau cyflymder gwasanaeth. Cyfrannodd hyn at gynnydd mewn costau staff ar gyfer ein gweithgarwch busnes fel arfer, gan godi o £195.4m yn 2018/19 i £210.4m yn 2019/20 (mae £11m o hyn yn ymwneud â chyfraddau blwydd-dal uwch nag yn 2018/19).

Cyfanswm costau busnes fel arfer heblaw staff oedd £55.4m (2018/19: £60.4m), gan gynnwys gwariant ar: rheoli eiddo a chyfleusterau; gwasanaeth TG, gan gynnwys cynnal a chadw offer a thrwyddedau; a chontractau amrywiol gyda chyflenwyr trydydd parti sy'n ymwneud â storio ac adfer dogfennau, sganio dogfennau a gwasanaethau mapio o'r Arolwg Ordnans. Roedd costau amharu a dibrisio wedi eu cynnwys o fewn costau heblaw staff o £7.9m yn gyson yn fras â 2018/19 (£7.8m).

## Gwarantu cywirdeb y gofrestr

Mae'r costau heblaw staff hyn hefyd yn cynnwys effaith ein gwarant teitl a gefnogir gan y wladwriaeth, sy'n helpu i gynnal cywirdeb y gofrestr. Mae'n diogelu dioddefwyr rhag twyll neu wallau annisgwyl. Yn 2019/20, talwyd £5.3m yn erbyn 845 o hawliadau.

Ysgogwyd y lleihad o £22.2m yn yr hawliadau a'r ddarpariaeth "sydd wedi codi ond heb ei adrodd" (IBNR) gan adolygiad Cofrestrfa Tir EM o'r rhagbiaethau sylfaenol a ddefnyddir yn y model rhagfynegi gan yr actiwari, sef Adran Actiwari'r Llywodraeth. Adolygodd Cofrestrfa Tir EM y rhagbiaethau allweddol a ddefnyddir, ac mae'r model wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys y data 20 blwyddyn ddiweddaraf. Datgelir y risgiau o unrhyw hawliadau mawr untro posibl fel atebolrwydd wrth gefn o fewn nodyn 17.1.

Mae rhagor o wybodaeth am hawliadau sy'n aros i'w prosesu a darpariaethau IBNR – gan gynnwys dadansoddiad sensitifrwydd sy'n adlewyrchu natur ragamcanol yr atebolrwydd IBNR a thueddiad y ddarpariaeth i anwadalu – i'w gweld yn nodyn 15 yn y cyfrifon.

## Gwella ein gwasanaethau – Trawsnewid

Mae ein strategaeth yn dibynnu ar fuddsoddi mewn trawsnewid y gwasanaethau a ddarparwn a sut rydym yn eu darparu. Yn 2019/20, buddsoddwyd £17.4m o adnoddau yn ein rhaglen newid uchelgeisiol.

Mae'r mwyafrif o'r gwariant hwn yn ymwneud â pharhad ein rhaglenni digidol a data. Nod cyffredinol y rhain yw moderneiddio gwasanaethau Cofrestrfa Tir EM a gwella amrediad ein data, a mynediad at y data hynny. Bydd yn cynnig modd inni ddarparu gwasanaethau gwell, cyflymach, a mwy effeithlon a hynny am lai o gost.

Buddsoddwyd hefyd mewn gwella ein gwasanaethau, systemau a phrosesau gwaith achos presennol fel rhan o'n Rhaglen Gwella Gwasanaeth ac yn ein Rhaglen Gwsmeriaid. Mae'r ail yn gwella elfennau hanfodol o'r modd rydym yn rheoli cyswllt â chwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys adnewyddu ein porthol busnes ar-lein a gwella ein system rheoli'r berthynas â chwsmeriaid. Yn ogystal, buddsoddwyd yn ein seilwaith TG, gan gynnwys cyfuno ein canolfannau data o dri safle i ddau.

## Gwasanaethau masnachol

Yn olaf, roedd costau gweithredu yn cynnwys £2.6m i gefnogi ein gwasanaethau masnachol.

## Pridiannau Tir Lleol

Mae'r costau gweithredu hyn yn cynnwys £6.0m o adnoddau a ddefnyddiwyd i gefnogi'r rhaglen Pridiannau Tir Lleol wrth iddi barhau i ehangu. Fel ar 31 Mawrth 2020 roedd naw awdurdod lleol yn rhan o'r rhaglen ac mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithio gydag 20 ar gyfer 2020/21.

## Incwm a chostau eraill

Prif gydran ein hincwm arall yw incwm buddsoddi ar adneuon banc sy'n rhoi cyfanswm o £3.3m a rhyddhau darpariaethau hanesyddol o £3.1m. Gwrthbwysir hyn gan gostau amrywiol eraill o £2.2m.

## Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn

Cyfanswm y gwariant cyfalaf oedd £22.7m, gan gynnwys £14.4m ar y rhaglen trawsnewid. Gwariwyd hyn yn bennaf ar TG, meddalwedd a chyfalafu costau datblygu Pridiannau Tir Lleol. O'r cyfanswm gwariant, roedd £14.8m yn ymwneud ag asedau diriaethol ac £8.0m yn ymwneud ag asedau anniriaethol.

## 2020/21 ymlaen

Ym mis Hydref 2018, cafodd Cofrestrfa Tir EM ei hailddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i'r is-sector llywodraeth ganolog at ddibenion ystadegol cyfrifon cenedlaethol, yn unol â darpariaethau System Gyfrifon Ewropeaidd 2010. O ganlyniad, caiff y statws cronfa fasnachu ei ddirymu o Ebrill 2020 a bydd Cofrestrfa Tir EM yn dechrau ar drefn cyllido pleidlais seneddol gyda'n cyfrifon yn ffurfio rhan o'r ystadegau ariannol sy'n gysylltiedig â'r llywodraeth ganolog.

Fel rhan o'r setliad cyllideb a gytunwyd ar 11 Mawrth 2020 dirprwywyd cyllideb i Gofrestrfa Tir EM a nodir yn y tabl isod gyda refeniw yn dychwelyd yn uniongyrchol i Drysorlys EM. Mae rhagor o fanylion i'w cael ar https://www.gov.uk/government/publications/main-supply-estimates-2020-to-2021

## Cyfanswm gwariant

Y symiau a geisiwyd y flwyddyn hon:

| | |
|---|---|
| Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau | £361.3m |
| Gwariant a Reolir Blynyddol Adnoddau | £12.0m |
| Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf | £40.2m |

Mae'r setliad cyffredinol yn golygu y gall Cofrestrfa Tir EM barhau i ddarparu ei gynllun busnes trwy gynyddu'r buddsoddiad yn ein pobl, ein seilwaith a'n gallu yn y dyfodol. Yn bwysicach oll, mae'n rhoi sicrwydd cyllideb inni yn sgil anwadalrwydd yn y farchnad dai a achoswyd gan y coronafeirws.

Adeiladwyd Brixton Village, marchnad dan do yn Lambeth, de Llundain, fel Granville Arcade yn 1937 yn ôl dyluniadau Alfred a Vincent Burr. Ynghyd â Market Row, mae'n gartref i bron 130 o fasnachwyr annibynnol gan gynnwys siopau cyntaf y cadwyni llwyddiannus Franco Manca ac Honest Burger. Gwerthwyd y brydles ar gyfer Brixton Village i AG Brixton Village yn 2018 am £20m. Trosglwyddodd Cyngor Lambeth ei ddata pridiannau tir lleol i'n cofrestr ddigidol ganolog ym mis Hydref 2019.




Llun: Shutterstock/ElenaChaykinaPhotography

## Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Monitrwyd 15 dangosydd perfformiad allweddol (DPA) yn erbyn ein blaenoriaethau strategol yn 2019/20. Roedd ein dangosyddion perfformiad allweddol yn cyflwyno cyfres eang o heriau, gyda graddfa uchel o ymestyn ar gyfer y sefydliad. Mewn sawl maes mae'r uchelgais honno wedi cael ei gwireddu'n llawn. Mewn eraill mae cynnydd wedi bod yn sylweddol ond mae mwy i'w wneud.

Gweler Atodiad Dd am esboniad o'n dangosyddion perfformiad allweddol a'n perfformiad yn eu herbyn.




## Ein ffocws ar bobl a diwylliant

Mae pump o'n 15 dangosydd perfformiad allweddol y flwyddyn hon wedi cefnogi ein Strategaeth y Bobl (DPA 11-15), gan rychwantu amrywiaeth o amcanion i sicrhau bod y capasiti a'r diwylliant iawn gan y sefydliad i fod mor effeithiol â phosibl. Mae'n falch gennym adrodd y canlyniadau ymgysylltu â staff cryfaf yn hanes ein sefydliad, gan barhau â'r duedd o welliant flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae ein hymrwymiad at arweinyddiaeth a rheoli newid wedi cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol tebyg, gan ddarparu gwelliant o'i gymharu â'r llynedd a safle o fewn y chwartil uchaf ar gyfer sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil o faint a natur debyg. Rydym wedi llwyddo i gynyddu ein capasiti gweithredol a chynnig cyfleoedd am ddyrchafiad i nifer o'n gweithwyr achos profiadol, gan greu effaith gadarnhaol ar ddiwylliant sefydliadol ar ôl mwy na degawd o gyfleoedd dilyniant gyrfa cyfyngedig ar gyfer ein cydweithwyr. Bu perfformiad mwy amrywiol yn y dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer amrywiaeth (DPA 14 ac 15), gyda chynnydd cadarnhaol iawn yn ein targedau rhyw ond llai o effaith yn erbyn ein huchelgeisiau ar gyfer cydweithwyr duon a lleiafrifoedd ethnig. Mae hwn yn rhywbeth rydym yn ei gymryd o ddifrif, ac mae achosion yr effaith wahaniaethol hon ar uchelgeisiau amrywiaeth yn rhywbeth y byddwn yn parhau i ganolbwyntio arno dros y flwyddyn nesaf.

### Ein trawsnewid

Ni wireddwyd y dangosydd perfformiad allweddol sy'n monitro'r arbedion a gyflenwir trwy weithgareddau trawsnewid y flwyddyn hon (DPA 10). Fodd bynnag, roedd maint y gweithgarwch trawsnewid a gynlluniwyd y flwyddyn hon yn sylweddol ac roedd oedi yn sicr o godi mewn prosiectau. Gwnaethpwyd penderfyniadau pragmataidd hefyd i flaenoriaethu gwella'r profiad gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer ein ceisiadau mwyaf cymhleth lle roedd galw yn fwy na'n capasiti i brosesu, a hefyd i sicrhau nad oedd newidiadau yn cael eu cyflwyno i'r sefydliad i gyd ar yr un pryd, a fyddai wedi cael effaith negyddol ar ddarparu gwasanaethau hanfodol. Roedd effaith y coronafeirws yn fân ffactor oedd yn cyfrannu at yr oedi yma. Roedd un effaith o'r fath yn cynnwys cychwyn awtomeiddio ein gwasanaeth morgais digidol y flwyddyn

hon, a oedd yn barod i fynd yn fyw ym mis Mawrth ar ôl cynnal profion gofalus gyda'n cwsmeriaid. Cofrestrwyd rhyw 9,767 o weithredoedd trwy'r gwasanaeth hwn yn ystod y flwyddyn, ond nid oeddent yn cyfrannu at y DPA oherwydd roedd yn canolbwyntio ar gofrestriadau awtomataidd (DPA 9). Rydym yn ddiolchgar am ymgysylltiad a chymorth sylweddol rhoddwyr benthyg morgeisi yn y farchnad sydd wedi bod yn allweddol o ran ein paratoi i gyflwyno awtomeiddio morgeisi digidol o'r dechrau i'r diwedd yn y flwyddyn i ddod.

**Ein ffocws ar y cwsmer**

Mae darparu gwasanaeth amserol i'n cwsmeriaid yn parhau i fod yn agwedd bwysig ar ein Strategaeth Fusnes. Cwblhawyd 96% o'r cyfanswm ceisiadau o fewn y safonau gwasanaeth eleni. Fodd bynnag, ni wireddwyd pob un o'n dangosyddion perfformiad allweddol yn y maes hwn (cafodd DPA 4a ei gyflawni'n llawn ond ni chyflawnwyd 4b, 5 a 6). Awgrymodd adborth gan ein sylfaen cwsmeriaid trwy gydol y flwyddyn fod angen ailystyried sut rydym yn blaenoriaethu'r ceisiadau a gawn, er mwyn inni gynyddu nifer y gweithwyr achos sy'n prosesu ein ceisiadau mwyaf cymhleth. Gwnaethpwyd cynnydd o ran lleihau nifer y ceisiadau heb eu cwblhau o'r math hwn o gynnyrch cyn i gyfyngiadau'r coronafeirws gael eu teimlo.

Mae ein partner ymchwil, Ipsos Mori, yn holi ein cwsmeriaid bob chwarter am eu barn ar ein gwasanaeth cyffredinol. Holwyd cyfanswm o 1,195 o gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn, gyda 90% yn dweud bob ein gwasanaeth yn rhagorol, da iawn neu dda (DPA 1). Mae hyn ychydig yn llai o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, mae'n werth nodi bod mwy na chwarter o'r cwsmeriaid yn dweud bob y 'gwasanaeth cyffredinol', yn rhagorol, tra bo llai na 3% yn dweud ei fod yn wael. Mae deall sut mae ein gwasanaethau yn cael eu derbyn gan ein cwsmeriaid yn bwysig iawn inni ac rydym wedi gweithio gydag Ipsos Mori trwy gydol y flwyddyn i ddatblygu darlun mwy gronynnog o foddhad cwsmeriaid.

Bydd arolwg newydd, a gafodd ei redeg yn gyfochrog â'r dull a fonitrwyd gan ddangosydd perfformiad allweddol y flwyddyn hon, yn ffurfio'r sail ar gyfer y targed ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Darparu ffydd a hyder mewn perchnogaeth tir**

Eleni, mireiniodd Cofrestrfa Tir EM ei dangosydd ar gyfer ansawdd newidiadau cofrestr gyda metrig seiliedig ar risg yn dangos lle mae newidiadau yn cael yr effaith fwyaf ar gywirdeb y gofrestr (DPA 7). Roedd ein targedau yn uchelgeisiol, yn unol â'n cred gorfforaethol mewn cywirdeb y gofrestr fel conglfaen hawliau eiddo. Ni chyrhaeddwyd y targed dangosydd perfformiad allweddol ansawdd cyffredinol o drwch blewyn gan 0.5 pwynt canran, ac roedd perfformiad ymysg y gyfres o fesurau yn dangos gwelliannau mewn sawl maes.

**Ein targedau cyflawnadwy**

Roedd ein cynllun busnes ar gyfer 2019/20 yn nodi 19 o dargedau cyflawnadwy yn cwmpasu pob maes o'n strategaeth fusnes. Ar ddiwedd y flwyddyn roeddem wedi cyflawni 15 o'r rhain, ac wedi cyflawni dau arall yn rhannol. Roedd y rhain yn gyfuniad o amcanion busnes fel arfer ac amcanion trawsnewid. Mae rhai o'n llwyddiannau allweddol yn cynnwys:

- gweithredu newidiadau trwy'r rhaglen Brilliant by Design, gyda gwelliannau i'r modd y caiff gwaith achos ei reoli;
- gwelliannau parhaus i wneud ein gwasanaethau yn gyflymach ac yn haws; eleni derbyniwyd y cais cyntaf trwy ein gwasanaeth cyflwyno ar-lein newydd (Front End Vaildation);
- canoli ein canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid i wella cysondeb y wybodaeth a ddarparwn;
- datblygu ein dyheadau diwylliannol er mwyn inni allu rheoli datblygiad ac uchelgeisiau ein pobl; a
- rheoli'r pontio i'r llywodraeth ganolog trwy basio deddfwriaeth berthnasol a negodi ein setliad Cylch Gwario Cyntaf gyda Thrysorlys EM.

**Esblygiad perfformiad yng Nghofrestrfa Tir EM**

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cael dangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi canolbwyntio ar fesurau allbwn, pob un gyda lefelau amrywiol o uchelgais. Rydym yn newid ein dull o adrodd am berfformiad y flwyddyn nesaf ac wedi gweithio gydag arweinwyr ar draws Cofrestrfa Tir EM i ystyried beth sy'n fwyaf pwysig inni ei fesur, gyda ffocws penodol ar y mathau o ymddygiad rydym am eu hysgogi, ac yn y pen draw, y canlyniadau y dymunwn eu cyflawni. Caiff ein perfformiad ei fesur yn erbyn y datganiadau canlyniad canlynol:

- Mae ffydd a hyder mewn perchnogaeth tir
- Mae'r broses drawsgludo yn gyflym, yn hawdd ac yn ddiogel
- Mae data eiddo yn cefnogi economi sefydlog ac arloesol yn y DU

Wrth gyflawni'r newid hwn, bydd ffocws newydd i'n dangosyddion perfformiad allweddol i ddangos llwybr clir i wireddu'r datganiadau canlyniad hyn. Nid yw newid yn golygu colli golwg ar y dangosyddion perfformiad a ddefnyddiwyd yn y gorffennol, ond yn hytrach eu rhoi mewn cyd-destun er mwyn sicrhau y cânt eu defnyddio i gael yr effaith fwyaf. Er enghraifft, mae effeithlonrwydd prosesu ceisiadau (y dangosydd sy'n cael ei ddatblygu yn ystod 2019/20) yn ffactor llwyddiant hanfodol ar gyfer DPA newydd sy'n canolbwyntio ar allbwn ceisiadau cyffredinol. Mae'r DPA hwn yn mapio i'r ddau ddatganiad canlyniad cyntaf. Mae'n ymwneud â sicrhau bod ffydd a hyder mewn perchnogaeth tir trwy gynnal cofrestr fanwl-gywir a sicrhau bod y broses drawsgludo yn gyflym, yn hawdd ac yn ddiogel i gefnogi'r economi. Bydd ail-fframio ein dangosyddion perfformiad fel hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ar gyfer economi'r DU.

Roedd Heddlu Humberside wedi cymryd rhan mewn cynllun peilot cofrestru cynhwysfawr gyda ni a arweiniodd at gofrestru ei asedau tir rhydd-ddaliol. Ers hynny, mae heddluoedd Swydd Gaerlŷr, Gorllewin Swydd Gaerefrog a Cumbria wedi cofrestru eu heiddo ac rydym yn gweithio gyda sawl un arall. Dywedodd Fiona Rendell, cyfreithiwr sy'n gweithio ar ran Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr: "Roedden ni wedi dechrau cofrestru ein hasedau tir ac eiddo ad hoc felly pan glywais y gallai Cofrestrfa Tir EM ein helpu i gofrestru popeth mewn un prosiect, roeddwn i'n gwybod mai dyma fyddai'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o wneud pethau.



Llun: Alamy Stock Photo/Les Gibbon

# Perfformiad cynaliadwyedd



Llun: Shutterstock/Marius_Comanescu

Y flwyddyn hon rydym wedi gweithio ar gyflawni rhai prosiectau mawr i helpu i leihau ein defnydd o gyfleustodau. Mae goleuadau LED (deuodau allyrru golau) wedi cael eu gosod ar un llawr ym Mhenbedw ac ar draws pob un o'r tri llawr a ddefnyddir gan Gofrestrfa Tir EM yn swyddfa Peterborough, a thrwy'r cyfan o swyddfa Abertawe. Amcangyfrifir bod goleuadau LED yn debygol o arbed oddeutu 52 tunnell o garbon. Amcangyfrifir y bydd gosod boeler newydd yn swyddfa Fylde yn lleihau'r defnydd o nwy gan 12% dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt. Amcangyfrifir y bydd dechrau'r gwaith o adnewyddu cyfleusterau ystafell ymolchi yn swyddfa Caerlŷr yn arwain at arbed 96,000 litr o ddŵr yn y pen draw.

Mae newid mawr yn ein portffolio eiddo wedi arwain at ostyngiad net mewn trydan o 1,000,000KWh a 68,000KWh o nwy gan leihau carbon gan 292 tunnell ar gyfer y gweithgarwch hwn yn unig.

Yn ogystal dechreuodd Cofrestrfa Tir EM raglen gwella bioamrywiaeth gyda chymorth gan ein darparwr gwasanaeth rheoli cyfleusterau ISS a'i gadwyn gyflenwi, gyda gwaith wedi ei gwblhau yn swyddfeydd Hull a Fylde a chynlluniau pellach i wneud gwelliannau tebyg yn Plymouth, Telford a Weymouth eisoes wedi eu cytuno.

## Mentrau eraill

Mae ailgylchu pecynnau creision trwy ddarparwr trydydd parti wedi cynhyrchu 439kg o ddeunyddiau.

Mae sawl swyddfa wedi manteisio ar y cynlluniau ailgylchu cwpanau coffi sy'n cael eu rhedeg gan y brîf gadwyni siop goffi gan arwain at 287kg o wastraff yn cael ei symud ymaith o safleoedd tirlenwi.

Cefnogwyd ymgyrch Natural England i blannu miliwn o goed ar y cyd ag ISS a'i gontractwyr tir. Plannwyd coed ym mhob un o'n lleoliadau addas a bwriadwn barhau i wneud hyn fel rhan o'r gwelliannau bioamrywiaeth a nodwyd uchod.

Mae ein swyddfeydd wedi bod yn cynnig defnyddio bagiau amldro mewn derbynfeydd i'r staff eu benthyg os ydynt am fynd i'r siopau yn ystod eu hegwyl.

## Ein perfformiad

Rheolwn y gwasanaeth cofrestru tir mewn ffordd amgylcheddol gyfrifol. Defnyddiwn ein System Rheoli Amgylcheddol i sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus ac yn gweithio tuag at y targedau gofynnol a osodwyd fel rhan o Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth a gofynion TGCh Gwyrddu'r Llywodraeth.

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â'r canllawiau cyfredol a gyflenwyd gan Drysorlys EM.

Rydym wedi ein hachredu o hyd i safon amgylcheddol ISO14001 sy'n cadarnhau ein perfformiad yn annibynnol ar draws yr ystod lawn o weithgareddau cynaliadwyedd o fewn y sefydliad.

Mae'r perfformiad cyfredol yn erbyn data gwaelodlin cynaliadwyedd 2009/10 fel a ganlyn yn erbyn targedau Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth.

| | Cyflawnwyd | Targed ar gyfer 2020 | Wedi cyflawni'r targed? |
|---|---|---|---|
| Carbon | 66% o ostyngiad | 40% o ostyngiad | Ie |
| Gwastraff yn codi | 60% o ostyngiad mewn gwastraff a gynhyrchir<br><br>82% wedi ei ailgylchu<br><br>3% i safle tirlenwi<br><br>15% o broses Gwastraff i Ynni | Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan o leiaf 25%<br><br>Ailgylchu neu gompostio o leiaf 70% o'r gwastraff ac anfon llai na 10% o wastraff i safle tirlenwi | Ie |
| Defnyddio dŵr | 27% o ostyngiad | 25% o ostyngiad (ein targed ni) | Ie |
| Defnyddio papur | 70% o ostyngiad | Lleihau'r papur a ddefnyddiwn gan 50% o waelodlin 2009/10 | Ie |



Yn ogystal bydd y gofyniad canlynol o fewn Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth yn parhau i gael eu bodloni.

— Parhau i ddilyn arferion caffael cyhoeddus sy'n gynaliadwy, er mwyn i'r llywodraeth brynu cynhyrchion mwy cynaliadwy ac effeithlon gyda'r nod o gael y gwerth am arian gorau i gymdeithas.

Bydd adrannau'n adrodd ar y systemau sydd ganddynt yn eu lle a'r camau a gymerwyd i gefnogi'r ymrwymiad hwn, gan gynnwys:

— corffori cydymffurfiaeth â Safonau Prynu'r Llywodraeth mewn contractau caffael adrannol a chanolog, o fewn cyd-destun blaenoriaethau cyffredinol y llywodraeth o werth am arian a symleiddio prosesau caffael; a
— deall a lleihau effeithiau'r gadwyn gyflenwi.




Mae Awdurdod Gwastraff Gogledd Llundain yn adeiladu cyfleuster adfer ynni newydd gwerth £500m yn Edmonton EcoPark yng ngogledd Llundain ar ôl sicrhau cefnogaeth y Llywodraeth. Dechreuodd y gwaith adeiladu yn Ionawr 2019 a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn 2025. Cofrestrodd swyddfa Plymouth gaffael ffordd mynediad ar ochr ogleddol y safle.

| Maes | | Perfformiad | |
|---|---|---|---|
| | | Gwirioneddol (£'000) | Targed gostyngiad 2020 |
| Ynni: allyriadau nwyon tŷ gwydr, pob maes o fewn y cwmpas | allyriadau carbon (tunelli) | 4,545 | 9,776 |
| | gwariant (£) | 3,325 | |
| Gwastraff | treuliant (tunelli) | 794 | 1,484 |
| | gwariant (£) | 138 | |
| Dŵr | defnydd ($m^3$) | 41,829 | 38,346 |
| | gwariant (£) | 201 | |

## Llywodraethu cynaliadwyedd

Mae cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol yn cael ei reoli trwy'r Fframwaith Llywodraethu Cynaliadwyedd a chyfarfodydd cydymffurfio â'r darparwr rheoli cyfleusterau. Rheolir hyn gan y Rheolwr Cynaliadwyedd ar y cyd â'n Huwch Bartneriaid Busnes Cyfleusterau a'n darparwr Rheoli Cyfleusterau Cyfan.

## Bodloni gofynion ychwanegol Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth yn gyffredinol

Mae'r targedau yn parhau i annog Llywodraeth ganolog i fod yn fwy cynaliadwy a sicrhau bod gofynion Deddf Newid Hinsawdd (2008), sef gostyngiad o 31% erbyn 2020 mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn cael eu cyflawni.

## Addasu i newid hinsawdd

Mae effeithiau newid hinsawdd yn cael eu hystyried yn ystod gwaith a phrosiectau adeiladu. Defnyddiwn y wybodaeth yn yr arolygon cyflwr adeiladau a blaengynlluniau cynnal a chadw fel rhan o'n strategaeth lleihau cynaliadwyedd wrth wneud gwaith adnewyddu mawr, adleoli neu newid offer adeiladu mawr. Mae'r cynllun addasu i newid hinsawdd yn cael ei adolygu'n barhaus.

Mae cyflawni gofynion Carbon Sero-Net y Llywodraeth yn cael ei gynnwys mewn penderfyniadau cynnal a chadw adeiladau a rheoli eiddo ehangach. Bydd yn rhaid cynllunio ar gyfer ariannu newidiadau mawr mewn dyraniadau cyllideb yn y dyfodol.

## Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Mae gwelliannau'n parhau i gael eu cyflwyno lle bo hynny'n ymarferol yn ariannol trwy'r darparwr rheoli cyfleusterau. Mae cynlluniau gwella bioamrywiaeth wedi cael eu creu ac yn cael eu darparu yn Fylde, Hull, Plymouth, Weymouth a Telford. Bydd y broses wella hon yn parhau ar safleoedd a gafodd eu nodi fel rhai a fydd yn elwa ar welliannau yn y dyfodol megis Abertawe.

## Carbon

Mae'r defnydd o drydan wedi lleihau gan fwy na 1.5m KWh. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith seilwaith a gyflawnwyd fel y manylir uchod. Cynyddodd y defnydd o nwy ychydig gan 2%. Roedd hyn o ganlyniad i aeaf oerach yn 2019/20 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cost yr Ymrwymiad Lleihau Carbon i'r sefydliad oedd credyd o -£45,000 oherwydd roeddem wedi prynu credydau yn y blynyddoedd blaenorol ac yn gallu gwerthu rhai credydau dros ben. Hon oedd blwyddyn olaf yr ymrwymiad ac mae'r ddarpariaeth wedi ei chwmpasu bellach o fewn y biliau cyfleustodau ar gyfer nwy a thrydan.

Ein lleihad cyffredinol mewn allyriadau carbon er 2009/10 yw 66%. Gweler Atodiad C am ddata tueddiadau hanesyddol.

Nodyn: mae data yn cynnwys adrannau eraill o'r llywodraeth sy'n meddiannu ein hystad, ond nid yw'n cynnwys data sy'n gysylltiedig â thenantiaid anllywodraethol.

Nodyn: mae'r Arolwg Ordnans a'r GIG, sy'n defnyddio gwasanaethau canolfan data Cofrestrfa Tir EM, yn adrodd ar eu treuliant carbon yn uniongyrchol i'r llywodraeth.

Y targed drafft ar gyfer nwyon tŷ gwydr a osodwyd ar gyfer asiantaethau a chyrff cyhoeddus yr Adran Busnes Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yw lleihau allyriadau gan 40% erbyn Mawrth 2020 dros y data gwaelodlin ar gyfer 2009/10.

## Gwastraff

Y targed gwastraff a osodir yw lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan o leiaf 25% o waelodlin 2009/10, a cheisio ei leihau ymhellach, ailgylchu neu gompostio o leiaf 70% o'r gwastraff, a defnyddio safleoedd tirlenwi ar gyfer llai na 10% o'r gwastraff.

Mewn partneriaeth â'n darparwyr gwastraff trwy ein contract rheoli cyfleusterau rydym yn gweithio tuag at anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi. Ar hyn o bryd rydym yn bodloni pob un o'r targedau gyda pherfformiad fel a ganlyn: gwastraff a gynhyrchir wedi ei leihau gan 60%, maint y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu yw 82%, y gwastraff sy'n cael ei losgi a'i droi'n ynni yw 15%, yr holl wastraff nad yw'n mynd i safleoedd tirlenwi yw 97%.

Rheolir gwastraff trwy ddau lwybr. Rheolir gwastraff papur trwy gontract gwaredu gwastraff cyfrinachol y tu allan i'r contract rheoli cyfleusterau. Mae'r contractwr wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r contractwr newydd yn gweithredu pwysau gwastraff cyfartalog gwahanol fesul bin sydd oddeutu hanner cyfrifiad y contractwr blaenorol. Cyflenwir yr holl wasanaeth rheoli gwastraff arall trwy'r contract rheoli cyfleusterau.

O'r gwastraff a gynhyrchir mae 505 o dunelli yn bapur a anfonir i'w ailgylchu. Mae'r papur hwn yn cyfateb i 64% o'n cyfanswm gwastraff sy'n codi.

Ein lleihau cyffredinol mewn gwastraff a gynhyrchwyd er 2009/10 yw 60%. Gweler Atodiad C am ddata tueddiadau hanesyddol.

## Defnydd o ddŵr

Y targed dŵr yw parhau i leihau'r dŵr a ddefnyddir ymhellach o waelodlin 2009/10. Mae hyn yn golygu y gall adrannau osod eu targedau mewnol eu hunain ar gyfer lleihau'r defnydd o ddŵr ac adrodd ar eu cynnydd yn eu herbyn. Yn ogystal, bydd adrannau yn parhau i adrodd ar y defnydd o ddŵr mewn swyddfeydd ($m^3$ fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn).

Llwyddwyd i leihau'r defnydd o ddŵr gan 27% yn erbyn targed o 25%.

Y defnydd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys y nifer amcanestynedig o gydweithwyr ar safleoedd Cofrestrfa Tir EM o adrannau eraill o'r llywodraeth, yw $6.5m^3$.

## Defnyddio papur

Mae targed Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth ar gyfer lleihau'r papur a ddefnyddiwn gan 50% o flwyddyn waelodlin Cofrestrfa Tir EM o 2011/12 yn dangos gwelliant cyfredol o 70% o'r defnydd o bapur cyfwerth ag A4. Mae ein rhaglen gwasanaethau digidol a'r symud tuag at argraffu ar gais yn parhau i gael effaith sylweddol.

## Caffael cynaliadwy

Mae'r Tîm Caffael Corfforaethol yn parhau i weithio i gynnal a, gobeithiwn, wella ar Lefel 3 (Ymarfer) ar draws pob categori ym model aeddfedrwydd Fframwaith Hyblyg Caffael Cynaliadwy. Trwy weithio gyda'n budd-ddeiliaid busnes a'n prif gyflenwyr, mae Safonau Prynu Llywodraeth Swyddfa'r Cabinet wedi eu corffori bellach yn ein prosesau caffael.

Bydd cyflenwyr allweddol yn nodi ac yn gweithredu ar gyfleoedd i wneud gwelliannau cymdeithasol ac amgylcheddol. Rydym wedi parhau i weithio ar faterion cynaliadwyedd fel y dangosir gan y canlynol:

— Enterprise, ein darparwr hurio cerbydau, sy'n gweithio'n agos â ni i helpu i nodi pa gategori o gerbyd fydd yn rhoi'r gwerth gorau am arian gan leihau ein hôl troed carbon yr un pryd; a'r
— Grŵp Caffael a Masnachol yn cynnal ymarfer i gael gwybodaeth am gynaliadwyedd cyflenwyr.

Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd i weithredu'r defnydd o gynlluniau gweithredu cynaliadwyedd contractau.

Mae'r Tîm Caffael Corfforaethol wedi penodi dau hyrwyddwr cynaliadwyedd o fewn y tîm i helpu i ychwanegu pwyslais a ffocws o ran cyflawni ein hamcanion cynaliadwyedd. Fel tîm rydym yn chwilio'n gyson am ddulliau i wella ein sefyllfa a hyrwyddo buddion sy'n helpu i fynd i'r afael â materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Rydym yn parhau i gynnal a gwella ar Lefel 3 (Ymarfer) ar draws pob categori ym model aeddfedrwydd y Fframwaith Hyblyg Caffael Cynaliadwy.

Mae rhai o'r mentrau a gwblhawyd dros y misoedd diwethaf yn cynnwys:

— creu bwrdd rheoli prosiect cynaliadwyedd i helpu i gydlynu'r gwaith;
— adolygu cynlluniau gweithredu cynaliadwyedd i ychwanegu symlrwydd a ffocws at fuddion penodol contractau Cofrestrfa Tir EM, yn wahanol i lwyddiannau busnes generig;
— cwblhau rhestr wirio Caethwasiaeth Fodern i sicrhau bod pob cyflenwr yn bodloni Safonau Prynu'r Llywodraeth Swyddfa'r Cabinet; a
— gweithio gyda chydweithwyr cynaliadwyedd i blethu ymdrechion.

Mae ein dogfennau caffael cyfredol yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod cynaliadwyedd yn chwarae fwy o rôl mewn gweithgarwch cyn ac ar ôl caffael.

Anfonwyd darn o waith i'n holl gyflenwyr sy'n ceisio cyflawni targed yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol sef erbyn 2022 bydd £1 ym mhob £3 yn cael ei wario gyda menter fach neu ganolig.

# Gwybodaeth gorfforaethol arall




Mae Canolfan Siopa The Podium yng Nghaerfaddon yn lleoliad premiwm yng nghanol y ddinas ar rydd-ddaliad 2.6 erw. Cafodd ei gwerthu am £69m yn 2019 i Gyngor Dinas Glasgow. Cafodd y trosglwyddiad ei gofrestru gan Swyddfa Abertawe. Mae The Podium yn cynnwys siop Waitrose, Gwesty Hilton 175 ystafell, llyfrgell a maes parcio tanddaearol.

Llun: Shutterstock/Roger Utting

## Deiliad Gwybodaeth Sector Cyhoeddus

Cyflawnwn ein rôl fel deiliad gwybodaeth sector cyhoeddus, rôl a gymerwn o ddifrif, trwy ddilyn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi ei heithrio o gymhwyso rhai hawliau diogelu data unigol lle y byddai cymhwyso'r ddeddfwriaeth yn groes i Ddeddf a Rheolau Cofrestru Tir. Rydym wrthi'n recriwtio Tîm Hawliau Gwybodaeth newydd, dan arweiniad y Swyddog Diogelu Data. Bydd y Tîm Hawliau Gwybodaeth yn helpu i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

Cwblhawyd adolygiad cynhwysfawr o'n hasedau gwybodaeth. Mae Cofrestr Asedau Gwybodaeth newydd wedi cael ei gweithredu ac mae'r perchnogion asedau newydd, ar lefel cyfarwyddwr, wedi cael eu penodi yn unol â chyfarwyddyd Swyddfa'r Cabinet. Mae gwaith wedi dechrau ar strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd yn dilyn penodi Pennaeth Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd newydd.

Derbyniwyd 431 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ac atebwyd 406 ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith.

Wrth ddarparu ein gwasanaethau data, mae Cofrestrfa Tir EM yn cydymffurfio â Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015 ac wedi bod yn adolygu'r Cyfarwyddyd newydd ar Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus a fyddai, os caiff ei weithredu yn y DU, yn arwain at newid yn y rheoliadau.

## Targed effaith busnes

Mae'r sgôr targed effaith busnes yn cynnwys effaith economaidd gweithgarwch rheoleiddio lle bydd baich neu fudd yn effeithio ar fusnes sy'n uwch na'r trothwy o £5m. Mae Cofrestrfa Tir EM yn adolygu ei gweithgareddau yn rheolaidd er mwyn asesu'r effaith ar ei chwsmeriaid busnes o ran cydymffurfio â'i phrosesau a gofynion rheoleiddio. Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull cyflwyno ceisiadau electronig er mwyn ei gwneud hi'n haws ac yn rhatach i ddelio â ni.

## Iechyd a diogelwch

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein system rheoli iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, monitro digonolrwydd polisïau iechyd a diogelwch a hyrwyddo gwelliant parhaus.

Yn Ionawr 2020, llwyddom i fudo o'r Safon Brydeinig ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch OHSAS18001, i'r Safon Ewropeaidd ISO 45001. Mae ennill a chadw'r safon hon yn rhoi sicrwydd o aeddfedrwydd ein system rheoli iechyd a diogelwch, cyfatebiaeth ag arferion gorau, ac yn hyrwyddo ein gwelliant parhaus.

Rydym wedi cynnal lefel dda o gydymffurfiaeth trwy ein darparwr rheoli cyfleusterau sy'n cyflenwi gwasanaethau iechyd a diogelwch ar ein rhan. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ymwybyddiaeth a gwelliant ein prosesau asesu'r gweithlu, gan gynnwys asesiadau sgrin arddangos, gweithio y tu allan i'r swyddfa ac archwiliadau gweithle. Yn dilyn y coronafeirws, caiff y prosesau hyn eu cyflwyno i weithio o gartref yn 2020 a byddant yn adlewyrchu'r newidiadau yn ein harferion gweithle.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20, cofnodwyd cyfanswm o 145 o ddamweiniau. Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

- 135 o ddamweiniau yn ymwneud â staff Cofrestrfa Tir EM;
- 7 damwain yn ymwneud â chontractwyr; a
- 3 damwain yn ymwneud ag ymwelwyr.

Roedd yn ofynnol i adrodd am dair o'r damweiniau uchod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus.

## Cwynion

Cofnodwyd 5,678 o gwynion yn 2019/20 o'i gymharu ag 3,193 yn 2018/19.

Roeddem wedi rhagweld nifer uwch o gwynion cofnodedig y flwyddyn hon o ganlyniad i'r newidiadau a wnaethom yn 2019/20 i'r ffordd rydym yn cydnabod, cofnodi a gweithredu ar gwynion. Roedd y rhain yn ganlyniad i adolygiad o'n prosesau adborth cwsmeriaid sy'n ceisio sicrhau bod cwynion yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw yn fwy cyson a gyda mwy o ffocws ar gwsmeriaid. Roedd y newidiadau a wnaed yn cynnwys symleiddio ein diffiniad o gŵyn, adolygu ein safonau cyflymder gwasanaeth a chamau proses ac ehangu'r sianeli sydd ar gael i gwsmeriaid gwyno. Mae'r adolygiad yn parhau yn 2020/21 gan edrych ar y sylwadau a gawn o ganlyniad i gwynion a gwneud mwy gyda'r wybodaeth honno i wella'r hyn a wnawn er budd pob un o'n cwsmeriaid.

Fel rhan o'r adolygiad, cynhaliwyd hyfforddiant newydd ar gyfer staff allweddol i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r newidiadau a hefyd i dynnu sylw at bwysigrwydd bod yn gyson ac yn effeithiol wrth gydnabod a chofnodi adborth gan gwsmeriaid, yn enwedig cwynion.

Cafodd cyfanswm o 45% o gwynion cofnodedig eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol. Adborth cwsmeriaid am yr oedi wrth brosesu ceisiadau cofrestru ac ymholiadau cwsmeriaid cysylltiedig oedd y maes cwyno mwyaf cyffredin a gadarnhawyd, sef 25% o'r cyfanswm a gadarnhawyd. Mae hyn yn adlewyrchu ein bod yn cymryd yn hwy i gwblhau rhai o geisiadau mwy cymhleth sy'n cynnwys creu cofrestr newydd.

Roedd y prif fathau eraill o gŵyn yn ymwneud â dileu ceisiadau (16% o'r cyfanswm a gadarnhawyd), y ceisiadau a godwn am wybodaeth gan gwsmeriaid pan nad yw eu ceisiadau'n drefnus (12%) a'r canlyniadau yr anfonwn pan fyddwn yn cwblhau ceisiadau (10%).

Cynhaliwn ddadansoddiad o'r holl gwynion a geir trwy gydol y flwyddyn, a hynny'n unigol ac yn eu categorïau cyffredinol, i ddal a gweithredu ar bwyntiau dysgu. Er enghraifft, dywedodd ein cwsmeriaid:

- mae angen rhagor o wybodaeth fanwl arnynt am gyflymder gwasanaeth ar gyfer y gwahanol fathau o geisiadau sy'n gofyn am greu cofrestr newydd gan fod amserau cwblhau yn gallu amrywio. Adolygwyd ein gwybodaeth safon gwasanaeth a gyhoeddwyd ar GOV.UK i roi amserau cwblhau cyfartalog ar wahân ar gyfer ceisiadau creu cofrestr sy'n cynnwys datblygu ystad o bump neu ragor o blotiau a'r rhai nad ydynt;
- hoffent i'r cyfleuster cyfredol i weld eu gwybodaeth debyd uniongyrchol amrywiol ar gyfer cyfnod o dri

mis yn y porthol e-wasanaeth busnes gael ei estyn. Erbyn hyn gall cwsmeriaid weld y wybodaeth hon am gyfnod o 12 mis;

— hoffent gael gwybod pryd y bydd y pwynt(iau) a godir yng nghais cychwynnol Cofrestrfa Tir EM am wybodaeth wedi cael ei ddatrys. Erbyn hyn anfonwn ohebiaeth i roi gwybod i gwsmeriaid bod cais cychwynnol wedi cael sylw llawn ac i roi gwybod i gwsmeriaid am y posibilrwydd y gallai pwyntiau pellach godi wrth i'r cais fynd yn ei flaen i'w gwblhau;

— weithiau rydym yn anghyson wrth gymhwyso ein gofynion ar gyfer cynlluniau a gyflwynir gyda gweithredoedd a ffurflenni cais ac ar gyfer cyflawni gweithredoedd gan unigolion preifat. Mewn ymateb, diweddarwyd ac eglurwyd ein cyfarwyddyd mewnol ac allanol; ac

— weithiau derbyniant geisiadau annisgwyl am wybodaeth (ceisiadau) a hoffent i'n cyfres o weminarau am ddim gael ei hestyn i'w helpu i gyflwyno eu ceisiadau er mwyn cael y gorau o'n gwasanaethau. Cafodd gweminarau pellach eu cyflwyno ar bynciau ychwanegol, gan gynnwys cyfarwyddyd ar geisiadau i gofrestru prydles ac ar ein gwasanaethau Ymholiadau Cyn-gyflwyno a Rheoli Cais. Ychwanegwyd cyswllt i'n gweminarau at dudalen hafan gwasanaethau electronig a ddefnyddir gan ein cwsmeriaid busnes.

Mae ein Hadolygydd Cwynion Annibynnol yn darparu gwasanaeth adolygu a datrys cwynion am ddim a diduedd ar gyfer unrhyw gwsmer sy'n anhapus â'r modd rydym wedi delio â'i gŵyn.

## Caethwasiaeth fodern

Cefnogwn fesurau i sicrhau nad oes lle i gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys caethwasiaeth a masnachu pobl, yn ein sefydliad na'n cadwyni cyflenwi. Rydym yn parhau i ddefnyddio gweithdrefnau cadarn, gan gynnwys yn ein contractau a'n prosesau recriwtio, ac yn hwyluso gallu cydweithwyr i godi unrhyw bryderon, gan gynnwys unrhyw rai yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi.

## Crynodeb Blynyddol o Weithgareddau'r Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir

Cyfansoddwyd Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i roi cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor yn wreiddiol, ond erbyn hyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ar lunio rheolau cofrestru tir a gorchmynion ffïoedd o dan y Ddeddf.

Yn Ebrill 2020, rhoddodd y pwyllgor gyngor a chymorth mewn perthynas â drafftio rheolau brys yn diwygio Rheolau Cofrestru Tir 2003 yn sgil effaith pandemig y coronafeirws. Yn wyneb yr argyfwng a'r cyfyngiadau ar symudiadau, cynhaliwyd busnes y pwyllgor trwy'r ebost. Daeth y rheolau diwygio i rym ar 16 Ebrill 2020.

Yn ystod y flwyddyn, enwebwyd Greville Healey i wasanaethu ar y pwyllgor, fel enwebai Cyngor y Bar, ac ail-enwebwyd yr aelodau canlynol:

— Ian Kirkaldy, fel enwebai UK Finance.
— Kim Caley, fel enwebai Cyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig.

## Safonau gwasanaeth

Mae manylion y gwasanaeth y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym i'w gweld ar ein gwefan: https://www.gov.uk/government/publications/hm-land-registry-service-standards.cys.

## Cynllun Iaith Gymraeg

Parhawn i fod yn ymrwymedig i'n rhwymedigaethau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru. Chris Pope, y Prif Swyddog Gweithrediadau, yw'r uwch berchennog cyfrifol ar gyfer y cynllun. Cymeradwywyd ein cynllun diwygiedig, sy'n cynnwys ein Cynllun Gweithredu ar gyfer y pedair blynedd nesaf, gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 27 Medi 2019. Mae gennym dîm ymroddedig



Mae Castell Caerliwelydd yn fwy na 900 oed a bu'n lleoliad nifer o ddigwyddiadau pwysig yn hanes Prydain. Cafodd ei gofrestru yn 2016 i Gomisiwn Adeiladau Hanesyddol a Henebion Lloegr. Ymunodd Cyngor Dinas Caerliwelydd â'n Cofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Ebrill 2020, gan drosglwyddo degau ar filoedd o bridiannau. Mae 24 o bridiannau tir lleol wedi eu cofrestru i'r castell sydd erbyn hyn yn gartref i Amgueddfa Catrawd y Cyffinwyr.

Llun: Shutterstock/Daniel Coyle

ar gyfer y Gymraeg yn Swyddfa Abertawe a llinell ffôn Gymraeg ar gyfer ymholiadau cyffredinol – 0300 006 0422.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau Cymraeg i'w gweld yn https://www.gov.uk/government/organisations/land-registry/about/welsh-language-scheme.cy

## Cofrestru cynhwysfawr

Yn 2019/20 cwblhawyd 77,997 o gofrestriadau cyntaf, sy'n cyfateb i oddeutu 120,000 hectar o dir gyda gwerth amcanestynedig o fwy na £10 biliwn.

## Cydlynu polisi a budd-ddeiliaid

Mae Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir yn cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau i gynnal enw da Cofrestrfa Tir EM gyda'r llywodraeth a budd-ddeiliaid allweddol. Mae'n cydlynu ein cynrychiolaeth yn fyd-eang a'n cyfraniad at ddatblygu polisïau'r llywodraeth trwy gynnal perthnasoedd cryf ar lefel weithio. Mae hyn yn golygu y gall Cofrestrfa Tir EM gadw i fyny a cheisio dylanwadu ar bolisi ehangach y llywodraeth. Mae Cofrestrfa Tir EM yn mabwysiadu dull rhagweithiol at sganio gorwelion polisi er mwyn sicrhau ei bod yn ymateb yn briodol i ymgynghoriadau ffurfiol. Mae'r Swyddfa yn gyfrifol am berthynas Cofrestrfa Tir EM â'i hadran nawdd yn ogystal â llywodraethu corfforaethol sy'n cynnwys Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd. Mae'r Swyddfa hefyd yn cefnogi'r uwch dimau gweithredol ac anweithredol.

Yn ystod y flwyddyn, mae Cofrestrfa Tir EM wedi rhoi ei barn arbenigol ar sawl fenter polisi allweddol y llywodraeth a budd-ddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys ymgynghoriad ar y cyd Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar hunaniaeth ddigidol, a galwad yr olaf am dystiolaeth ar strategaeth data genedlaethol. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi cyfrannu at ymgynghoriadau'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar wneud perchnogaeth dai yn fforddiadwy a'r hawl i reoli ac mae'n rhan o'r Fenter Prynu a Gwerthu Tai dan arweiniad y diwydiant sy'n gweithredu ar nifer o syniadau i wella'r modd y mae'r broses drawsgludo yn gweithio. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi cyfrannu at strategaeth geo-ofodol genedlaethol y Comisiwn Geo-ofodol (https://www.gov.uk/government/publications/unlocking-the-power-of-locationthe¬uks-geospatial-strategy) ac wedi ymateb i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar gyflawni dogfennau electronig. Mewn perthynas ag ymarfer da corfforaethol, mae Cofrestrfa Tir EM wedi ymateb i ymgynghoriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ei god ymarfer drafft ac ymgynghoriad yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar Dryloywder Corfforaethol a Diwygio'r Gofrestr. Mae'r swyddfa wedi arwain gwaith paratoi'r sefydliad ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd ac yn parhau i gydlynu ei gyfraniad at y trefniadau yn y dyfodol.




Mae Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir yn cydweithio'n agos ag UK Government Investments sy'n gweithredu fel asiant yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol gan gynrychioli budd y Llywodraeth mewn dull llywodraethu a pherfformiad Cofrestrfa Tir EM fel sefydliad. Ymatebwyd i dri Chwestiwn Seneddol, a chydweithiwyd ag adrannau eraill yn ôl yr angen hefyd.

Mae'r swyddfa yn cydlynu perthnasoedd allweddol Cofrestrfa Tir EM â budd-ddeiliaid er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu ac olrhain sentiment. Mae Cyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir yn dwyn ynghyd sefydliadau cynrychioliadol allweddol sy'n ymwneud â'r broses drawsgludo ac mae wedi cwrdd pedair gwaith i rannu barn a chyfrannu at ddatblygu polisi Cofrestrfa Tir EM. Cyfarfu Cofrestrfa Tir EM â chofrestri tir eraill o'r Alban, Gogledd Iwerddon, Iwerddon ac Ynys Manaw dair gwaith, bu'n lleoliad i'r fforwm ym mis Mawrth 2020. Rydym wedi dwyn ynghyd trawstoriad o fudd-ddeiliaid a chwsmeriaid mewn fforwm trafod sy'n bwriadu rhoi sylw i heriau uniongyrchol y coronafeirws yn ogystal â'r heriau yn y tymor hwy. Defnyddiwn hyn i adeiladu cyd-ddealltwriaeth a gweledigaeth o'r mesurau y gall Cofrestrfa Tir EM eu cymryd i roi cymorth i fudd-ddeiliaid, ein cwsmeriaid a'r farchnad eiddo gyfan er mwyn i'r broses drawsgludo allu gweithredu a sicrhau buddion ehangach i'r farchnad eiddo a'r economi.

Mae presenoldeb byd-eang gan Gofrestrfa Tir EM. Cyflwynwn yr ymateb blynyddol i adroddiad Ease of Doing Business Banc y Byd ar ran y DU. Mae ein safle ar gyfer cofrestru eiddo wedi cynyddu un lle i safle 41. Mae Cofrestrfa Tir EM yn cefnogi ymrwymiadau polisi yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol a'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad. Rydym wedi cyfrannu cymorth ymgynghorol i'r Uwch Gomisiwn Prydeinig yn yr India o dan Gronfa Ffyniant y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad. Rhoddwyd cymorth trwy gynnal ymweliadau astudio addysgol ar gyfer cynrychiolwyr o sawl awdurdodaeth gan gynnwys Bangladesh, Mongolia, Wcráin, Tsieina, Indonesia a Gwlad Groeg.

Mynychwyd cynhadledd ryngwladol y Cofrestrydd Teitlau ym mis Medi, rhoddwyd cyflwyniad ar Drawsnewid Gweinyddu Tir yn yr 11eg Sesiwn o Gomisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Gweithgor Ewrop ar Weinyddu Tir ym mis Chwefror, a chyd-gynhaliwyd y Cynulliad Cyffredinol EuroGeographics gyda'r Arolwg Ordnans a Chofrestri'r Alban ym mis Hydref. Sefydlwyd fforwm technolegau datblygol ar gyfer awdurdodau gweinyddu tir ym mis Hydref sy'n rhoi'r cyfle inni arddangos ein harbenigedd yn fyd-eang a hefyd dysgu o'r gymuned fyd-eang.



**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
8 Gorffennaf 2020

# Geirfa

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Awtomeiddio proses robotig** | Math newydd o dechnoleg awtomeiddio proses busnes. |
| **Bloc-gadwyn** | Cyfriflyfr cyhoeddus wedi ei ddosbarthu a'i ddatganoli. |
| **Cais** | Gwneud cais i gofrestru tir digofrestredig, diweddaru tir cofrestredig neu deitlau eiddo, neu wneud cais am wybodaeth gan Gofrestrfa Tir EM. |
| **Cais am wybodaeth** | Lle mae'n rhaid i Gofrestrfa Tir EM wneud ymholiadau i'r ceisydd ynghylch cais oherwydd bod gwybodaeth neu dystiolaeth yn eisiau neu'n anghywir ac felly ni ellir ei brosesu. |
| **Cais creu cofrestr** | Cais sy'n gofyn am greu cofnodion newydd yn y Gofrestr Tir. |
| **Copi swyddogol** | Copïau o weithredoedd a dogfennau sy'n cael eu ffeilio gyda ni, gan gynnwys cofrestri teitl a chynlluniau teitl, y gwarantir eu bod yn gywir ac y gellir eu cyflwyno fel tystiolaeth fel pe baent yn ddogfennau gwreiddiol. |
| **Cyfamod cyfyngu** | Cytundeb, wedi ei gynnwys mewn gweithred fel arfer, sy'n creu rhwymedigaeth ar berchennog y tir dan sylw, megis cyfyngu ar ddefnyddiau tir. |
| **Cyfyngiad** | Cofnod sy'n cyfyngu Cofrestrfa Tir EM rhag diweddaru'r gofrestr oni bai bod amodau penodol yn cael eu bodloni. |
| **Cyfyngiad Gwariant Adrannol Cyfalaf** | Buddsoddiad mewn meddalwedd a gynhyrchir yn fewnol, offer TG ac ystadau. |
| **Cynllun teitl** | Cynllun yn dangos arwynebedd eiddo cofrestredig ar fap, yr Arolwg Ordnans fel arfer. |
| **Chwiliad swyddogol** | Yn galluogi pobl megis prynwyr tai neu roddwyr benthyg morgeisi i warchod eu budd cyn cofnodi'r pryniant neu'r morgais yn y gofrestr. |
| **Deallusrwydd artiffisial** | Deallusrwydd a dysgu a arddangosir gan beiriannau. |
| **Difidend** | Y swm a dalwn i Drysorlys EM bob blwyddyn o'n gwarged. |
| **Diweddaru cofrestr** | Diweddaru cofrestr teitl sydd eisoes wedi ei gofrestru. |
| **Fframwaith Hyblyg Caffael Cynaliadwy** | Dull hunanasesu sy'n caniatáu i sefydliadau fesur a monitro eu cynnydd ar gaffael cynaliadwy dros amser. |
| **Geo-ofodol** | Data a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â lleoliad penodol. |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol Adnoddau** | Eitemau o natur anrheoladwy neu anrhagweladwy. Ar gyfer Cofrestrfa Tir EM, yr elfen bwysicaf yw'r symudiad blynyddol yn narpariaeth y Gronfa Indemniad, a ddefnyddir i warantu cywirdeb y Gofrestr Tir. |
| **Gwasanaethau cofrestru craidd** | Cofrestru perchnogaeth, buddion a morgeisi yn erbyn tir ac eiddo. |
| **Gweld cofrestr** | Gweld y fersiwn cyfredol o'r gofrestr. |
| **Gweld dogfen** | Gweld dogfen fel PDF, ei hargraffu neu ei harbed. |
| **Gwelliant parhaus** | Ymdrech barhaus i wella cynhyrchion, systemau, gwasanaethau a gwybodaeth. |
| **Pridiannau Tir** | Buddion mewn tir digofrestredig a all gael eu gwarchod gan gofnod yn y Gofrestr Pridiannau Tir. |
| **Pridiannu tir lleol** | Yn gyffredinol mae pridiannau tir lleol yn bridiannau neu'n gyfyngiadau ariannol ar ddefnyddio tir sy'n llywodraethol eu natur ac yn cael eu gosod gan awdurdodau lleol o dan bwerau statudol. |
| **Teitl** | Tystiolaeth o hawl rhywun i eiddo. |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau** | Terfyn net sy'n cynnwys costau rhedeg sefydliadol o ddydd i ddydd. Mae'r cyfanswm hwn yn cael ei ddadansoddi fel arfer yn symiau wedi eu clustnodi (dibrisiad a chostau amorteiddio) a symiau heb eu clustnodi. |
| **Trosglwyddiad o ran** | Trosglwyddiad o ran o deitl cofrestredig, megis pan fydd tŷ a gardd yn cael eu cofrestru o dan un teitl ac mae'r perchennog yn gwerthu rhan o'r ardd. |
| **Ymholiad** | Gweler 'Cais am wybodaeth'. |
| **Ymholiadau gwarantedig** | Gwasanaethau sy'n darparu gwybodaeth a chanlyniadau sy'n dod gyda gwarant y wladwriaeth. |
| **Ystwyth** | Dull o reoli prosiectau sy'n defnyddio ymdrechion cydweithredol i ddatblygu atebion sy'n cyflawni ei nodau. |

# Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Yn yr adran hon nodir aelodau ein pwyllgorau a'n byrddau cyfarwyddo allweddol ac eglurir eu cyfrifoldebau.

### Ein strwythur llywodraethu

Mae system lywodraethu dwy haen gan Gofrestrfa Tir EM:

– Bwrdd Cofrestrfa Tir EM
– Bwrdd Gweithredol Cofrestrfa Tir EM

Mae'r fframwaith hwn yn galluogi'r aelodau anweithredol i ddarparu her briodol i'r Bwrdd Gweithredol gan ganiatáu iddynt wneud penderfyniadau effeithiol yr un pryd ar weithrediad Cofrestrfa Tir EM o ddydd i ddydd.

### Bwrdd Cofrestrfa Tir EM

Cylch gwaith Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yw cefnogi, cynghori, herio a darparu arweiniad. Mae'r Bwrdd yn sicrhau dulliau llywodraethu da ac atebolrwydd cyhoeddus, mae'n cymeradwyo Strategaeth Fusnes Cofrestrfa Tir EM ac yn helpu'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn ei gyfrifoldeb fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer llywodraethu Cofrestrfa Tir EM.

Yn unol â Chyfarwyddyd Swyddfa'r Cabinet, mae gan y Bwrdd y dasg o gynghori ar bum prif faes, eu herio a'u goruchwylio, sef:

— eglurder strategol;
— synnwyr masnachol;
— pobl ddawnus;
— ffocws ar ganlyniadau; a
— gwybodaeth reoli.

Gyda chymorth ei Bwyllgor Archwilio, mae'r Bwrdd hefyd yn sicrhau bod Cofrestrfa Tir EM yn gweithio o fewn fframwaith o drefniadau a rheolaethau llywodraethu darbodus ac effeithiol sy'n golygu bod modd asesu a rheoli risg yn briodol. Yn rhan o'r swyddogaeth honno, cytuna'r Bwrdd ar y gweithgareddau allweddol y bydd angen i Gofrestrfa Tir EM eu cyflawni i fodloni ei hamcanion strategol fel y'u nodir yn ei Strategaeth Fusnes gyhoeddedig. Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir wrth sicrhau bod yr adnoddau dynol ac ariannol angenrheidiol yn eu lle i Gofrestrfa Tir EM allu bodloni'r amcanion hyn. Mae'n cytuno ar archwaeth risg y sefydliad, yn cymeradwyo'r cynllun a'r gyllideb flynyddol ac yn adolygu'n rheolaidd y perfformiad mewn perthynas â thargedau cytunedig.

Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cynnwys cymysgedd o gyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau bwrdd anweithredol. Mae aelodau bwrdd anweithredol y Bwrdd yn fedrus iawn, a chanddynt y profiad priodol yn y meysydd perthnasol i gefnogi a herio'r Bwrdd Gweithredol. Ymunodd Elliot Jordan â'r Bwrdd eleni, gan ddod â chyfanswm y staff anweithredol i wyth, gan gynnwys y Cadeirydd.

Mae'r aelodau bwrdd anweithredol yn annibynnol ar reolaeth. Mae gofyn iddynt lofnodi datganiad blynyddol yn cofnodi unrhyw wrthdaro buddion posibl. Cedwir cofnod 'Cofrestr Buddion' canolog. Adolygwyd a diwygiwyd y broses hon yn ystod 2019/20 i sicrhau ei bod yn cyfateb ag arferion gorau. Gweler nodyn 19 i'r cyfrifon ar dudalen 103 am ddatgeliadau parti cysylltiedig.

Yng Ngorffennaf 2019, cynhaliodd y Bwrdd hunanasesiad a chafodd y canlyniadau eu trafod yng nghyfarfod y Bwrdd gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer mân welliannau i'r pecynnau bwrdd a 'themâu'r' bwrdd. Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu arwyddocaol.

| Aelodau Bwrdd Cofrestrfa Tir EM | |
|---|---|
| Michael Mire | Cadeirydd Anweithredol |
| Kirsty Cooper | Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol |
| Diana Breeze | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Doug Gurr | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir (o 11 Tachwedd 2019) a Phrif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr Dros Dro (i 10 Tachwedd 2019) |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir (o 11 Tachwedd 2019) |
| Elliot Jordan | Aelod Bwrdd Anweithredol (o 15 Awst 2019) |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Chris Morson | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Chris Pope | Prif Swyddog Gweithrediadau |
| Ed Westhead | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (UKGI) (o 15 Gorffennaf 2019) |
| Claire Wren | Aelod Bwrdd Anweithredol, UKGI (i 14 Gorffennaf 2019) |
| **Mynychwyr** | |
| Mike Westcott Rudd | Cynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd (i 31 Gorffennaf 2019) |

# Bwrdd Cofrestrfa Tir EM



Michael Mire
Cadeirydd Anweithredol Bwrdd
Cofrestrfa Tir EM



Diana Breeze
Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod
Bwrdd Annibynnol



Kirsty Cooper
Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod
Bwrdd Annibynnol



Doug Gurr
Aelod Bwrdd Anweithredol



Elliot Jordan
Aelod Bwrdd Anweithredol



Angela Morrison
Aelod Bwrdd Anweithredol



Chris Morson
Aelod Bwrdd Anweithredol



Ed Westhead
Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government
Investments

# Y Bwrdd Gweithredol



Simon Hayes
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir



Mike Harlow
Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Gofrestrydd Tir



Andrew Trigg
Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg



Iain Banfield
Prif Swyddog Ariannol



Karina Singh
Cyfarwyddwr Trawsnewid



Simon Morris
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol



Chris Pope
Prif Swyddog Gweithrediadau

## Blwyddyn mewn ffocws

Yn ystod 2019/20 roedd y materion a gafodd sylw gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cynnwys:

- gosod y cyfeiriad strategol a chyflymdra newid yng Nghofrestrfa Tir EM;
- goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol ar gyfer ailwampio Strategaeth Fusnes Cofrestrfa Tir EM;
- monitro perfformiad gweithredol ac adolygiad cynhyrchiant;
- darparu mewnbwn strategol i'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol;
- cytuno ar y fframwaith ariannol newydd wrth i Gofrestrfa Tir EM ddod i ben fel cronfa fasnachu;
- mewnbynnu i ddatblygiad gorchymyn ffïoedd newydd;
- datblygu datganiad archwaeth risg ac agwedd ddiwygiedig at reoli risg;
- cymeradwyo'r rhaglen o wasanaethau cofrestru digidol ar gyfer y dyfodol;
- ystyried a darparu cyfeiriad ar gyfer mentrau a datblygiadau cysylltiedig â phobl; ac, yn ddiweddar
- cefnogi a rhoi cyngor mewn perthynas ag ymateb Cofrestrfa Tir EM i bandemig y coronafeirws.

## Ymweliadau Bwrdd

Cyfarfu Bwrdd Cofrestrfa Tir EM wyth gwaith yn 2019/20 a chynhaliwyd cyfarfodydd yn Llundain neu yn swyddfeydd rhanbarthol Cofrestrfa Tir EM.

Y flwyddyn hon aeth Bwrdd Cofrestrfa Tir EM i ymweld â swyddfeydd Abertawe a Nottingham lle cafodd aelodau gyfle i ymgysylltu â staff Cofrestrfa Tir EM trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan gynnwys sesiynau neuadd dref, cyflwyniadau ar bynciau megis prosiectau graddfa fawr a gwrando ar alwadau cwsmeriaid yng Nghanolfan Cymorth Cwsmeriaid Abertawe.

Yn y cyfarfodydd bwrdd a gynhaliwyd yn Llundain cafwyd sesiynau rhyngweithiol gyda busnesau newydd ar y rhaglen Geovation a chynigiwyd cyfleoedd hefyd i drawstoriad o staff gwrdd yn anffurfiol ag aelodau o Fwrdd Cofrestrfa Tir EM.

Mae ymweliadau Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn parhau'n llwybr allweddol i aelodau ymgysylltu â chydweithwyr ar draws Cofrestrfa Tir EM.



Y Prif Swyddog Gweithrediadau Chris Pope yn ateb cwestiwn yn y cyfarfod 'neuadd dref' yn Swyddfa Nottingham yn ystod ymweliad gan aelodau o Fwrdd Cofrestrfa Tir EM a'r Bwrdd Gweithredol.

## Ymgysylltu â budd-ddeiliaid

Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan allweddol o sicrhau bod Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

- Mae'r Cadeirydd yn Gomisiynydd y Comisiwn Geo-ofodol a chyfarfu aelodau bwrdd yn rheolaidd â'u cymheiriaid Geo6.
- Mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredol a Phrif Gofrestrydd Tir yn ymgysylltu'n rheolaidd â Gweinidog yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Ysgrifennydd Parhaol yr adran honno, a chyfarfu â Phrif Weithredwr y Gwasanaeth Sifil.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol rhwng y Cadeirydd, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'r Prif Swyddog Ariannol gyda UK Government Investments (UKGI), gan gynnwys cyfarfodydd anffurfiol rhwng y cyfnodau hyn.
- Ymgysylltodd y Bwrdd â'u cymheiriaid yn adrannau eraill o'r llywodraeth megis Trysorlys EM a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ôl yr angen.
- Cyfarfu aelodau Bwrdd yn rheolaidd â budd-ddeiliaid marchnad sy'n aelodau o Gyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir gan elwa ar eu gwybodaeth a'u harbenigedd, profi syniadau, rhannu gwybodaeth a thrafod materion cysylltiedig â thir ac eiddo.
- Cyfarfu aelodau Bwrdd â'u cymheiriaid yng nghofrestri tir yr Alban, Iwerddon, Gogledd Iwerddon ac Ynys Manaw bedair gwaith trwy gydol y flwyddyn yn y 'cyfarfod pum cofrestrfa'.



Cyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir yn trafod yn yr Hyb Geovation yn Clerkenwell, canol Llundain.

## Pwyllgorau Bwrdd Cofrestrfa Tir EM

### Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cefnogi Bwrdd Cofrestrfa Tir EM a'r Swyddog Cyfrifyddu trwy adolygu a cheisio sicrhad ar y fframwaith rheoli risg, y fframwaith rheoli, llywodraethu a chydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, safonau allanol a gofynion statudol. Mae'n adolygu prif risgiau y sefydliad, yn ogystal â darparu goruchwyliaeth a her wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor Archwilio yn gweld y gofrestr risg ynghyd â data cysylltiedig â pherfformiad yn ogystal ag adroddiad rheoli risg o leiaf un gyfarwyddiaeth.

Yn ystod 2019/20 roedd y materion a gafodd sylw gan y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys:

- goruchwylio a mewnbwn i ddatblygiad fframwaith risg a sicrwydd diwygiedig, cynlluniau aeddfedrwydd, tacsonomi risg a'r datganiad archwaeth risg;
- monitro a herio risgiau strategol Cofrestrfa Tir EM;
- adolygu a darparu cyfeiriad ar gyfer rheolaeth risg cyfarwyddiaethau unigol;
- goruchwylio'r rhaglen seiliedig ar risg o weithgarwch sicrwydd archwilio mewnol a monitro gweithredu camau rheoli cytunedig;
- her i barhad busnes a gweithgarwch cysylltiedig â seiberddiogelwch;
- goruchwylio a herio ansawdd data a'r gofrestr;
- goruchwylio a herio'r ddarpariaeth cronfa indemniad;
- monitro a her i reolaethau twyll;
- adolygu'r broses chwythu'r chwiban; ac
- ystyried a darparu cyfeiriad mewn perthynas â'r dyfarniad indemniad a dyfarniadau ariannol eraill.

| Aelodau'r Pwyllgor Archwilio | |
|---|---|
| Elliot Jordan | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio o 15 Awst 2019 |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Chris Morson | Aelod Bwrdd Anweithredol (Cadeirydd Dros Dro i 14 Awst 2019) |
| Derrick Palmer | Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio (i 31 Gorffennaf 2019) |
| Ed Westhead | Aelod Bwrdd Anweithredol, UKGI (o 28 Ionawr 2020) |
| **Mynychwyr** | |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol |
| Stuart Brown | Uwch Reolwr Archwilio Mewnol |
| Rick Deuttenburg | Dirprwy Gyfarwyddwr, Risg a Sicrwydd (o 18 Tachwedd 2019) |
| Patrick Green | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir (o 11 Tachwedd 2019) a Phrif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro (i 10 Tachwedd 2019) |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir (o 11 Tachwedd 2019) |
| Robin Malpas | Cwnsler Cyffredinol Dros Dro a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir (i 10 Tachwedd 2019) |
| Mike Westcott Rudd | Cynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd a'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (i 7 Mehefin 2019) |
| Cynrychiolydd UKGI | Wedi mynychu i 27 Ionawr 2020 yn unig |
| Cynrychiolydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |

## Y Pwyllgor Tâl ac Enwebu

Mae'r Pwyllgor Tâl ac Enwebu yn sicrhau bod tâl (ac, os yw'n briodol, trefniadau enwebu), gan gynnwys strategaeth tâl uwch aelodau, yn cyd-fynd â nodau Cofrestrfa Tir EM ac yn goruchwylio recriwtio, cadw a pherfformiad y tîm gweithredol.

Yn ystod 2019/20 y prif faterion a gafodd sylw gan y pwyllgor oedd:

- perfformiad y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro a'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir;
- perfformiad a thâl yr Uwch Wasanaeth Sifil;
- llywio a rhoi mewnbwn i baratoi achos busnes tâl; a
- datblygu uwch arweinyddiaeth a chynllunio dilyniant.

| Aelodau'r Pwyllgor Tâl ac Enwebu | |
|---|---|
| Diana Breeze | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Tâl |
| Mike Harlow | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro (i 10 Tachwedd 2019) |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir (o 11 Tachwedd 2019) |
| Chris Morson | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Ed Westhead | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (UKGI) (o 28 Ionawr 2020) |
| **Mynychwyr** | |
| Jon Cocking | Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol |

## Manylion presenoldeb ar gyfer Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Tâl

| Enw | Teitl | Cyfnod* | Bwrdd | Pwyllgor | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | BCT | Archwilio | Tâl |
| **Aelodau bwrdd anweithredol** | | | | | |
| Michael Mire | Cadeirydd Anweithredol | | 8/8 | - | - |
| Kirsty Cooper | Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol | | 7/8 | - | - |
| Diana Breeze | Aelod Bwrdd Anweithredol | | 7/8 | - | 2/2 |
| Doug Gurr | Aelod Bwrdd Anweithredol | | 1/8 | - | - |
| Elliot Jordan | Aelod Bwrdd Anweithredol | o 15 Awst 2019 | 5/5 | 3/3 | - |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol | | 7/8 | 4/4 | - |
| Chris Morson | Aelod Anweithredol o'r Pwyllgor Archwilio | | 8/8 | 4/4 | 2/2 |
| Derrick Palmer | Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio | i 31 Gorffennaf 2019 | - | 1/1 | - |
| Ed Westhead | Aelod Bwrdd Anweithredol / cynrychiolydd UKGI | o 15 Gorffennaf 2019 | 6/6 | 2/2 | 0/0 |
| Claire Wren | Aelod Bwrdd Anweithredol / cynrychiolydd UKGI | i 14 Gorffennaf 2019 | 2/2 | - | - |
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | o 11 Tachwedd 2019 | 4/4 | 2/2 | 0/0 |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol | | 8/8 | 4/4 | - |
| Jon Cocking | Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol | | - | - | 2/2 |
| Mike Harlow[1] | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | | 7/8 | 3/4 | 2/2 |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol Dros Dro a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | i 10 Tachwedd 2019 | - | 2/2 | - |
| Robin Malpas | Prif Swyddog Gweithrediadau | | 8/8 | - | - |

* penodiad yn berthnasol i'r cyfan o'r flwyddyn adrodd oni nodir fel arall

1. Mike Harlow oedd y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro i 10 Tachwedd 2019

## Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'i aelodau yw cyfarwyddwyr gweithredol Cofrestrfa Tir EM. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am arwain a rheoli'r gwaith o gyflenwi Strategaeth Fusnes gymeradwy Cofrestrfa Tir EM, y cynllun busnes blynyddol, amcanion a thargedau ac am reolaeth weithredol y sefydliad o ddydd i ddydd, gan gynnwys cydymffurfio â'r Ddogfen Fframwaith. Cyfarfu'r Bwrdd Gweithredol yn wythnosol yn ystod 2019/20.

Trwy fecanwaith llythyrau dirprwyo unigol, mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ymdrin â'r gwaith o redeg Cofrestrfa Tir EM o ddydd i ddydd.

Ym Medi 2019 cynhaliodd y Bwrdd Gweithredol hunanasesiad a thrafodwyd y canlyniadau yn y cyfarfod. Ni chafodd unrhyw bryderon mawr eu codi, ond cytunodd y Bwrdd Gweithredol ar amrywiaeth o fân gamau i'w gweithredu arnynt.

| Aelodau'r Bwrdd Gweithredol | |
|---|---|
| Simon Hayes (Cadeirydd) | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir (o 11 Tachwedd 2019) |
| John Abbott | Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg (i 11 Mai 2020) |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol |
| Jon Cocking | Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol (i 5 Mehefin 2020) |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir (o 11 Tachwedd 2019) a Phrif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro (i 10 Tachwedd 2019) |
| Robin Malpas | Cwnsler Cyffredinol Dros Dro a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir (i 10 Tachwedd 2019) |
| Simon Morris | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (o 8 Mehefin 2020) |
| Chris Pope | Prif Swyddog Gweithrediadau |
| Karina Singh | Cyfarwyddwr Trawsnewid |
| Andrew Trigg | Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg (o 12 Mai 2020) |
| Mike Westcott Rudd | Cynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd (i 26 Tachwedd 2019) |
| **Mynychwyr** | |
| Cathy Jenkins | Pennaeth Staff |

## Pwyllgorau a phaneli gweithredol eraill

Mae nifer o bwyllgorau'n adrodd i'r Bwrdd Gweithredol, gan ganolbwyntio ar bobl, rheoli gwybodaeth a gwarchod y gofrestr. Cefnogir pob pwyllgor yn ei dro gan nifer o is-grwpiau ar eitemau penodol megis amrywiaeth, iechyd a diogelwch, seiber ac gwrth-dwyll. Caiff pob cyfarfod ei gadeirio gan uwch reolwyr ac maent yn adrodd yn rheolaidd i'w riant-fwrdd neu bwyllgor. Daw'r aelodau o bob rhan o'r sefydliad ac yn cynnwys arbenigwyr pwnc.

Mae'r Bwrdd Trawsnewid wedi ei ffurfio o gyfarwyddwyr y Bwrdd Gweithredol a chynrychiolwyr eraill o rannau priodol o'r sefydliad. Mae'r bwrdd yn goruchwylio'r gwaith o gyflenwi newid digidol a gweithredol yn y sefydliad trwy oruchwylio rhaglenni a phrosiectau cyflenwi, eu haliniad strategol, buddion, risgiau a chyllid. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol ar draws meysydd rhaglen yn y maes digidol a data, gwella gwasanaeth cwsmeriaid, pridiannau tir lleol, seilwaith TG a phobl a datblygu tîm.

Caiff y Panel Llywodraethu Masnachol ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Swyddog Ariannol ac mae'n cynnwys Pennaeth y Grŵp Masnachol, Pennaeth Cyllid Strategol a chyfreithiwr corfforaethol. Mae'n darparu haen ychwanegol o lywodraethu mewnol ar gyfer gwariant ar nwyddau a gwasanaethau allanol dros £100,000. Mae'r panel yn rhoi sicrwydd i'r Prif Swyddog Ariannol a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â dyfarniadau contract ac estyniadau contract sylweddol. Mae'n sicrhau bod yr holl wariant yn cydweddu â Strategaeth Fusnes Cofrestrfa Tir EM, y bydd y llwybr caffael arfaethedig yn rhoi'r gwerth gorau am arian, a bod Cofrestrfa Tir EM yn cydymffurfio â deddfwriaeth caffael cyhoeddus a rheolaethau Swyddfa'r Cabinet.

Yn ystod 2019/20 cynhaliwyd adolygiad llywodraethu a adolygodd bwrpas, atebolrwydd a threfniadau tryloywder is-bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol. Caiff strwythur is-bwyllgor newydd y Bwrdd Gweithredol ei roi ar waith yn ystod 2020/21 er mwyn i'r is-bwyllgorau gydymffurfio ag arferion gorau, gyda chylch gwaith wedi ei ddiweddaru a llinellau atebolrwydd clir er mwyn ateb anghenion y Pwyllgor Gweithredol yn well.

## Digwyddiadau diogelwch

Mae diogelwch ffisegol yn cael ei orchwylio gan y Panel Diogelwch a Chydnerthedd. Cafwyd 24 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn ac roedd un ohonynt yn ddigwyddiad sylweddol (Dosbarth 1). Mae digwyddiadau Dosbarth 1 yn cynnwys materion fel anaf i aelod o staff neu drydydd parti, niwed sylweddol i eiddo, lladrad sylweddol neu achos sylweddol o dorri system.

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Cafodd pedwar digwyddiad cysylltiedig â data personol eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Penderfynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r digwyddiadau a adroddwyd.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 4(6) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Cofrestrfa Tir EM i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon y cyfeirir ato yn nodyn 1.1. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EM, ei hincwm a'i gwariant, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon rhesymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel cyfanwaith yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn Nhrysorlys EM wedi penodi Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Cofrestrfa Tir EM yn Swyddog Cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol a gwarchod asedau Cofrestrfa Tir EM, i'w gweld yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr Cofrestrfa Tir EM yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad llywodraethu

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM rwy'n gyfrifol am gynnal strwythurau llywodraethu corfforaethol sy'n cefnogi cyflawni nodau, amcanion a thargedau Cofrestrfa Tir EM, gan ddiogelu cyllid cyhoeddus ac asedau Cofrestrfa Tir EM.

Cefais fy mhenodi yn Brif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir o 11 Tachwedd 2019 a chymryd lle Mike Harlow a fu yn y rôl dros dro er 1 Ionawr 2019. Cefais sicrwydd ganddo fod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon yn adlewyrchiad teg o berfformiad a rheoli risg yn ystod ei gyfnod fel Prif Weithredwr dros dro.

Cefais hefyd lythyr penodiad gweinidogol yn unol â Deddf Cofrestru Tir 2002 a llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Trysorlys, yn fy mhenodi'n Swyddog Cyfrifyddu, yn ogystal â llythyr gan y Prif Swyddog Ariannol yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn rhoi imi ddirprwyaethau ariannol.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn adran anweinidogol o'r llywodraeth. Hyd at 31 Mawrth 2020 roedd yn asiantaeth weithredol ac yn gronfa fasnachu hefyd. Nodir fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu yn Rhedi Arian Cyhoeddus, sef sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y cyfrifir yn briodol amdano ac y'i defnyddir yn ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r prif ddyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chynnal y cofrestri sydd gan Gofrestrfa Tir EM i'w gweld yn Neddf Cofrestru Tir 2002, Deddf Pridiannau Tir 1972, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975.

## Statws cronfa fasnachu Cofrestrfa Tir EM

O ganlyniad i ailddosbarthiad Cofrestrfa Tir EM gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i'r is-sector llywodraeth ganolog at ddibenion ystadegol cyfrifon cenedlaethol, penderfynwyd y dylai statws cronfa fasnachu Cofrestrfa Tir EM ddod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019/20.

Ar 1 Ebrill 2020 dirymwyd statws cronfa fasnachu Cofrestrfa Tir EM o dan y gyfraith ac ymunodd Cofrestrfa Tir EM ag adrannau llywodraeth ganolog eraill gyda'i chyfansymiau rheoli gwariant blynyddol yn cael eu dirprwyo'n uniongyrchol gan Drysorlys EM.

Fel ar 1 Ebrill 2020 bydd Cofrestrfa Tir EM yn cael ei dosbarthu'n weinyddol fel adran anweinidogol o'r llywodraeth ond cafodd ei dosbarthu'n flaenorol yn adran anweinidogol ac yn asiantaeth weithredol. Mae'n derbyn ei rheoliadau gwariant trwy'r prif broses amcangyfrif cyflenwad bellach. Y broses amcangyfrif yw'r dull o gael awdurdod cyfreithiol i wario cyllid cymeradwy y Senedd. Mae rhagor o fanylion am amcangyfrifiad a setliad Cofrestrfa Tir EM ar gyfer 2020/21 i'w gweld ar GOV.UK. Yn 2020/21 bydd Cofrestrfa Tir EM yn ildio ei holl incwm a gasgla i'r gronfa gyfunol a bydd yn cyfrif amdano mewn Datganiad Ymddiriedaeth.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Pwrpas y fframwaith llywodraethu yw rhoi sicrwydd bod Cofrestrfa Tir EM yn cyflawni ei dyletswyddau mewn ffordd sy'n bodloni'r safonau priodol o ran rheoli risg a rheolaeth fewnol yn effeithiol. Mae'n seiliedig ar brosesau sy'n ceisio nodi a blaenoriaethu'r cyfleoedd

a'r risgiau i gyflawni strategaeth Cofrestrfa Tir EM, yr amcanion strategol a'r targedau perfformiad. Mae'n cyfateb â'n dyletswyddau statudol ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi nodau strategol a llywodraethu yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'n dyletswyddau statudol. Amlinellir dulliau llywodraethu Cofrestrfa Tir EM a'i pherthynas â chyrff llywodraeth eraill mewn Dogfen Fframwaith dyddiedig 2012 ac mae wrthi'n cael ei diwygio i adlewyrchu statws newydd Cofrestrfa Tir EM.

## Rheolaethau canolog

Fy mhrif rôl yw cyflawni'r rôl o Brif Gofrestrydd Tir y cyfeirir ato yn Neddf Cofrestru Tir 2002, Deddf Pridiannau Tir 1972, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975. Mae'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn gyfrifol am gadw'r cofrestri a sefydlwyd at ddibenion y Deddfau hynny ac mae ganddo'r holl bwerau, cyfrifoldebau a dyletswyddau a roddir ac a orfodir ar y Cofrestrydd gan y Deddfau hynny a chan y rheolau ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir oddi tanynt. Wrth gyflawni'r swyddogaethau penodol hyn nid yw'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn ddarostyngedig i unrhyw reolaeth na chyfarwyddyd gweinidogol. Mae'r swyddogaethau hynny yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth gan y llys.

Wrth reoli ei busnes yn fwy cyffredinol, mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu o fewn y fframwaith dirprwyaethau fel y'i diffinnir gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cyrff hyd braich a'r dirprwyaethau penodol a awdurdodir gan swyddogion yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Thrysorlys EM. Mae gofyniad hefyd i weithio gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i sicrhau bod cynnyrch a ryddheir yn cydymffurfio â'r safonau o ran diogelwch, effeithiolrwydd a chysondeb.

## Strategaeth Fusnes 2017-22

Mae gan Gofrestrfa Tir EM Strategaeth Fusnes uchelgeisiol ar gyfer y cyfnod 2017-2022. Ei hamcanion yw gwireddu ymrwymiad y Llywodraeth i Gofrestrfa Tir EM fod y gofrestrfa tir fwyaf blaenllaw yn y byd am gyflymder, symlrwydd a dull agored i ddata.

Yn ystod 2019/20 gweithiodd Bwrdd Cofrestrfa Tir EM a'r Bwrdd Gweithredol ar ailwampio'r Strategaeth Fusnes fel y nodir yn yr adroddiad Perfformiad.

## Fframwaith ar gyfer rheoli risg

Mae Cofrestrfa Tir EM yn mabwysiadu dull tair llinell amddiffyn ar gyfer rheoli risg. Cydlynir hyn yn ganolog trwy'r swyddogaeth Risg a Sicrwydd, dan arweiniad dirprwy gyfarwyddwr ac mae'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Cyfreithiol a Sicrwydd sy'n adrodd i'r Cwnsler Cyffredinol, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir. Mae risg a sicrwydd yn swyddogaeth ganolog allweddol y sefydliad ac yn ffocws bwrdd allweddol. Mae adnoddau priodol wedi cael eu dyrannu ar gyfer atgyfnerthu gallu a chapasiti'r tîm i ddatblygu ymhellach swyddogaeth gymesur a chynaliadwy.

Mae 15 o risgiau strategol allweddol gan Gofrestrfa Tir EM. Mae nifer yn rhai sy'n canolbwyntio ar gyflenwi gweithredol a phobl, gan gynnwys sicrhau gallu staff i gyflenwi ein gwasanaethau craidd, ansawdd y gofrestr, ymladd ac atal twyll. Ceir ffocws cryf ar gynnal seiberddiogelwch Cofrestrfa Tir EM i'n galluogi i amddiffyn ein hasedau. Mae parhad busnes hefyd yn risg strategol, ym mherchnogaeth y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir.

Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, y Bwrdd Archwilio a'r Bwrdd Gweithredol i gyd yn ystyried risgiau strategol y sefydliad yn ffurfiol bob chwarter.

Mae'r swyddogaeth sicrwydd ail linell yn canolbwyntio ar gywirdeb y cofrestri, ac ansawdd yr allbwn o'n timau gwaith achos. Mae hefyd yn darparu ymgysylltiadau sicrwydd pwrpasol, ad hoc ar gyfer prosiectau a newidiadau pan fydd angen. Bydd y swyddogaeth sicrwydd ail linell yn symud tuag at sicrwydd mwy thematig, seiliedig ar risg.

Yn 2019 penododd Cofrestrfa Tir EM Brif Gynghorydd Diogelwch, fel y'i cymeradwywyd gan Swyddfa'r Cabinet o dan raglen Trawsnewid Diogelwch y Llywodraeth. Mae'r Prif Gynghorydd Diogelwch yn gyfrifol am yr holl drefniadau parhad busnes a diogelwch, corfforol, personél a seiber, gan roi sicrwydd i'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio fod y gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni i'r safonau uchaf a osodir gan y llywodraeth.

## Ymateb i'r coronafeirws

Mae argyfwng cenedlaethol y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith ar Gofrestrfa Tir EM yn weithredol ac ar y farchnad eiddo yn gyffredinol. Cychwynnodd Cofrestrfa Tir EM ei Gynllun Parhad Busnes ar gyfer y coronafeirws ar 3 Mawrth 2020. Sefydlodd strwythur rheoli i orchwylio ei hymateb, yn seiliedig ar flaenoriaethau clir i gadw'r amharu ar wasanaethau cofrestru tir i'r lleiaf posibl gydag effeithiau uniongyrchol, tymor canolig a thymor hir ar y farchnad eiddo a chwsmeriaid.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn dilyn canllawiau'r llywodraeth, gan roi trefniadau yn eu lle i alluogi eu holl staff i barhau i fod yn gysylltiedig â'u cefnogi pan ofynnir iddynt fabwysiadu canllawiau ymbellhau cymdeithasol i beidio â dod i'r swyddfa, a chyfarparu'r staff yn raddol i weithio mor agos â phosibl i'r arfer o'u lleoliadau cartref os oes modd.

Cafodd cyfathrebu mewnol â chwsmeriaid eu gwella gan gynnwys cynyddu adroddiadau i weinidogion yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, a sefydlwyd fforwm diwydiant er mwyn i Gofrestrfa Tir EM allu gweithio'n gyflym i roi sylw i anghenion cwsmeriaid a budd-ddeiliaid.

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi parhau i addasu ac ymateb i'r sefyllfa sy'n newid, gan gynnwys dwyn ymlaen a chyflwyno newidiadau technegol a gweithdrefnol newydd i helpu cwsmeriaid; datblygu gwybodaeth reoli i roi sicrwydd a chefnogi penderfyniadau ar lefel bwrdd; a chyflwyno cynllun busnes treigl tri mis i gefnogi blaenoriaethau busnes diwygiedig. Mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld yn yr adroddiad Perfformiad.

## Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Rhoddodd Cofrestrfa Tir EM dîm yn ei le i sicrhau ei bod yn barod i adael yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys rheoli risgiau cysylltiedig. Rhoddwyd diweddariadau rheolaidd i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Bwrdd Cofrestrfa Tir EM.

## Ansawdd gwybodaeth reoli

Mae gan Gofrestrfa Tir EM dîm ymroddedig 'Cynllunio Strategol a Pherfformiad' sy'n dod o dan fantell y Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Busnes.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu nifer o fodelau sy'n hanfodol i'w busnes craidd. Mae Grŵp Goruchwylio Modelu a Chymorth Gwneud Penderfyniadau yn darparu goruchwyliaeth a her berthnasol i bob un o'n modelau busnes hanfodol.

Mae perfformiad ariannol yn cael ei fonitro ac adroddir arno trwy gyfrwng adroddiadau misol. Ceir gweithdrefn ar gyfer gosod cyllidebau blynyddol ac adolygu perfformiad ariannol a rhagolygon blwyddyn gyfan. Mae adolygiadau rhagolygon chwarterol yn weithredol gan roi goruchwyliaeth a sicrwydd priodol i'r Bwrdd Gweithredol a Bwrdd Cofrestrfa Tir EM.

## Adrodd am berfformiad

Yn ogystal â'r adroddiadau ariannol misol gan y Prif Swyddog Ariannol, caf wybod am berfformiad gweithredol trwy hyb perfformiad, sy'n cael ei lunio o ddata perfformiad ehangach a dderbynnir ac a adolygir gan y Panel Perfformiad cyn ei gyflwyno'n fisol i'r Bwrdd Gweithredol. Caf bapurau diweddaru a chyflwyniadau hefyd gan dimau rheoli imi a'r Bwrdd Gweithredol.

Rwyf wedi ymweld â'r swyddfeydd gweithredol a grwpiau'r Brif Swyddfa trwy gydol y flwyddyn, fel y mae aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r ymweliadau gweithredol yn darparu adborth hollbwysig ar ganlyniadau ansawdd, gwaith ar y gweill a chyflymder gwasanaeth yn ogystal â materion eraill o bryder i'n staff ar bob lefel yn y sefydliad. Rwyf innau, ynghyd ag aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol, yn ysgrifennu blogiau rheolaidd yn cwmpasu negeseuon allweddol pwysig, sy'n destun sylwadau ac adborth.

Rwyf yn cwrdd hefyd ag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid allanol trwy ymweliadau a drefnwyd, cyfarfodydd rheolaidd a grwpiau ymgysylltu ffurfiol â budd-ddeiliaid er mwyn deall eu pryderon a'r cyd-destun gweithredol.

## Sicrwydd caffael

Caf fy sicrhau gan y Prif Swyddog Ariannol, ynghylch caffaeliadau penodol, fod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM a bod uwch reolwyr wedi cydymffurfio â'r canllawiau hyn a chanllawiau caffael penodol Cofrestrfa Tir EM.

## Adrodd ar sicrwydd

Mae gofyn i bob cyfarwyddwr gyflwyno datganiad o sicrwydd ddwywaith y flwyddyn sy'n ymdrin â'i risgiau strategol a chyfarwyddiaeth allweddol a'r rheolaethau sy'n lliniaru'r rhain.

Mae'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cael sicrwydd gan Dîm Cywirdeb y Gofrestr ynghylch ansawdd gwaith achos a'r Grŵp Gwrth-dwyll ar gydnerthedd rhag twyll.

## Chwythu'r chwiban

Mae polisi chwythu'r chwiban gan Gofrestrfa Tir EM a chynhaliwyd adolygiad o'i gymhwysiad a'i ymarfer y flwyddyn hon. Roedd y Pwyllgor Archwilio yn fodlon bod polisi cadarn yn ei le a bod staff yn gallu codi pryderon o dan y polisi.

## Archwilio Mewnol a barn

Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer Cofrestrfa Tir EM fel a ganlyn: "Mae gan Gofrestrfa Tir EM fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol i gefnogi cyflawni ei hamcanion busnes yn foddhaol, ac er mwyn rheoli risgiau allweddol yn effeithiol. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi nodi gwelliannau pellach i'r fframwaith sy'n ofynnol i sicrhau ei fod yn parhau'n ddigonol ac yn effeithiol'.

Simon Hayes

**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
8 Gorffennaf 2020

# Adroddiad tâl a staff

## Polisi ar gyfer uwch weision sifil

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff;
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer cyflenwi gwasanaethau adrannol;
- y cyllid sydd ar gael i adrannau fel y nodir yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth; a
- tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r Corff Adolygu yn ystyried y dystiolaeth a roddir iddo am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Gosodir cyflog y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae Pwyllgor Tâl ac Enwebu Cofrestrfa Tir EM, yn gweithredu yn ôl awdurdod Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, yn ystyried argymhellion tâl a ddarperir gan reolwyr llinell ac yn penderfynu ar ddosbarthiad tâl perfformiad yn yr adolygiad blynyddol o dâl ar gyfer uwch weision sifil Cofrestrfa Tir EM, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

Mae tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol ar gyfer uwch weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn https://www.gov.uk/government/publications/senior-civil-service-performance-management.

Yn ystod y flwyddyn aelodau'r Pwyllgor Tâl oedd yr Aelodau Bwrdd Anweithredol Diana Breeze (Cadeirydd) a Chris Morson, Mike Harlow fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro (i 10 Tachwedd 2019) a'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Simon Hayes o ddechrau ei benodiad ar 11 Tachwedd 2019. Roedd y Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol Jon Cocking hefyd yn bresennol yn y pwyllgor hwn.

## Polisi ar gyfer gweision sifil eraill

Mae'r tâl i weithwyr Cofrestrfa Tir EM nad ydynt ar raddau Uwch Weision Sifil yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng Cofrestrfa Tir EM a'r undebau llafur, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Cafodd achos busnes hyblygrwydd tâl ar gyfer codiad cyflog 2019/20 ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM ym Mehefin 2020. Cafodd y cynnig tâl dilynol ei dderbyn gan yr undebau llafur yn dilyn pleidlais yr aelodau, a chaiff y codiad cyflog ei weithredu gyda chyflogau Gorffennaf 2020 yn cael eu hôl-ddyddio i Fehefin 2019.

## Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodiadau Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar deilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall, mae gan yr holl gyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn benodiadau sy'n benagored ac yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis. Byddai terfynu'r swydd yn gynnar i'r cyfarwyddwyr ar gontractau gwasanaeth penagored, heblaw oherwydd camymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservicecommission.org.uk.

## Datgeliad oddi ar y gyflogres

Cyflogiadau oddi ar y gyflogres fel ar 31 Mawrth 2020, ar gyfer mwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis:

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| **Cyflogiadau presennol fel ar 31 Mawrth 2020** | 25 | 17 |
| O'r rhai presennol sy'n: | | |
| — llai na blwyddyn adeg adrodd | **16** | 15 |
| — rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg adrodd | **9** | 2 |
| — rhwng dwy a thair blynedd adeg adrodd | **–** | – |
| — rhwng tair a phedair blynedd adeg adrodd | **–** | – |
| — rhwng pedair neu ragor o flynyddoedd adeg adrodd | **–** | – |
| **Cyflogiadau newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis:** | | |
| **Cyflogiadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020** | **42** | 25 |
| O'r rhain: | | |
| — sydd wedi eu hasesu yn rhai wedi eu dal gan IR35 | **40** | 21 |
| — sydd wedi eu hasesu yn rhai wedi eu dal gan IR35 | **2** | 4 |
| — sydd wedi eu terfynu o ganlyniad i beidio â chael sicrwydd | **–** | – |
| Nifer a gyflogwyd yn uniongyrchol (trwy Gwmni Gwasanaeth Personol wedi ei gontractio i adran) ac sydd ar gyflogres adrannol | **–** | – |
| Nifer y cyflogiadau a ailaseswyd at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn | **42** | 25 |
| Nifer y cyflogiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad o gysondeb | **–** | – |
| **Cyflogiadau oddi ar y gyflogres aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020** | | |
| Nifer y cyflogiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol | **–** | – |
| Cyfanswm yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres yr ystyrir eu bod yn "aelodau bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys cyflogiadau oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres | 9 | 11 |

## Gwariant ar wasanaeth ymgynghori

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cost gwasanaeth ymgynghori | **1,719** | 714 |
| Cyfanswm | **1,719** | 714 |

## Cyflog a thâl perfformiad – cyfarwyddwyr gweithredol[1] 2019/20

| | Cyflog £'000 | Tâl perfformiad £'000 | Digolledu am golli swydd £'000 | Buddion mewn nwyddau l'r £100 agosaf | Buddion pensiwn[2] £ | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Simon Hayes[3] Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 50 – 55 | – | – | – | 73,000 | 125 – 130 |
| Cyfwerth blynyddol | (135 – 140) | – | – | – | – | (135 – 140) |
| Mike Harlow[4] Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Gofrestrydd Tir | 125 – 130 | 10 – 15 | – | – | 44,000 | 185 –190 |
| John Abbott[5] Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg | 120 – 125 | 10 – 15 | – | – | 28,000 | 160 – 165 |
| Jon Cocking[6] Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol | 85 – 90 | 10 – 15 | – | – | 70,000 | 165 – 170 |
| Iain Banfield Prif Swyddog Ariannol | 110 – 115 | – | – | – | 125,000 | 235 – 240 |
| Chris Pope Prif Swyddog Gweithrediadau | 130 – 135 | – | – | – | 52,000 | 180 – 185 |
| Karina Singh Cyfarwyddwr Trawsnewid | 110 – 115 | – | – | – | 48,000 | 155 – 160 |
| Robin Malpas[7] Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol Canolog | 65 – 70 | 5 – 10 | – | – | 95,000 | 170 – 175 |
| Cyfwerth blynyddol | (85 – 90) | – | – | – | – | (85 – 90) |
| Mike Westcott-Rudd[8] Cynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd | 80 – 85 | 0 – 5 | 40 – 45 | – | 24,000 | 150 – 155 |

1. Wedi ei archwilio.
2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi ei luosi 20 gwaith) a hefyd (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.
3. Dechreuodd penodiad Simon Hayes fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir ar 11 Tachwedd 2019.
4. Daeth dyrchafiad dros dro Mike Harlow i swydd y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir i ben ar 10 Tachwedd 2019. Mae'r cyfanswm cyflog yn cynnwys cyfnod o 11 Tachwedd 2019 i 31 Mawrth 2020 pan ddychwelodd i'w rôl fel y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir.
5. Daeth penodiad John Abbott i ben ar 11 Mai 2020.
6. Roedd tâl perfformiad Jon Cocking ar gyfer 2019/20 yn cynnwys elfennau tâl yn ôl perfformiad a Thâl Perfformiad Corfforaethol yn ei rinwedd wirioneddol fel Dirprwy Gyfarwyddwr. Daeth dyrchafiad dros dro Jon fel Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol i ben ar 5 Mehefin 2020, a ddychwelodd i'w rôl wedi hynny fel Dirprwy Gyfarwyddwr.
7. Daeth dyrchafiad dros dro Robin Malpas i ben ar 10 Tachwedd 2019. Mae'r symiau a ddatgelwyd uchod yn berthnasol i'w benodiad yn Gwnsler Cyffredinol Dros Dro a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir.
8. Daeth penodiad Mike Westcott-Rudd i ben ar 31 Mawrth 2020.

## Cyflog a thâl perfformiad – cyfarwyddwyr gweithredol[1] 2018/19

| | Cyflog<br>£'000 | Tâl perfformiad<br>£'000 | Buddion mewn nwyddau<br>I'r £100 agosaf | Buddion pensiw[2]<br>£ | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Graham Farrant[3]<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 145 – 150 | – | – | – | 145 –150 |
| Cyfwerth blynyddol | (195 – 200) | – | – | – | (195 – 200) |
| Mike Harlow[4]<br>Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 120 – 125 | – | – | 136,000 | 260 – 265 |
| John Abbott<br>Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg | 115 – 120 | 10 – 15 | – | 46,000 | 175 – 180 |
| Caroline Anderson[5]<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol | 90 – 95 | – | – | 37,000 | 125 – 130 |
| Cyfwerth blynyddol | (95 – 100) | – | – | – | (95 – 100) |
| Jon Cocking[6]<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol | 5 – 10 | – | – | 29,000 | 35 – 40 |
| Cyfwerth blynyddol | (85 – 90) | – | – | – | (85 – 90) |
| Ruth Curry[7]<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Cyllid a Gwasanaethau Busnes | 75 – 80 | – | – | 24,000 | 100 – 105 |
| Cyfwerth blynyddol | (90 – 95) | – | – | – | (90 – 95) |
| Iain Banfield[8]<br>Prif Swyddog Ariannol | 15 – 20 | – | – | 54,000 | 70 – 75 |
| Cyfwerth blynyddol | (100 – 110) | – | – | – | (100 – 110) |
| Chris Pope<br>Prif Swyddog Gweithrediadau | 130 – 135 | – | – | 51,000 | 180 – 185 |
| Karina Singh<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid | 105 – 110 | – | – | 186,000 | 290 – 295 |
| Robin Malpas[9]<br>Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 20 – 25 | – | – | 53,000 | 75 – 80 |
| Cyfwerth blynyddol | (80 – 85) | – | – | – | (80 – 85) |
| Mike Westcott-Rudd<br>Cynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd | 80 – 85 | – | – | 1,000 | 80 – 85 |

1. Wedi ei archwilio.
2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y gwir gynnydd yn y pensiwn wedi ei luosi gan 20) a hefyd (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo o hawliau pensiwn.
3. Daeth penodiad Graham Farrant i ben ar 31 Rhagfyr 2018.
4. Dyrchafwyd Mike Harlow dros dro i'r swydd Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro ar 1 Ionawr 2019. Mae'r ffigur cyflog hwn yn cynnwys cyfnod o 1 Ebrill 2018 i 31 Rhagfyr 2018 pan oedd Mike yn Gwnsler Cyffredinol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir. Cafodd swm y buddion pensiwn a ddyfynnir ei ailgyfrif gan y darparwr pensiwn yn ystod 2019/20.
5. Daeth penodiad Caroline Anderson i ben ar 15 Mawrth 2019.
6. Dyrchafwyd Jon Cocking dros dro ar 1 Mawrth 2019. Mae'r symiau a ddatgelir uchod yn berthnasol i'w benodiad fel Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol.
7. Daeth penodiad Ruth Curry i ben fel Cyfarwyddwr Dros Dro Cyllid a Gwasanaethau Busnes ar 3 Chwefror 2019. Cafodd swm y buddion pensiwn a ddyfynnir ei ailgyfrif gan y darparwr pensiwn yn ystod 2019/20.
8. Dechreuodd penodiad Iain Banfield ar 1 Ionawr 2019 ond bu'n weithredol yn ei rôl fel Prif Swyddog Ariannol o 4 Chwefror 2019. Cafodd swm y buddion pensiwn a ddyfynnir ei ailgyfrif gan y darparwr pensiwn yn ystod 2019/20.
9. Dyrchafwyd Robin Malpas dros dro ar 1 Ionawr 2019. Mae'r symiau a ddatgelir yn berthnasol i'w benodiad fel Cwnsler Cyffredinol Dros Dro a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir. Cafodd swm y buddion pensiwn a ddyfynnir ei ailgyfrif gan y darparwr pensiwn yn ystod 2019/20.

## Cyflog – cyfarwyddwyr anweithredol[1]

| | **2019/20 £'000** | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Michael Mire<br>Cadeirydd Anweithredol | **55 – 60** | 55 – 60 |
| Claire Wren[2]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | **–** | – |
| Ed Westhead[3]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | **–** | – |
| Diana Breeze<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | **20 – 25** | 20 – 25 |
| Kirsty Cooper<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | **20 – 25** | 20 – 25 |
| Chris Morson<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | **20 – 25** | 20 – 25 |
| Doug Gurr[4]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | **–** | – |
| Angela Morrison<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | **20 – 25** | 20 – 25 |
| Elliot Jordan[5]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | **10 – 15** | – |
| Blynyddol cyfatebol | **(20 – 25)** | – |

1. Wedi ei archwilio.
2. Mae Claire Wren yn cynrychioli buddion UK Government Investments (UKGI) ac nid yw'n cael unrhyw dâl gan Gofrestrfa Tir EM. Daeth penodiad Claire i ben ar 14 Gorffennaf 2019.
3. Mae Ed Westhead yn cynrychioli UK Government Investments (UKGI) ac nid yw'n cael unrhyw dâl gan Gofrestrfa Tir EM. Daeth penodiad Ed i ben ar 15 Gorffennaf 2019.
4. Nid yw Doug Gurr yn cael unrhyw dâl gan Gofrestrfa Tir EM.
5. Dechreuodd penodiad Elliot Jordan ar 15 Awst 2019.

### Cyflog
Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, hawliau neilltuedig i bwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n ddarostyngedig i drethiant y DU. Mae'r tablau ar dudalennau 67 i 69 yn seiliedig ar daliadau cronnus a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM ac felly wedi eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

### Buddion mewn nwyddau
Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a roddwyd gan Gofrestrfa Tir EM ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

### Dyfarniadau perfformiad
Mae dyfarniadau yn seiliedig ar y lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac yn cael eu gwneud fel rhan o'r broses adolygu perfformiad. Mae'r dyfarniadau a adroddwyd yn cyfeirio at y perfformiad yn y flwyddyn y cawsant eu talu i'r unigolyn. Felly, mae'r dyfarniadau a adroddwyd yn 2019/20 yn berthnasol i berfformiad yn 2018/19 ac mae'r dyfarniadau cymharol a adroddwyd ar gyfer 2018/19 yn berthnasol i berfformiad yn 2017/18.

## Buddion pensiwn[1]

| | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 | | Cyfanswm cronnus Mawrth 2020 | | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth | | Gwir gynnydd mewn gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Pensiwn** £'000 | **Cyfandaliad** £'000 | **Pensiwn** £'000 | **Cyfandaliad** £'000 | **2020** £'000 | **2019** £'000 | £'000 |
| Simon Hayes[2] Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 2.5 – 5 | 5 – 7.5 | 25 – 30 | 70 – 75 | 495 | 427 | 52 |
| Mike Harlow[3] Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Gofrestrydd Tir | 2.5 – 5 | – | 30 – 35 | – | 457 | 409 | 22 |
| John Abbott[4] Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg | 0 – 2.5 | – | 15 – 20 | – | 178 | 155 | 12 |
| Jon Cocking Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol | 2.5 – 5 | – | 30 – 35 | – | 468 | 401 | 45 |
| Iain Banfield[3] Prif Swyddog Ariannol | 5 – 7.5 | 10 – 12.5 | 25 – 30 | 55 – 60 | 392 | 299 | 73 |
| Chris Pope Prif Swyddog Gweithrediadau | 2.5 – 5 | – | 15 – 20 | – | 232 | 177 | 36 |
| Karina Singh Cyfarwyddwr Trawsnewid | 2.5 – 5 | 0 – 2.5 | 45 – 50 | 45 – 50 | 822 | 754 | 27 |
| Robin Malpas[3] Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol Canolog | 2.5 – 5 | 12.5 – 15 | 35 – 40 | 105 – 110 | 831 | 702 | 94 |
| Mike Westcott-Rudd Cynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd | 0 – 2.5 | 2.5 – 5 | 35 – 40 | 105 – 110 | 787 | 763 | 23 |

1. Wedi ei archwilio.
2. Dechreuodd penodiad Simon Hayes fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir ar 11 Tachwedd 2019.
3. Data 2019 wedi ei ailgyfrif gan y darparwr pensiwn yn ystod 2019/20.
4. Daeth penodiad John Abbott i ben ar 11 Mai 2020.
5. Ni thalodd unrhyw gyfarwyddwr i mewn i bensiwn budd-ddeiliaid.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n rhoi buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yr un faint ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil newydd a benodwyd a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae pedair rhan i'r Cynllun hwnnw: tair yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (sef classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y cynllun hwnnw ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae'r holl aelodau sy'n newid i alpha yn cael eu buddion cynllun wedi eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach mewn un o rannau cyflog terfynol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cael y buddion hynny ar sail ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 naill ai ddewis y trefniadau buddion wedi eu diffinio priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o gynllun classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Bydd buddion yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymddeol. Yn achos y cynllun premium, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig, ac i bob pwrpas croesiad yw classic plus gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras yn yr un modd â'r cynllun classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrifo yn yr un modd o'r cynllun premium. Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn adeiladu pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth â'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn a enillwyd gan yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun, ac mae'r pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion yn y cynllun alpha yn cronni mewn modd tebyg i nuvos, ac eithrio bod y gyfradd cronni yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (symud) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) at gynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os yw'n cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd ei aelodaeth weithredol o'r cynllun yn dod i ben os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn nag oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau o nuvos, a'r uchaf o 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.

## Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (GTCAP) yw gwerth cyfalafog, wedi ei asesu gan actiwari, o fuddion y cynllun pensiwn y mae aelod wedi eu cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTCAP yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelodau o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir GTCAP yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

## Gwir gynnydd mewn GTCAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTCAP a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Adrodd ar gynlluniau digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac eraill – pecynnau ymadael[1]

| Band cost pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 |
| £0–£10,000 | – | – | 11 | 4 | 11 | 4 |
| £10,001–£25,000 | – | – | – | 1 | – | 1 |
| £25,001–£50,000 | – | – | 2 | – | 2 | – |
| £50,001–£100,000 | – | – | – | 2 | – | 2 |
| £100,001–£150,000 | – | – | – | – | – | – |
| £150,001–£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| >£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael** | – | – | **13** | **7** | **13** | **7** |
| **Cyfanswm cost** | – | – | **£106,945** | **£166,862** | **£106,945** | **£166,862** |

1. Wedi ei archwilio.

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau ex-gratia yn 2019/20 (2018/19: dim).

## Digolledu am golli swydd

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn ym mlwyddyn y cytundeb contract i ymadael. Os yw'n gymwys, mae costau ychwanegol budd pensiwn gostyngol am adael y cynllun yn cael eu talu gan Gofrestrfa Tir EM ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl.

## Lluosrifau tâl[1]

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn ei sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad.

Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, taliadau cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000) | 135 – 140 | 195 – 200 |
| **Cyfanswm canolrif (£)** | 26,295 | 26,213 |
| Cymhareb tâl | 5.1 | 7.5 |

1. Wedi ei archwilio.

Yn 2019/20 ni chafodd unrhyw weithwyr dâl oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr parhaol sy'n ennill y cyflog uchaf. Roedd tâl yn amrywio o £135,000 – £140,000 i £15,000 – £20,000 (2018/19: £195,000 – £200,000 i £15,000 – £20,000).

Yr elfen allweddol o fewn yr amrywiad yng nghymhareb tâl 2019/20 yw'r lleihad yng nghyfanswm tâl y cyfarwyddwr parhaol sy'n cael y tâl uchaf o'i gymharu â 2018/19.

## Adroddiad staff fel ar 31 Mawrth 2020

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr (gan gynnwys penodiadau cyfnod penodol) | 5,787 | 5,619 |
| Aelodau parhaol cyfwerth ag amser llawn | 5,189 | 5,074 |
| Nifer y prentisiaid | 80 | 62 |
| Nifer y staff dros dro/dan gontract | 69 | 17 |
| Diwrnodau salwch cyfartalog fesul gweithiwr | 7.8 | 7.3 |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr | 4.8 | 4.4 |
| Diwrnodau hyfforddi fesul prentis | 44 | 45 |
| Gwariant hyfforddiant fel canran o'r bil cyflogau | 0.37% | 0.38% |
| Gweithwyr benyw | 60.5% | 60.5% |
| Gweithwyr rhan-amser | 33.9% | 33.2% |
| Gweithwyr o leiafrifoedd ethnig | 5.5% | 5.6% |
| Gweithwyr sy'n nodi bod anabledd ganddynt | 8.3% | 8.5% |

## Costau staff ar gyfer 2019/20


| | Staff parhaol £'000 | Prentisiaid £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 167,057 | 810 | 1,269 | 169,136 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 16,052 | 36 | 103 | 16,191 |
| Costau pensiwn eraill | 40,097 | 190 | 255 | 40,542 |
| **Cyfanswm costau staff** | **223,206** | **1,036** | **1,627** | **225,869** |

## Dadansoddiad ar sail rhyw ar 31 Mawrth 2020

| | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr anweithredol | 5 | 3 | 8 |
| Cyfarwyddwyr gweithredol[1] | 8 | 1 | 9 |
| Uwch Wasanaeth Sifil – band 2[1] | 5 | 1 | 6 |
| Uwch Wasanaeth Sifil – band 1[1] | 11 | 6 | 17 |
| Gweithwyr parhaol (heb gynnwys Uwch Weision Sifil)[2] | 2,235 | 3,462 | 5,697 |
| Prentisiaid[2] | 40 | 40 | 80 |

1. Mae rhai gweithwyr Uwch Wasanaeth Sifil hefyd yn gyfarwyddwyr ac wedi eu cynnwys yn y ddau gategori.
2. Mae rhai prentisiaid hefyd yn weithwyr parhaol ac yn cael eu cynnwys yn y ddau gategori.

## Cyfwerth ag amser llawn cyfartalog yn ystod y flwyddyn



## Adnoddu

Mae Cofrestrfa Tir EM yn cael ei llywodraethu gan Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddewis pobl i'w penodi ar sail teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Yn ogystal, mae pob un o'n cyfleoedd gwaith yn cael ei hysbysebu gan gefnogi'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd sy'n sicrhau y bydd pobl anabl yn symud ymlaen i gam nesaf y broses ddethol os yw eu cais yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Ein polisi yw sicrhau nad yw unrhyw brofion a ddefnyddir yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr anabl a bod addasiadau rhesymol a digonol yn cael eu gwneud lle y bo angen.

Mae gwaith adnoddu wedi mynd i'r afael â nifer o ofynion, gan gynnwys:

- rhoi sylw i anghenion rheng-flaen i fodloni a chynnal safonau cyflenwi gwasanaeth a mynd i'r afael â chynaliadwyedd y gweithlu yn y dyfodol; a
- gwella meysydd gallu penodol, yn arbennig ym maes trawsnewid digidol a sgiliau datblygu ystwyth.

Rydym wedi ategu ein trawsnewid digidol a'n galluoedd datblygu ystwyth trwy gynnwys partneriaid cyflenwi trwy Fframwaith Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth.

Cafodd ein cynlluniau prentisiaeth eu hehangu i gynnig y cyfle i bobl ennill cymhwyster ym maes y gyfraith, adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth a chyllid.

## Recriwtio

I gefnogi ein safonau gwasanaeth craidd, ac ategu ein gweithlu parhaol, gwnaethpwyd nifer o benodiadau Swyddog Cofrestru, gan ganiatáu i'n cydweithwyr mwy profiadol ganolbwyntio ar weithgareddau cofrestru craidd mwy cymhleth.

Mae contractwyr oddi ar y gyflogres wedi cael eu defnyddio hefyd i fodloni anghenion tymor byr mewn meysydd mwy arbenigol, ac mae gwybodaeth am gydymffurfiaeth a datgeliadau i'w gweld ar dudalen 66.

## Iechyd a llesiant

**Y Strategaeth Cefnogi ein Pobl – Cynllun cyflenwi presenoldeb, iechyd a llesiant Cofrestrfa Tir EM**

Mae Fframwaith Presenoldeb, Iechyd a Llesiant Cofrestrfa Tir EM yn ceisio darparu agwedd gyfannol at iechyd a llesiant, gan osod disgwyliadau clir ar gyfer pob aelod o staff, a helpu i sicrhau ein bod yn parhau i wneud Cofrestrfa Tir EM yn lle gwych i weithio.

Mae ein fframwaith yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol, sef:

- diwylliant – byddwn yn creu'r amgylchedd iawn i gefnogi presenoldeb, iechyd a llesiant;
- atal – byddwn yn helpu ein hunain ac eraill i fod yn fwy iach ac aros yn y gwaith;
- ymyrryd – byddwn yn sicrhau bod y cymorth iawn yn cael ei ddarparu ar yr adeg iawn; a
- dychwelyd i'r gwaith – byddwn yn helpu ein pobl i fynd yn ôl i'r gwaith mewn modd amserol.

Mae ein cynllun cyflenwi presenoldeb, iechyd a llesiant yn ceisio creu diwylliant yng Nghofrestrfa Tir EM sy'n cydnabod pwysigrwydd iechyd a llesiant, ac adeiladu amgylchedd sy'n cefnogi ein llesiant ac sy'n ein helpu i ofalu am ein hiechyd ein hunain. O ran iechyd meddwl, rydym am wneud gwir wahaniaeth yn y modd y byddwn yn ystyried iechyd meddwl, yn siarad amdano ac yn gweithredu yn ei gylch – er mwyn i Gofrestrfa Tir EM fod yn sefydliad lle mae materion iechyd meddwl yn cael eu deall yn gyffredinol a'u stigma'n cael ei chwalu; lle bydd ein pobl yn teimlo'n hyderus i siarad am eu hafiechyd meddwl; a lle bydd ein rheolwyr yn barod i adnabod a deall y sbectrwm o faterion iechyd meddwl y gallent ddod ar eu traws a chefnogi'r rhai yr effeithir arnynt.

Y flwyddyn hon rydym wedi cyflenwi amrywiaeth o fentrau i gefnogi ein cydweithwyr a'r sefydliad, gan gynnwys:

- hyrwyddo a chyfrannu at ymgyrchoedd iechyd ar draws Cofrestrfa Tir EM, wedi ei gefnogi gan ein rhwydwaith o bwyllgorau iechyd a llesiant lleol a chynorthwywyr cymorth cyntaf iechyd meddwl, dan arweiniad ein cydweithwyr Cofrestrfa Tir EM gan ddefnyddio eu profiadau a'u straeon personol eu hunain, yn ogystal â'n Bwrdd Gweithredol. Mae ymgyrchoedd wedi cynnwys wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl, diwrnod ymwybyddiaeth straen, ymwybyddiaeth ariannol, a'r ymgyrch 'byw'n iach'. Yn ogystal, mae ciosgau iechyd wedi cael eu cyflwyno ar draws ein hystad i ddarparu mynediad rhwydd at sgrinio iechyd;
- creu pecynnau cymorth o adnoddau ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl a niwroamrywiol, wedi eu bwriadu ar gyfer pob cydweithiwr i godi ymwybyddiaeth a chyfeirio at y cymorth a'r arweiniad sydd ar gael;
- ennill Dyfarniad Arian ym Mynegai Llesiant yn y Gweithle MIND sy'n feincnod o bolisi ac arferion gorau, a chreu a rhoi ar waith cynllun gweithredu cysylltiedig yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed. Yn unol â'r argymhellion a wnaed, mae polisïau adnoddau dynol wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn ategu ymrwymiad y sefydliad at iechyd meddwl;
- mae agwedd ragweithiol Swyddfa Abertawe at iechyd a llesiant wedi ennill Dyfarniad Aur gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r dyfarniad Safon Iechyd Corfforaethol yn arwydd o ansawdd ar gyfer iechyd a llesiant yn y gweithle ac yn edrych ar y gwaith y mae'r sefydliad yn ei wneud i greu amgylchedd gwaith cynhwysol a chadarnhaol;
- mae gwaith wedi mynd rhagddo i wella'r broses ddatgelu i annog bod yn agored yn ystod proses recriwtio Cofrestrfa Tir EM ac mae paneli recriwtio wedi cael eu hyfforddi ar niwroamrywiaeth;
- ail-hyrwyddo ein dewis o wasanaethau Rhaglen Cymorth i Weithwyr trwy sgyrsiau wyneb yn wyneb i bob aelod o staff;
- cyflenwi amrywiaeth o fentrau hyfforddi ffurfiol ac anffurfiol, gan gydweithio â'n darparwyr Rhaglen Cymorth i Weithwyr ac iechyd galwedigaethol, gan roi'r arweiniad a'r cyngor i reolwyr llinell wella eu hyder a'u gallu ar weithdrefnau absenoldeb salwch a helpu staff sy'n delio â materion iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

## Gallu

**Datblygu ein sgiliau**

Mae'r Fframwaith Dysgu a Datblygu sy'n sail i'n Strategaeth y Bobl wedi arwain ein hymdrechion ar ddatblygu sgiliau a gallu.

Rydym wedi cyflwyno system rheoli dysgu gynhwysfawr newydd sydd wedi arwain at gynnydd mawr mewn ymgysylltiad staff â dysgu a datblygu.

Y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer datblygu sgiliau oedd sgiliau technegol gweithwyr achos ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Rydym wedi creu modelau datblygu ac wedi defnyddio llwybrau hyfforddi optimwm yn helaeth ar

gyfer y rhan fwyaf o'n rolau gweithiwr achos. Rydym wedi datblygu ymhellach ein huwch arweinwyr yn erbyn ein disgwyliadau arweinyddiaeth sefydledig gan ganolbwyntio ar arwain newid diwylliannol, newid arweinyddiaeth a chreu dull arweinyddiaeth hyfforddi. Mae gweithdai sy'n ceisio uwchsgilio rheolwyr llinell newydd a phresennol wedi parhau gyda 1,010 o reolwyr yn mynychu 74 o ddigwyddiadau.

Rydym wedi buddsoddi hefyd mewn meysydd sgiliau allweddol eraill gan gynnwys Rheolaeth Ddigidol, Masnachol, Ariannol a Phrosiectau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus Cyfreithiol a Chyfathrebu.

Treuliodd y gweithwyr (gan gynnwys prentisiaid) 4.8 diwrnod fesul gweithiwr ar gyfartaledd yn hyfforddi, gydag 83% o'r staff yn dweud fod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith yn Arolwg blynyddol Pobl y Gwasanaeth Sifil.

## Cynnwys gweithwyr

Rydym yn parhau i ymgysylltu yn anffurfiol ac yn ffurfiol â'n cydweithwyr a'u cynrychiolwyr.

Mae blogiau'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr wedi parhau i gael eu cyhoeddi bob wythnos yn ystod y flwyddyn ac mae ein cydweithwyr wedi cael eu hannog i ymateb iddynt gan geisio sicrhau deialog agored a gonest a chyfnewid barn.

Disgwylir i reolwyr gael trafodaethau misol rheolaidd ag aelodau tîm unigol i drafod perfformiad gweithiwr, syniadau ar gyfer gwella arferion gwaith, materion sefydliadol ehangach, newidiadau ac unrhyw bryderon gwerthwyr.

Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â'n hundebau llafur. Mae'r Prif Weithredwr ac aelodau o'i dîm yn cwrdd yn ffurfiol â chynrychiolwyr yng nghyfarfodydd Cyngor Adrannol Whitley ddwywaith y flwyddyn. Mae strwythurau yn eu lle ar gyfer cyfarfodydd lleol Whitley, ac ymgynghorir â'r undebau ar faterion penodol.

Mae deialog rheolaidd anffurfiol rhwng y Prif Weithredwr ac arweinwyr undebau llafur wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Mae gweithrediad cysylltiadau cyflogaeth o ddydd i ddydd yn cael ei reoli trwy gyfarfodydd Ymgysylltu ac Ymgynghori misol rhwng uwch reolwyr a chynrychiolwyr adrannol undebau llafur, ac rydym wedi cyflwyno cyfarfodydd Trawsnewid a Newid ehangach yn lle cyfarfodydd y Swyddfa Fodel bob pythefnos.

Wrth i'r agenda newid ehangu, cynhaliwyd adolygiad o'r modd rydym yn ymgynghori â chydweithwyr undeb adrannol ac mae'r dull Swyddfa Fodel wedi cael ei adolygu, ei addasu a'i gymeradwyo eto gan y Bwrdd Trawsnewid.

Rydym yn parhau i fonitro ar y cyd â chydweithwyr undeb sut mae amser cyfleuster yn cael ei ddefnyddio, ac rydym o fewn 0.1% i'r ffigur canllaw bil talu a osodwyd gan Swyddfa'r Cabinet ac a adroddwyd iddi; am ragor o fanylion gweler Atodiad D.

Lansiwyd y gwaith diwylliant ym Mai 2019 ac mae wedi cael ymateb cadarnhaol. Yn ystod y flwyddyn, unwaith eto gwelwyd gwelliannau cadarnhaol pellach yn ein sgorau ymgysylltu yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, ac mae arolygon mewnol rheolaidd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi dangos bod y gwelliannau hyn wedi eu cynnal a bod pobl yn cyfeirio'n gadarnhaol at y gwaith ar ddiwylliant. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig at welliannau pellach mewn ymgysylltu ac yn canolbwyntio ar adeiladu ar y sylfeini a'r agwedd gadarnhaol a grëwyd gan y gwaith diwylliant, ac rydym yn datblygu model aeddfedrwydd a mesurau mwy soffistigedig, wedi eu seilio ar gynllun Diwylliant ac Ymgysylltu cyfunol sy'n parhau â ffocws cryf ar ymddygiadau yn ogystal â mentrau pobl a fydd yn sbarduno newid diwylliannol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys yr holl staff, cydweithwyr undeb, rheolwyr ac arweinwyr, a chaiff ei gefnogi gan ddiwylliant ac ymgysylltiadau lleol. Mae arweinydd gweithredol yn gyfrifol am ddangosyddion perfformiad allweddol ymgysylltu a chynllun gweithredu cyfunol i greu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u bod wedi eu cysylltu, ac sy'n ein symud tuag at y newid diwylliannol a ddisgrifiwyd gennym trwy ein Strategaeth y Bobl a chyda'n pobl.

Mae trafodaethau adeiladol parhaus â'r undebau ar lefel adrannol a lleol, yn ogystal ag annog staff i gymryd rhan ar bwyllgorau eraill (gan gynnwys iechyd a llesiant, cymdeithasol a chwaraeon, amrywiaeth ac elusennol), ac ymweliadau cyfarwyddwyr gyda sesiynau holi ac ateb, i gyd yn hanfodol o ran sicrhau bod barn ein cydweithwyr yn cael ei chlywed a'i deall.

## Amrywiaeth

**Beth mae Cofrestrfa Tir EM yn ei wneud i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant?**

Y flwyddyn hon rydym wedi parhau i adeiladu ar ddiwylliant cynhwysol ac enw da sy'n denu, datblygu ac yn cynnal diddordeb doniau amrywiol, ac sy'n cynyddu cynrychiolaeth grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Amlinellwyd yr uchelgeisiau hyn mewn amcanion cydraddoldeb sefydliadol newydd ar gyfer 2019 a thu hwnt, a thrwyddynt rydym yn ymrwymo i:

- hyrwyddo cyfle cyfartal i'n staff benyw, eu cefnogi i ymgymryd â rolau rheoli; a
- chynyddu cynrychiolaeth grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn ein gweithlu, yn benodol pobl ag anableddau, a'r rhai o gefndir du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig (BAME).

I sbarduno gweithredu a mesur ein cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn, gosodwyd dau ddangosydd perfformiad allweddol amrywiaeth a chynhwysiant: ceisio cynyddu nifer y menywod yn ein graddau rheolwyr canol i uwch reolwyr a chynyddu nifer y bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn lefelau cyntaf rheolaeth.

Rydym wedi parhau i gefnogi ein staff benyw yn eu huchelgeisiau gyrfa, gan weithio gyda'n Rhwydwaith Menywod i ddeall a symud rhwystrau a noddi amrywiaeth o weithgareddau datblygu yn fewnol ac yn allanol trwy weithgareddau Menywod i Arweinyddiaeth.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi llwyddo i greu cyfleoedd i 45 o fenywod eraill ddatblygu eu gyrfa i, ac o fewn, ein haenau rheoli, gan ragori ar ein targed gwreiddiol gan 15.

Mae'r gweithgarwch hwn, i raddau, hefyd wedi cyfrannu at leihad pellach sydd i'w groesawu yn ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau, yr adroddom amdano ym mis Ionawr. Fodd bynnag, er bod ein gweithredoedd wedi cyfrannu at gynrychiolaeth well mewn rolau rheoli, maent hefyd yn parhau i apelio at fenywod sy'n gwneud cais am rolau llai uwch, sy'n parhau i agregu menywod ar lefel mynediad sy'n ffactor arwyddocaol yn y bwlch cyflog hwnnw.

Ni wnaethom gystal yn ein huchelgais i wella cynrychiolaeth cydweithwyr duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ein rolau rheoli lefel mynediad, gan gyflawni cynnydd o wyth, yn erbyn targed o 20 o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol.

Yn yr un modd â'n dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer menywod, rydym wedi ceisio deall a symud y rhwystrau a nodwyd trwy brofiadau bywyd go iawn, ac wedi cefnogi dilyniant trwy amrywiaeth o weithgareddau datblygu noddedig. Yn fewnol, mae 17.6% o bobl sy'n dilyn ein rhaglen datblygu Pathways yn nodi cefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Yn allanol, rydym wedi cefnogi staff trwy weithgareddau Arweinyddiaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae methu â chyflawni ein hail ddangosydd perfformiad allweddol, sef amrywiaeth a chynhwysiant i'w briodoli'n rhannol i ddiffyg data ystyrlon, ac felly mewnwelediad clir, i lywio a rhoi ffocws ar gyfer ein gweithgareddau; mae cyflawni'r dangosydd perfformiad allweddol wedi bod yn her fawr, yn bennaf oherwydd lleoliadau daearyddol ein swyddi gwag a'r lefelau gweddol isel o gynrychiolaeth gan bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y 'gronfa recriwtio' yn yr ardaloedd hynny.

Rydym wedi parhau i ddatblygu a mireinio ein data, gan weithio gyda'n tîm dadansoddeg o fewn Adnoddau Dynol i greu adroddiadau a dangosfyrddau newydd i ddarparu mewnwelediad cliriach, o ran gosod a gweithredu ar ein huchelgeisiau amrywiaeth a chynhwysiant. Byddwn yn defnyddio'r mewnwelediad newydd hwn i greu mwy o ymwybyddiaeth o amrywiaeth a chynhwysiant, a'r cyfrifoldeb amdano, trwy'r sefydliad.

Ar lefel swyddfa leol, fe'i defnyddir i lywio gweithgarwch recriwtio a datblygu i'n helpu i sicrhau bod ein swyddfeydd lleol yn adlewyrchu'n fwy agos y cymunedau lle maent wedi eu lleoli, os oes cyfle i wneud hynny.

Ar lefel gorfforaethol byddwn yn ceisio liferu'r synergeddau rhwng ein rhaglen diwylliant ac ymgysylltu barhaus a'n huchelgeisiau amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn cael canlyniadau mwy sefydledig, wedi eu mesur trwy safonau Gwasanaeth Sifil cyffredinol a disgwyliadau ymarfer sy'n berthnasol i Gofrestrfa Tir EM.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn ailwampio ein hagwedd strategol at amrywiaeth a chynhwysiant ac yn datblygu cyfres newydd o dargedau amrywiaeth, wedi eu cefnogi gan ddata clir ac ystyrlon, a dealltwriaeth gyffredin o'n cydgyfrifoldeb ar gyfer creu gweithle amrywiol a chynhwysol.

# Adroddiad archwilio ac atebolrwydd seneddol

## Ffïoedd a thaliadau[1]

Cynhyrchir y wybodaeth ganlynol am brif weithgareddau Cofrestrfa Tir EM at ddibenion ffïoedd a thaliadau ac nid yw'n ffurfio adroddiad segmentau o dan IFRS 8.

| | **2019/20** | | | 2018/19 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Incwm**<br>**£'000** | **Cyfanswm costau**<br>**£'000** | **Gwarged/ (diffyg)**<br>**£'000** | Incwm<br>£'000 | Cyfanswm costau<br>£'000 | Gwarged<br>£'000 |
| Cofrestru teitl[2] | **294,251** | **275,543** | **18,708** | 308,745 | 288,723 | 20,022 |
| Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol[3] | **7,019** | **213** | **6,806** | 7,004 | 988 | 6,016 |
| Incwm masnachol[4] | **4,467** | **2,600** | **1,867** | 4,504 | 2,468 | 2,036 |
| Pridiannau Tir Lleol[5] | **126** | **6,127** | **(6,001)** | – | – | – |
| | **305,863** | **284,483** | **21,380** | 320,253 | 292,179 | 28,074 |

1. Wedi ei archwilio.
2. Cofrestru teitl – yn cynnwys dyletswyddau statudol Cofrestrfa Tir EM o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002.
3. Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol – cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill.
4. Incwm masnachol – yn cynnwys rhyddhau'n fasnachol data Cofrestrfa Tir EM.
5. Pridiannau Tir Lleol – Trosglwyddodd Deddf Seilwaith 2015 i Gofrestrfa Tir EM y cyfrifoldeb am gynnal cofrestr o Bridiannau Tir Lleol. Rhoddwyd cymeradwyaeth am gyflenwi Pridiannau Tir Lleol fesul cam ac aeth gwasanaeth cam 1 yn fyw yng Ngorffennaf 2018.

Mae'r amcan ariannol wedi ei ddiffinio yng Nghofnod y Trysorlys ar gyfer Cofrestrfa Tir EM fel gwir gyfradd o 3.5%, wedi ei addasu ar gyfer chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddiwr, sydd yn 5.26% ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Roedd y gwir enillion ar elw gweithredu yn 2.98% ar ôl didynnu buddsoddiad a chostau trawsnewid parhaus.

## Colledion a thaliadau arbennig[6]

Nid oes unrhyw golledion na thaliadau arbennig i'w datgelu am fod cyfanswm yr holl golledion yn llai na £300,000 ac ni chafwyd unrhyw daliadau arbennig.

6. Wedi ei archwilio



**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
8 Gorffennaf 2020

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cofrestrfa Tir EM am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiadau o Incwm Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a Llifoedd Arian, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu o bwys. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr adroddiad Atebolrwydd hefyd a ddisgrifir yn yr Adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi ei harchwilio.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EM ar 31 Mawrth 2020 ac ar ei gwarged a gedwir am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf hon.

## Pwyslais Mater – Datgeliad mewn perthynas â phrisiad Eiddo, Offer a Chyfarpar

Tynnaf sylw at y datgeliad a wnaed yn nodyn 8 i'r datganiadau ariannol ynghylch ansicrwydd perthnasol mewn prisiadau eiddo a ysgogwyd gan bandemig COVID-19. Nid yw fy marn wedi newid mewn perthynas â'r mater hwn.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA) (UK) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny'n ei gwneud hi'n ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwyf yn annibynnol ar Gofrestrfa Tir EM yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi bodloni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

## Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd amdano ynghylch y materion canlynol y mae'r ISAs (UK) yn ei gwneud hi'n ofynnol imi adrodd yn ei gylch os, yn fy marn i:

- nid yw defnydd Cofrestrfa Tir EM o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw Cofrestrfa Tir EM wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai godi amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu Cofrestrfa Tir EM i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

## Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973.

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed wedi ei achosi gan dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gwblheir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn sylweddol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu, yn unigol neu ar y cyd, ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o'r archwiliad yn unol ag ISAs (UK), rwy'n arfer barn broffesiynol ac yn cynnal sgeptigaeth broffesiynol trwy'r archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- nodi ac yn asesu'r risgiau o gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol, boed oherwydd twyll neu wall, yn cynllunio ac yn perfformio gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad sylweddol sy'n deillio o dwyll yn uwch nag ar gyfer un sy'n deillio o wall, oherwydd gallai twyll gynnwys cyngynllwyno, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- dod i ddeall rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol yn yr amgylchiadau, ond nid

at ddiben mynegi barn am effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Cofrestrfa Tir EM.

— gwerthuso priodoldeb y polisïau cyfrifyddu a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan y rheolwyr.
— gwerthuso cyflwyniad cyffredinol, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau a'r trafodion sylfaenol mewn modd sy'n sicrhau cyflwyniad teg.
— dod i gasgliad ynghylch priodoldeb defnydd Cofrestrfa Tir EM o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, a oes ansicrwydd sylweddol sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cofrestrfa Tir EM i barhau fel busnes gweithredol. Os wyf yn dod i'r casgliad bod ansicrwydd sylweddol yn bodoli, mae'n ofynnol imi dynnu sylw yn fy adroddiad at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os yw datgeliadau o'r fath yn annigonol, newid fy marn. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i Gofrestrfa Tir EM beidio â bodoli fel busnes gweithredol.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n llywodraethu ynghylch, ymysg pethau eraill, cwmpas ac amseru arfaethedig yr archwiliad a chasgliadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol yn y rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Yn ogystal, mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod yr incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cynhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nad yw'n cynnwys y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifiwyd yn yr Adroddiad fel gwybodaeth archwiliedig, y datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd am y rheiny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd amdani. Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu'n ymddangos fel arall fel petai wedi ei cham-ddatgan yn sylweddol. Os wyf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaethpwyd gennyf, fod cam-ddatgan sylweddol o'r wybodaeth arall honno wedi digwydd, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

— mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraethu 1973;
— yn sgîl y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gofrestrfa Tir EM a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Perfformiad neu'r Adroddiad Atebolrwydd; ac
— mae'r wybodaeth a nodir yn yr Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd arno ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd ichi os, yn fy marn i:

— nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu nid yw ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau y mae fy staff heb ymweld â nhw; neu
— nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu;
— nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
— nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Gorffennaf 2020

# Datganiadau ariannol

## Datganiad o Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020


| | | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **£'000** | £'000 |
| Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid | 2 | **305,863** | 320,253 |
| Incwm amrywiol | 2.1 | **2,716** | 2,967 |
| Cost gwasanaeth | 2 | **(258,038)** | (270,414) |
| **Gwarged gros** | | **50,541** | 52,806 |
| Costau gweinyddol | 2 | **(26,445)** | (21,765) |
| **Gwarged gweithredu** | 2.1 | **24,096** | 31,041 |
| (Colled)/elw ar waredu asedau anghyfredol | | **(1,583)** | 39 |
| Incwm buddsoddi – llog i'w dderbyn | 5 | **3,268** | 3,068 |
| Costau cyllid | 6 | **(605)** | (633) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | 3.2 | **3,129** | 3,494 |
| Costau refeniw Pridiannau Tir Lleol | | **–** | (4,681) |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | | **28,305** | 32,328 |
| Difidend i'w dalu | 7 | **(24,689)** | (27,264) |
| Gwarged a gadwyd cyn y difidend arbennig | | **3,616** | 5,064 |
| | | | |
| Difidend arbennig i'w dalu | 7 | **(483,514)** | – |
| **(Colled)/gwarged a gadwyd wedi ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn a gadwyd** | | **(479,898)** | 5,064 |
| Enillion ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | **4,754** | 2,273 |
| **(Colled)/gwarged cynhwysfawr am y flwyddyn ariannol** | | **(475,144)** | 7,337 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 84 i 103 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol fel ar 31 Mawrth 2020

| | | 2019/20 | | 2018/19 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **£’000** | **£’000** | £’000 | £’000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **74,817** | | 60,638 | |
| Eiddo buddsoddi | 8.3 | **3,130** | | 2,950 | |
| Asedau anniriaethol | 9 | **27,637** | | 25,227 | |
| Symiau derbyniadwy masnach ac eraill | 11.2 | **925** | | 1,498 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | **106,509** | | 90,313 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Asedau contract | 10 | **9,845** | | 5,670 | |
| Symiau derbyniadwy masnach ac eraill | 11.1 | **9,547** | | 10,279 | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian | 12 | **20,094** | | 519,798 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **39,486** | | 535,747 |
| **Cyfanswm asedau** | | | **145,995** | | 626,060 |
| **Atebolrwydd cyfredol** | | | | | |
| Symiau derbyniadwy masnach ac eraill | 13.1 | **90,243** | | 67,373 | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.1, 14.1 | **273** | | 241 | |
| Darpariaethau tymor byr | 15.1 | **517** | | 4,945 | |
| | | | **91,033** | | 72,559 |
| Cronfa Indemniad | 15.2 | | **73,200** | | 95,400 |
| **Cyfanswm atebolrwydd cyfredol** | | | **164,233** | | 167,959 |
| **Asedau anghyfredol a hefyd (atebolrwydd)/asedau cyfredol net** | | | **(18,238)** | | 458,101 |
| **Atebolrwydd anghyfredol** | | | | | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.2, 14.1 | **4,009** | | 4,282 | |
| Darpariaethau tymor hir | 15.1 | **5** | | 927 | |
| **Cyfanswm atebolrwydd anghyfredol** | | | **4,014** | | 5,209 |
| **(Atebolrwydd)/asedau net** | | | **(22,252)** | | 452,892 |
| **Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn** | | | | | |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | | | **–** | | 61,545 |
| Cronfa wrth gefn ailbrisio | | | **24,981** | | 20,308 |
| Cronfa wrth gefn incwm a gwariant | | | **(47,233)** | | 371,039 |
| | | | **(22,252)** | | 452,892 |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 84 i 103 yn rhan annatod o’r cyfrifon hyn.



**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
8 Gorffennaf 2020

## Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | Cronfa ailbrisio | Cronfa incwm a gwariant | Cyfanswm cronfeydd |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gweddill wedi ei addasu ar 31 Mawrth 2018 | 61,545 | 18,096 | 365,914 | 445,555 |
| Newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn 2018/19 | | | | |
| Trosglwyddo i enillion argadwedig | – | (61) | 61 | – |
| Gwarged cynhwysfawr | – | 2,273 | 5,064 | 7,337 |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2019 | 61,545 | 20,308 | 371,039 | 452,892 |
| **Newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn 2019/20** | | | | |
| Trosglwyddo i enillion argadwedig | (61,545) | (81) | 61,626 | – |
| Colled gynhwysfawr | – | 4,754 | (479,898) | (475,144) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2020** | **–** | **24,981** | **(47,233)** | **(22,252)** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 84 i 103 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

Cafodd Cyfalaf Difidend Cyhoeddus ei ddileu ar 31 Mawrth 2020 trwy dalu difidend arbennig i Drysorlys EM o £483.5m.

Mae'r gronfa wrth gefn incwm a gwariant yn cynrychioli'r incwm net a gadwyd cronnol, wedi ei addasu ar gyfer taliadau difidend. Mae'r golled gynhwysfawr ar gyfer 2019/20 yn adlewyrchu'r difidend arbennig a dalwyd. Y gwarged a gadwyd cyn talu'r difidend arbennig oedd £3.6m.

Mae'r gronfa wrth gefn ailbrisio yn cofnodi ailbrisio asedau eiddo a buddsoddi anghyfredol.

## Datganiad Llif Arian Parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | Nodiadau | **2019/20**<br>**£'000** | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 18.1 | **23,397** | 43,547 |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | | **(5,277)** | (2,368) |
| Prynu asedau anniriaethol | | **(17,885)** | (13,816) |
| Enillion ar waredu asedau diriaethol | | **3** | 8 |
| Llog a dderbyniwyd | | **3,268** | 3,359 |
| Gostyngiad mewn buddsoddiad yng Nghronfa'r Benthyciadau Gwladol | | **–** | 230,335 |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(19,891)** | 217,518 |
| **Gweithgareddau cyllido** | | | |
| Difidendau a dalwyd | | **(502,364)** | (49,160) |
| Ad-daliadau o elfen gyfalaf rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(241)** | (213) |
| Elfennau llog rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 6 | **(605)** | (633) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **(503,210)** | (50,006) |
| **(Gostyngiad)/cynnydd net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod cyfatebol** | 18.2 | **(499,704)** | 211,059 |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn** | 18.2 | **519,798** | 308,739 |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn** | 12 | **20,094** | 519,798 |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 84 i 103 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2019/20 ac maent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Drysorlys EM yn unol ag adran 4 (6) (a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn y Llawlyfr yn dilyn Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u haddasir neu y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig Cofrestrfa Tir EM at ddibenion penodol rhoi darlun gwir a theg. Cymhwyswyd polisïau cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol o ran y datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'r rheolwyr o'r farn bod y sail busnes gweithredol yn briodol am ein bod o dan rwymedigaeth gyfreithiol o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol mewn perthynas â chofrestru tir ac mae digon o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r sefydliad yn y dyfodol.

Daeth *Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond nad ydynt yn weithredol eto* IFRS 16 *Prydlesi* i rym ar 1 Ionawr 2019 gan ddisodli IAS 17 *Prydlesi*. Fodd bynnag, argymhellodd Trysorlys EM fod adrannau o'r llywodraeth yn oedi cyn mabwysiadu'r safon gyfrifyddu hon tan 1 Ebrill 2021, er y caniateir i rai adrannau ei mabwysiadu'n gynnar o dan amgylchiadau cyfyngedig.

Disgwylir i'r newid o 1 Ebrill 2021 gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol addasedig effeithio ar bedwar eiddo sy'n gweithredu prydlesi ac un eiddo a ddelir ar sail anfasnachol o fewn y llywodraeth. Mae gwerthoedd cyfalafog yr hawliau hyn i ddefnyddio asedau wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfradd prydles sy'n bodoli o 1.99%* (* Trysorlys EM PES 2019 11 a gyhoeddwyd Rhagfyr 2019) sydd gyda'i gilydd â hawl i ddefnyddio gwerth cyfalaf o £5.8m. Gan y bydd Cofrestrfa Tir EM yn creu asedau hawl i ddefnyddio, ac atebolrwydd prydles cyfatebol, ni ddisgwylir i asedau net newid yn sylweddol. Ni fydd unrhyw gyllid cyfalaf ychwanegol yn ofynnol, ac yn lle codi rhent bydd y taliadau sy'n ddyledus yn lleihad yn yr hawl i ddefnyddio costau atebolrwydd a llog cyllid, ynghyd â dibrisiad wedi ei amorteiddio o'r hawl i ddefnyddio gwerthoedd asedau. Bydd cyllideb cost gychwynnol ar gyfer yr hawl £5.8m i ddefnyddio ychwanegiadau ased yn ofynnol ar gyfer 2021/22, a chaiff y swm hwn ei rannu rhwng hawl i ddefnyddio £1.9m (prydles fer) a £3.9m (prydles hir). Mae IFRS 16 yn caniatáu i brydles eithrio asedau ac atebolrwydd sydd wedi eu hatodi i brydlesi â thelerau o lai na 12 mis. Mae un brydles gan Gofrestrfa Tir EM ar hyn o bryd gyda thymor o lai na 12 mis.

Bydd IFRS 17 *Contractau Yswiriant* yn weithredol o 1 Ionawr 2023 ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus. Rhagwelir na chaiff y safon adrodd hon unrhyw effaith gyfrifyddu ar Gofrestrfa Tir EM oherwydd ni ddelir unrhyw gontractau yswiriant o'r fath.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi ei addasu ar gyfer ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi, asedau a ddelir i'w gwerthu, ac asedau anniriaethol i werth teg fel y pennir gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

### 1.3 Technegau amcangyfrif

Mae amcangyfrifon a barnau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Yr amcangyfrifon a'r barnau oedd â risg sylweddol o achosi addasiad sylweddol i symiau cario asedau ac atebolrwydd yn y flwyddyn gyfredol yw:

- Nodyn 8 – prisiad ac amhariad asedau anghyfredol ac effaith y coronafeirws (COVID-19);
- Nodyn 9 – amhariad asedau anniriaethol;
- Nodyn 10 – asedau contract – sy'n gofyn am farn ar ganran y gwaith a gwblhawyd ar gyfer ceisiadau sy'n aros i'w prosesu. Mae hyn yn gymwys i gost safonol haenog yn dibynnu ar y math o gais; a
- Nodyn 15.2 – amcangyfrif o'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau indemniad – lle y ceir ansicrwydd o ran cyfran yr hawliadau sy'n aros i'w prosesu a gaiff eu talu yn y pen draw, gwerth y taliadau hynny ac effaith unrhyw farnau cyfreithiol. Ar gyfer hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR), ni wyddys nifer yr hawliadau sydd heb eu hadrodd a hefyd yr adeg pan fydd gwall yn dod i'r amlwg a gwerth unrhyw hawliad posibl.

### 1.4 Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid

Mae IFRS 15 *Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid* wedi cael ei fabwysiadu. Mae meini prawf cydnabod incwm o fewn IFRS 15 yn gyson â pholisi cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM.

Mae incwm o ffïoedd a thaliadau wedi ei gynnwys o fewn datganiadau ariannol y flwyddyn ariannol pan ddarperir y gwasanaeth. Cydnabyddir incwm yn glir o unrhyw ad-daliadau ar gyfer trafodion sydd heb eu cwblhau, neu ar drafodion lle mae gwybodaeth wallus yn cael ei rhoi gan gwsmeriaid.

Mae incwm cofrestru teitl a Phridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn cael ei gydnabod ar ôl derbyn cais a gwblhawyd. Os nad yw cais wedi ei gwblhau, mae'r swm a dderbynnir yn cael ei drin fel ffi ymlaen llaw, waeth beth fo'r math o gais. Mae pob math o gais yn cael ei gyfrif amdano yn gyson. Mae'r symiau tâl cysylltiedig a dderbynnir am wasanaethau sydd heb eu darparu yn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni yn cael eu cofnodi wedi hynny fel atebolrwydd contract a'u datgelu o fewn atebolrwydd cyfredol. Cydnabyddir incwm ar ôl i'r rhwymedigaeth perfformiad contract o dan IFRS 15 gael ei bodloni, hynny yw ar ôl i'r gofrestr gael ei diweddaru'n llawn ar ôl cael cais.

## 1.5 Segmentau gweithredu

Mae segmentau gweithredu Cofrestrfa Tir EM wedi eu trefnu o gwmpas y gwasanaethau y mae'n eu darparu ac fe'u hadroddir mewn modd sy'n gyson â'r adrodd mewnol a ddarperir i'r prif benderfynwr gweithredu. Y pedwar prif segment busnes y gellir adrodd amdanynt yw: cofrestru teitlau; Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol; Pridiannau Tir Lleol ac incwm masnachol. Mae hyn yn seiliedig ar drefniadaeth fewnol a strwythur rheoli'r grŵp, a dyma'r brif ffordd y mae'r prif penderfynwr gweithredu yn cael gwybodaeth ariannol. Prif benderfynwr gweithredu Cofrestrfa Tir EM yw Simon Hayes, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir.

## 1.6 Buddion gweithwyr

Cydnabyddir y gost o ddarparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd Cofrestrfa Tir EM yn cael gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr tymor byr fel traul yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynadwy o'r costau. Cydnabyddir buddion terfynu swydd pan ellir dangos bod cytundeb diwrthdro i derfynu cyflogaeth y gweithiwr(gweithwyr) cyn dyddiad ymddeol y cynlluniau neu o ganlyniad i gynnig i annog diswyddiad gwirfoddol.

## 1.7 Pensiynau

Mae gweithwyr Cofrestrfa Tir EM yn weision sifil sydd â'r hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – sef alpha. Cynlluniau buddion wedi eu diffinio aml-gyflogwr heb eu hariannu yw'r rhain, ond ni all Cofrestrfa Tir EM nodi ei chyfran o'r asedau ac atebolrwydd sylfaenol ar sail resymol a chyson. Felly mae Cofrestrfa Tir EM wedi cyfrif am gyfraniadau a thaliadau i'r cynlluniau hyn o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 *Buddion Gweithwyr* fel petaent yn gynlluniau cyfraniad wedi ei ddiffinio. Mae atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn cael ei godi ar y cynllun PCSPS neu alpha.

## 1.8 Eiddo, offer a chyfarpar

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn cael eu prisio'n broffesiynol gan briswyr eiddo allanol, annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol cydnabyddedig priodol a phrofiad diweddar yn lleoliad a chategori'r eiddo a brisir. Cynhaliodd Cushman and Wakefield (priswyr cofrestredig Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)) brisiad bwrdd gwaith ym mis Mawrth 2020.

Mae FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EM ddatgelu asedau anghyfredol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol am werth teg. Ar gyfer asedau sy'n cael eu defnyddio mae'r FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i gael prisiad ar ddefnydd presennol fel gwerth teg ased yn hytrach na gwerth y farchnad sy'n ofynnol gan IFRS 13 *Mesuriad Gwerth Teg*. Mae manylion addasiadau FReM sy'n parhau i fod yn gymwys ar gyfer 2019/20 i'w gweld ar GOV.UK (chwiliwch 'Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2019/20').

Ar gyfer asedau byr oes heblaw eiddo, defnyddir cost hanesyddol yn fras amcan o werth teg yr ased. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol ac adeiladau prydlesol wedi eu cynnwys yn ôl ailbrisiad llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad. Mae'r holl asedau anghyfredol diriaethol eraill yn cael eu cynnwys yn ôl cost hanesyddol llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio. Ar gyfer asedau eraill mae'r tâl dibrisiad yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu cost neu swm wedi ei ailbrisio, llai amcangyfrif o'r gwerth gweddillol, yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio dull llinell syth.

Mae eiddo, offer a chyfarpar arall yn cynnwys cyfarpar a pheiriannau TG a swyddfa. Mae Cofrestrfa Tir EM yn cyfalafu gwariant dros £1,000 ar gyfer ased unigol. Lle y bo'n briodol, mae asedau unigol sy'n is na'r lleiafswm gwerth ar gyfer cyfalafu yn cael eu grwpio. Polisi Cofrestrfa Tir EM yw peidio â chyfalafu gwariant ar osodiadau a ffitiadau, dodrefn swyddfa yn bennaf, oherwydd ni ystyrir eu bod yn berthnasol.

Mae oes asedau yn cael ei hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliol | Dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliol | Amcangyfrif o oes ddefnyddiol dybiedig |
| Adeiladau prydlesol | Cyfnod y brydles neu amcangyfrif o oes ddefnyddiol |
| Cyfarpar telegyfathrebu | 5 mlynedd |
| Cyfarpar swyddfa | 5 mlynedd |
| Cyfrifiaduron: prif-ffrâm | 5 mlynedd |
| Cyfrifiaduron: personol | 5 mlynedd |
| Ceblau strwythuredig | 10 mlynedd |
| Offer a pheiriannau trwm | 10 mlynedd |

## 1.9 Amhariad asedau anghyfredol

Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd. Os yw'r ased yn cael ei gario am swm wedi ei ailbrisio, mae'r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio, yn ôl maint y gronfa wrth gefn ailbrisio sy'n berthnasol i'r ased, gydag unrhyw beth dros ben yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Os ceir unrhyw arwydd felly, amcangyfrifir swm adenilladwy yr ased er mwyn pennu maint y golled amhariad. Y swm adenilladwy yw'r uchaf o werth teg llai costau gwerthu a gwerth mewn defnydd.

Ar gyfer asedau sy'n cael eu datblygu, cynhelir adolygiad blynyddol i gadarnhau bod yr asedau hyn yn parhau i fodloni'r meini prawf mesur o fewn IAS 38 *Asedau Anniriaethol*.

## 1.10 Asedau anniriaethol

*Trwyddedau meddalwedd*

Mae asedau anniriaethol a gaffaelwyd ar wahân yn cael eu dangos yn ôl cost hanesyddol. Mae'r costau a gododd i gaffael a dechrau defnyddio'r asedau hyn wedi eu cyfalafu. Mae'r rhain yn cynnwys costau contractwyr, deunyddiau, costau llafur i'w priodoli'n uniongyrchol a chostau gorbenion i'w priodoli'n uniongyrchol.

Mae trwyddedau meddalwedd wedi eu cynnwys am gost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar sail llinell syth ar gyfradd o:

| | |
|---|---|
| Prif-ffrâm | 5 mlynedd |
| Cyfrifiaduron personol | 5 mlynedd |

*Costau datblygu meddalwedd*
Yn unol ag IAS 38, cyfalafir gwariant ar ddatblygu seilwaith TG newydd (gan gynnwys costau trydydd parti a chostau uniongyrchol ymdrech staff mewnol). Mae costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gynllunio a phrofi cynhyrchion meddalwedd priodoladwy ac unigryw wedi eu rheoli gan Gofrestrfa Tir EM yn cael eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir y meini prawf canlynol:

- mae'n ymarferol yn dechnegol i gwblhau'r cynnyrch meddalwedd er mwyn iddo fod ar gael i'w ddefnyddio;
- mae'r rheolwyr yn bwriadu cwblhau'r cynnyrch meddalwedd a'i ddefnyddio neu ei werthu;
- gellir defnyddio neu werthu'r cynnyrch meddalwedd;
- gellir dangos sut y bydd y cynnyrch meddalwedd yn cynhyrchu budd economaidd tebygol yn y dyfodol;
- mae adnoddau technegol, ariannol ac eraill digonol ar gael i gwblhau'r gwaith datblygu a defnyddio neu werthu'r cynnyrch meddalwedd; a
- gall y gwariant i'w briodoli i'r cynnyrch meddalwedd yn ystod ei ddatblygu gael ei fesur yn ddibynadwy.

Mae'r costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wedi eu cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol. Cydnabyddir gwariant datblygu arall nad yw'n bodloni'r meini prawf hyn yn draul fel y mae'n codi. Nid yw costau datblygu a chafodd eu cydnabod yn flaenorol fel treuliau yn cael eu cydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae'r holl wariant ymchwil yn cael ei ddileu wrth iddo godi.

Mae costau datblygu meddalwedd yn cael eu categoreiddio fel asedau sydd wrthi'n cael eu datblygu o fewn nodyn 9.

*Pridiannau Tir Lleol*
Cwblhaodd Cofrestrfa Tir EM y gwaith o adeiladu a datblygu cofrestr gyfrifiadurol i gadw data Pridiannau Tir Lleol yng Ngorffennaf 2018. O 31 Mawrth 2020, ychwanegwyd y data mewn perthynas â naw awdurdod lleol at y gofrestr ac mae'n cael ei ddefnyddio.

O dan IAS 38, cyfalafwyd costau datblygu ar gyfer dau ased ar wahân: cronfa ddata i ddal y wybodaeth; a'r data ei hun, y mae angen eu glanhau, eu digido a'u symud i'r gronfa ddata hon. Ar ôl dechrau gwasanaeth y gofrestr, caiff y cydrannau hyn eu hamorteiddio dros eu hoesau defnyddiol priodol sef:

| | |
|---|---|
| Cofrestr Pridiannau Tir Lleol | 5 mlynedd |
| Data Pridiannau Tir Lleol | 10 mlynedd |

### 1.11 Eiddo buddsoddi
Mae eiddo buddsoddi yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg. Mae unrhyw elw neu golled ar waredu (wedi ei gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion net o waredu a swm sy'n cario yr eitem) yn cael ei gydnabod mewn elw neu golled. Pan fydd eiddo buddsoddi a gafodd ei ddosbarthu'n flaenorol fel eiddo, offer a chyfarpar yn cael ei werthu, mae unrhyw swm cysylltiedig yn y gronfa wrth gefn ailbrisio yn cael ei drosglwyddo i enillion argadwedig (gweler nodyn 1.8 am fanylion y prisiwr).

### 1.12 Asedau contract
Mae asedau contract yn ymwneud â cheisiadau anghyflawn sydd wedi eu prosesu'n rhannol ac sydd wedi mynd i gostau – costau mewnol staff a gorbenion sy'n uniongyrchol briodoladwy. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r asedau contract yn cael eu deillio o'r costau cyfartalog am gynhyrchu'r gwasanaeth perthnasol. Adolygir yr amcangyfrifon hyn, a'r rhagdybiaethau sylfaenol, yn rheolaidd.

### 1.13 Symiau derbyniadwy masnach
Nid yw symiau derbyniadwy masnach yn cario unrhyw log a chânt eu datgan yn ôl eu gwerth enwol fel masnach wedi ei leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy. Mae'r darpariaethau amhariad hyn yn cael eu cofnodi mewn costau gweinyddol yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Cymerir bod y swm sy'n cario o symiau derbyniadwy masnach yn fras amcan o werth teg.

Os disgwylir casglu symiau derbyniadwy o fewn blwyddyn neu lai, cânt eu dosbarthu fel asedau cyfredol.

### 1.14 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod
Mae arian yn cynrychioli arian mewn llaw, arian a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a banciau masnachol. Mae'r banc masnachol ac adneuon Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn gronfeydd sydd ar gael ar unwaith.

### 1.15 Symiau taladwy masnach
Mae symiau taladwy masnach yn rhwymedigaethau i dalu am nwyddau a gwasanaethau sydd wedi cael eu caffael yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr. Mae cyfrifon i'w talu wedi eu dosbarthu fel atebolrwydd cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol. Mae symiau taladwy masnach wedi eu datgan yn ôl eu gwerth enwol. Ystyrir bod swm cario symiau taladwy masnach yn fras amcan o werth teg.

### 1.16 Darpariaethau
Mae Cofrestrfa Tir EM yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol ac adeiladol sy'n ansicr o ran eu hamseru neu swm ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr ar y dyddiad hwnnw o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Gan fod effaith disgowntio yn amherthnasol, caiff ei chynnwys yn rhan o'r ailbrisiad i'r ddarpariaeth honno yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'i datgelu ar linell ar wahân. Codir darpariaethau ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr a chânt eu cofnodi fel atebolrwydd yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. (Ceir manylion pellach, gan gynnwys sensitifrwydd, yn nodyn 15.)

### 1.17 Cronfa Indemniad
Mae Atodlen 8 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EM indemnio trydydd partïon yn erbyn colled a achosir gan gamgymeriadau yn y gofrestr, camgymeriadau mewn canlyniadau chwlio a dogfennau a gollwyd gan Gofrestrfa Tir EM. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau indemniad Cofrestrfa Tir EM yn deillio o gamgymeriadau yn y gofrestr, ac mae rhai o'r camgymeriadau hyn yn ganlyniad i ffugio dogfennau megis pridiannau. Yn wir mae twyll/ffugio fel arfer yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r taliadau indemniad, ac nid yw'r flwyddyn hon yn eithriad. O dan Atodlen 8 i'r Ddeddf,

mae hawliau statudol gan Gofrestrfa Tir EM i adennill y taliadau hyn gan drydydd partïon, os yw'r trydydd partïon ar fai, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, am y golled.

Fel ar y dyddiad cyfrifyddu cyfredol, mae taliadau am hawliadau yn y dyfodol yn ansicr o ran eu hamseru a'u swm. Mae'r Gronfa Indemniad wedi ei sefydlu ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Mae'r Gronfa Indemniad yn cael ei gosod ar ôl ystyried amcangyfrifon actiwari o gost yr hawliadau a adroddwyd ond heb eu setlo, yn ogystal â hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd. Mae'r amcangyfrif o gost hawliadau yn cynnwys y treuliau a gododd wrth setlo'r hawliadau hyn.

Mae swm sy'n cario y Gronfa Indemniad yn deillio o ddyfarniadau beirniadol, amcangyfrifon a rhagdybiaethau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Adolygir yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sylfaenol hyn yn chwarterol gan Gofrestrfa Tir EM, wedi ei chefnogi gan ei hactiwari annibynnol, sef Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Ar ôl y dyddiad cyfrifyddu, cynhelir adolygiad pellach o'r hawliadau a dderbyniwyd gan Gofrestrfa Tir EM (hyd at y dyddiad y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon) er mwyn gweld a yw'r Gronfa Indemniad wedi ei phrisio'n briodol o hyd. Mae'r cyfrifon hyn yn rhoi'r gwerthoedd setlo tebygol ar gyfer hawliadau cyfredol a hawliadau yn y dyfodol yn erbyn y Gronfa Indemniad. Rhoddir manylion pellach am y Gronfa Indemniad yn nodyn 15.2 o'r adroddiad hwn.

**1.18 Atebolrwydd digwyddiadol**

Os yw'n briodol, mae atebolrwydd y mae posibilrwydd yn unig y bydd yn crisialu ac nid yw'n bodloni meini prawf darpariaethau, wedi ei ddosbarthu'n atebolrwydd digwyddiadol. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i, hawliadau am golledion sy'n deillio o wallau neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol Cofrestrfa Tir EM fel yr yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr (gweler nodyn 17).

**1.19 Prydlesi cyllid**

Os yw Cofrestrfa Tir EM yn cadw holl risgiau a gwobrau bod yn berchennog ased sy'n ddarostyngedig i brydles o dan IAS 17, mae'r brydles yn cael ei thrin fel prydles gyllid. Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi cyllid, yn glir o daliadau cyllid, yn cael eu cynnwys yn atebolrwydd gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi eu cofnodi o fewn asedau anghyfredol a'u dibrisio dros y byrrach o'r amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol neu eu telerau prydles. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen gyllid, a godir ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr fel llog, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau'r rhwymedigaeth sy'n weddill ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

O 1 Ebrill 2021, bydd IFRS 16 hefyd yn gymwys i Gofrestrfa Tir EM. Mae IFRS 16 yn cyflwyno model cyfrifyddu prydlesai sengl ac yn gofyn i'r prydlesai gydnabod asedau ac atebolrwydd ar gyfer yr holl brydlesi sy'n para mwy na 12 mis, oni bai bod yr ased sylfaenol o werth isel. Mae'n ofynnol i brydlesai gydnabod ased hawl i ddefnyddio sy'n cynrychioli ei hawl i ddefnyddio'r ased a brydleswyd sylfaenol ac atebolrwydd prydles sy'n cynrychioli ei rwymedigaethau i wneud taliadau prydles.

**1.20 TAW**

Mae Cofrestrfa Tir EM yn cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Allan Gwasanaethau Trysorlys EM. Ar gyfer gweithgarwch anstatudol – sef gweithgarwch busnes – codir TAW a chaiff ei hadennill yn ôl rheolau TAW fasnachol. Codir TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei chynnwys yng nghostau prynu cyfalafog asedau anghyfredol. Os yw treth wrth werthu yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth wrth brynu, nodir y symiau yn glir o TAW.

**1.21 Taliadau difidend**

Roedd yn ofynnol i Gofrestrfa Tir EM dalu i Drysorlys EM ddifidend blynyddol (sef 3.5% o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol yn ogystal â'r amcangyfrif chwyddiant diweddaraf am y flwyddyn), wedi ei ddarparu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd yn ddigonol ym marn Cofrestrfa Tir EM i gyfrifo'r ffigur hwn trwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol. Ni chafwyd unrhyw effaith berthnasol o gyfrifo'r ffigur hwn trwy ddefnyddio dull amgen, fel cyfartaledd misol.

O 1 Ebrill 2020, peidiodd Cofrestrfa Tir EM â bod yn gronfa fasnachol a throsglwyddodd ei gweithgareddau gweithredol i'r llywodraeth ganolog. Mae'r newid statws hwn yn golygu na fydd unrhyw ddifidend yn daladwy yn y blynyddoedd i ddod.

Talodd Cofrestrfa Tir EM i Drysorlys EM ddifidend arbennig mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn arian parod argadwedig a dileu'r Cyfalaf Difidend Cyhoeddus ar 31 Mawrth 2020.

## 2 Segmentau busnes

Mae IFRS 8 *Segmentau Gweithredu* yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddadansoddi incwm a gwariant yn ôl prif weithgareddau busnes.

Mae pedwar maes gwahanol ar gyfer y gwasanaethau statudol a gyflenwir gan Gofrestrfa Tir EM: cofrestru teitlau; Pridiannau Tir Lleol; cofrestru Pridiannau Tir a chofrestru morgeisi a wnaed o dan Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Mae cofrestru teitl yn cynnwys gwasanaethau newid cofrestri, ymholiadau gwarantedig a symiau incwm gwasanaethau gwybodaeth. At ddibenion gweithredol, mae Cofrestrfa Tir EM yn cyfuno cyflawni'r ddau wasanaeth olaf hyn ac adlewyrchir hyn yn y dadansoddiad o segmentau hwn. Cydnabuwyd Pridiannau Tir Lleol fel segment gweithredu ar wahân yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, gyda pherfformiad gweithredol wedi ei feincnodi yn erbyn yr achos busnes ehangach a sefydlwyd.

Mae Cofrestrfa Tir EM hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau masnachol (rhyddhau ein data yn fasnachol) a ddangosir ar wahân fel segment busnes.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am yr incwm o ffïoedd statudol a thaliadau masnachol, cost gwasanaeth a'r gwarged/(diffyg) gweithredu ar gyfer pob un o'r segmentau busnes. Mae cost gwasanaeth a chostau gweinyddol yn cael eu dyrannu a'u dosrannu ar sail briodol ar gyfer y gwasanaeth.

| | **Statudol** | | | **Anstatudol** | **2019/20** | Statudol | | Anstatudol | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cofrestru teitl** | **Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol** | **Pridiannau Tir Lleol** | **Incwm masnachol** | **Cyfanswm** | Cofrestru teitl | Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol | Incwm masnachol | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Incwm | **294,251** | **7,019** | **126** | **4,467** | **305,863** | 308,745 | 7,004 | 4,504 | 320,253 |
| Cost gwasanaeth | **(253,911)** | **(183)** | **(1,692)** | **(2,252)** | **(258,038)** | (267,318) | (958) | (2,138) | (270,414) |
| Costau gweinyddol | **(21,632)** | **(30)** | **(4,435)** | **(348)** | **(26,445)** | (21,405) | (30) | (330) | (21,765) |
| **Gwarged/ (diffyg) gweithredu** | **18,708** | **6,806** | **(6,001)** | **1,867** | **21,380** | 20,022 | 6,016 | 2,036 | 28,074 |

Cyfeirir at y polisi cyfrifyddu ar gyfer segmentau gweithredu yn Nodyn 1.5.

### 2.1 Cysoni rhwng y segmentau gweithredu a'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng y gwarged gweithredu yn Nodyn 2 a'r gwarged gweithredu yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr:

| | **Nodyn** | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| | | **£'000** | £'000 |
| Cyfanswm gwarged gweithredu a adroddwyd ar gyfer segmentau gweithredu | 2 | **21,380** | 28,074 |
| **Eitemau cysoni:** | | | |
| Incwm amrywiol | | **2,716** | 2,967 |
| **Cyfanswm gwarged gweithredu yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr** | | **24,096** | 31,041 |

# 3 Gwarged gweithredu

## 3.1 Datgenir y gwarged gweithredu ar ôl codi tâl ar gyfer/(credydu):

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Costau staff (gweler nodyn 4.1) | **225,869** | 209,166 |
| Darpariaeth ar gyfer costau indemniad (gweler nodyn 15.2) | **(22,200)** | 4,400 |
| Taliadau ar gyfer indemniad gan gynnwys costau cyfreithiol | **5,350** | 2,620 |
| Gwasanaethau TG | **14,854** | 14,835 |
| Hurio peiriannau | **3,032** | 5,628 |
| Tâl yr archwilydd – ffi archwilio | **80** | 98 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol – a berchenogir | **4,728** | 4,109 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol – a brydlesir | **250** | 241 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **1,022** | 2,972 |
| Amorteiddio – Pridiannau Tir Lleol | **3,046** | 2,092 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **531** | 443 |
| Tâl am brydlesi gweithredu – adeiladau (gweler nodyn 14.2) | **1,627** | 1,570 |
| Costau dyfarnwr a ffïoedd proffesiynol eraill | **12,052** | 16,904 |
| Costau llety | **15,970** | 17,073 |
| Costau arolwg a sganio | **5,185** | 5,016 |
| Costau storio ffeiliau | **3,766** | 3,624 |
| Costau eraill | **9,321** | 1,388 |
| **Cyfanswm** | **284,483** | 292,179 |

## 3.2 Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu

| | | | **2019/20** | | | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ymddeoliad cynnar** | **Diswyddiad cynnar** | **Cyfanswm** | Ymddeoliad cynnar | Diswyddiad cynnar | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau a gododd yn y flwyddyn | **(3,133)** | **4** | **(3,129)** | (3,494) | – | (3,494) |
| | **(3,133)** | **4** | **(3,129)** | (3,494) | – | (3,494) |

# 4 Gwybodaeth am weithwyr

## 4.1 Costau staff

| | | | | **2019/20** | | | | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Prentisiaid** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff parhaol | Prentisiaid | Eraill | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | **167,057** | **810** | **1,269** | **169,136** | 158,851 | 3,844 | 1,416 | 164,111 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **16,052** | **36** | **103** | **16,191** | 15,415 | 171 | 117 | 15,703 |
| Costau pensiwn eraill | **40,097** | **190** | **255** | **40,542** | 28,476 | 670 | 206 | 29,352 |
| | **223,206** | **1,036** | **1,627** | **225,869** | 202,742 | 4,685 | 1,739 | 209,166 |

## 4.2 Niferoedd staff

Roedd nifer cyfartalog y bobl a gyflogwyd (Cyfwerth ag Amser Llawn) gan Gofrestrfa Tir EM yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **2019/20** | | | | 2018/19 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Prentisiaid** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff parhaol | Prentisiaid | Eraill | Cyfanswm |
| Uwch reolwyr | **9** | **–** | **–** | **9** | 9 | – | 1 | 10 |
| Gweithredol | **4,048** | **6** | **28** | **4,082** | 3,796 | 62 | 39 | 3,897 |
| Gweinyddol | **491** | **4** | **7** | **502** | 466 | 3 | 4 | 473 |
| TG | **509** | **27** | **7** | **543** | 467 | 18 | 8 | 493 |
| | **5,057** | **37** | **42** | **5,136** | 4,738 | 83 | 52 | 4,873 |

**4.3** Mae hawliau cyflog a hawliau pensiwn y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr Cofrestrfa Tir EM wedi eu cynnwys yn yr adroddiad Tâl a staff ar dudalennau 65 i 76.

## 4.4 Pensiynau

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn alpha – yn gynlluniau buddion wedi eu diffinio aml-gyflogwr heb eu cyllido ond ni all Cofrestrfa Tir EM nodi ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd actwari'r cynllun, Adran Actiwari'r Llywodraeth, y PCSPS fel ar 31 Mawrth 2016, gyda'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 26 Chwefror 2019. Gallwch weld manylion yng nghyfrifon adnodd Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil.

Ar gyfer 2019/20, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £39.7m yn daladwy i'r PCSPS (2018/19 £29.0m) yn ôl un o bedair cyfradd yn yr amrediad 20.0% i 24.5% o enillion pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog.

Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Gosodir cyfraddau cyfraniadau i dalu am gost y buddion sy'n cronni yn ystod 2019/20 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £0.25m i un darparwr pensiwn budd-ddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75%.

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £7,036, sef 0.5% o dâl pensiynadwy yn daladwy i PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad ar farwolaeth y gweithwyr hyn mewn gwasanaeth neu eu hymddeoliad ar sail afiechyd.

Y cyfraniadau sy'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £3.4m. Y cyfraniadau a ragdalwyd ar y dyddiad hwnnw oedd £0. Roedd pedwar unigolyn wedi ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd; cyfanswm yr atebolrwydd pensiwn cronnus ychwanegol yn y flwyddyn oedd £12,480 (2018/19: £28,395).

Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau pensiwn i'w gweld yn yr Adroddiad tâl a staff ar dudalennau 65 i 76 a nodyn 1.7

## 5 Incwm buddsoddi

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar adneuon banc | **3,268** | 3,068 |

## 6 Costau cyllid

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar rwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | **605** | 633 |

## 7 Difidend sy'n daladwy a difidend arbennig sy'n daladwy

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Difidend sy'n daladwy | **24,689** | 27,264 |
| Difidend arbennig sy'n daladwy | **483,514** | – |

Talodd Cofrestrfa Tir EM ddifidend arbennig untro o £483.5m i Drysorlys EM ar 31 Mawrth 2020. Roedd hyn yn cynrychioli dileu ac ad-dalu Cyfalaf Difidend Cyhoeddus o £61.5m.

Mae gweddill wrth gau Cyfalaf Difidend Cyhoeddus fel ar 31 Mawrth 2020 yn £dim.

Gweler Nodyn 1.21 ar gyfer y polisi cyfrifyddu yn ymwneud â thaliadau difidend.

## 8 Eiddo, offer a chyfarpar

### 8.1 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | Offer a chyfarpar | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol Tir | Adeiladau | Prydlesol Adeiladau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2019 | **9,795** | **52,352** | **13,163** | **14** | **71,415** | **5,339** | **152,078** |
| Ychwanegiadau | **–** | **–** | **–** | **7,867** | **4,506** | **526** | **12,899** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | **–** | **–** | **–** | **(7,881)** | **9,765** | **–** | **1,884** |
| Ailbrisiad yn ystod y flwyddyn | **2,460** | **1,829** | **285** | **–** | **–** | **–** | **4,574** |
| Amhariad | **–** | **(19)** | **–** | **–** | **–** | **–** | **(19)** |
| Gwarediadau | **–** | **–** | **–** | **–** | **(2,600)** | **–** | **(2,600)** |
| Ar 31 Mawrth 2020 | **12,255** | **54,162** | **13,448** | **–** | **83,086** | **5,865** | **168,816** |

**Dibrisiad cronedig**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2019 | **–** | **19,019** | **5,911** | **–** | **62,670** | **3,840** | **91,440** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | **–** | **1,394** | **636** | **–** | **3,522** | **261** | **5,813** |
| Ailbrisiad cost cyfredol | **–** | **(449)** | **(386)** | **–** | **–** | **–** | **(835)** |
| Gwarediadau | **–** | **–** | **–** | **–** | **(2,419)** | **–** | **(2,419)** |
| Ar 31 Mawrth 2020 | **–** | **19,964** | **6,161** | **–** | **63,773** | **4,101** | **93,999** |
| Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2020 | **12,255** | **34,198** | **7,287** | **–** | **19,313** | **1,764** | **74,817** |

## 8.2 Cost neu brisiad

| | Eiddo<br>Rhydd-ddaliol<br>Tir | Adeiladau | Prydlesol<br>Adeiladau | Offer a chyfarpar<br>Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 9,025 | 49,643 | 13,021 | 737 | 65,922 | 4,967 | 143,315 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | – | 2,668 | 372 | 3,040 |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | – | – | – | (723) | 723 | – | – |
| Ailbrisiad yn ystod y flwyddyn | 300 | 1,496 | 487 | – | – | – | 2,283 |
| Ailddosbarthiad asedau | – | – | (300) | – | 2,649 | – | 2,349 |
| Amhariad | – | (333) | (10) | – | – | – | (343) |
| Gwarediadau | (80) | (4) | (35) | – | (547) | – | (666) |
| Trosglwyddwyd o asedau a gadwyd i'w gwerthu | 550 | 1,550 | – | – | – | – | 2,100 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 9,795 | 52,352 | 13,163 | 14 | 71,415 | 5,339 | 152,078 |

### Dibrisiad cronedig

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2018 | – | 18,136 | 5,701 | – | 60,133 | 3,602 | 87,572 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | – | 1,394 | 637 | – | 3,076 | 238 | 5,345 |
| Ailbrisiad cost cyfredol | – | (510) | (395) | – | – | – | (905) |
| Ailddosbarthiad asedau | – | – | – | – | (88) | – | (88) |
| Gwarediadau | – | (1) | (32) | – | (451) | – | (484) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | – | 19,019 | 5,911 | – | 62,670 | 3,840 | 91,440 |
| Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2019 | 9,795 | 33,333 | 7,252 | 14 | 8,745 | 1,499 | 60,638 |

Gweler nodyn 1.8 am fanylion y polisi cyfrifyddu eiddo, offer a chyfarpar.

Gweler nodyn 1.9 am fanylion y polisi cyfrifyddu amhariad.

Gweler nodyn 8.3 am fanylion eiddo buddsoddi.

Gwerth y farchnad tir ac adeiladau yw £42.2m.

Ar ddiwedd y flwyddyn, y swm net yn gysylltiedig â phrydlesi cyllid o fewn y swm sy'n cario prydles uchod oedd £0.0m, ar sail prisiadau allanol (2018/19: £0.0m). Fodd bynnag, mae atebolrwydd prydles gyllid yn parhau ar 31 Mawrth 2020 sef £4.3m (gweler nodyn 14.1).

**Prisio tir ac eiddo**
Mae'r coronafeirws (COVID-19), a gyhoeddwyd yn "bandemig byd-eang" gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Mawrth 2020, wedi cael effaith ar farchnadoedd ariannol byd-eang. Mae sawl gwlad wedi gweithredu cyfyngiadau teithio.

Mae 14 o leoliadau swyddfa gan Gofrestrfa Tir EM yn y DU, ac mae'r rhan fwyaf o'r swyddfeydd wedi bod ar agor am flynyddoedd lawer. Amlinellir y dull prisio ar gyfer yr asedau hyn yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2019-20 (FreM) sydd ag addasiad o IAS 16 *Eiddo, Offer a Chyfarpar* gan awgrymu mesur ar werth cyfredol mewn defnydd presennol. Pennir y gwerth cyfredol trwy ddefnyddio'r dull cymharu yn seiliedig ar weithgareddau rhentu diweddar a gwerthiannau eiddo tebyg (yn ôl maint, lleoliad a chyflwr), gydag addasiadau dilynol yn cael eu gwneud ar gyfer unrhyw amrywiadau. Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu harwain gan alw, ac yn ddelfrydol dylai marchnad eiddo y DU fod yn sefydlog. Fodd bynnag, o ganlyniad i COVID-19 gallai patrymau gweithio newid, gan felly lleihau'r galw cyffredinol am le swyddfa. Gall y duedd hon gael effaith niweidiol ar werthoedd ystad Cofrestrfa Tir EM.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn dibynnu ar gyngor prisio annibynnol a phroffesiynol ond yn herio'r rhagdybiaethau a wneir a phan fydd newidiadau'n codi. Os yw gwybodaeth ddilynol yn dangos bod y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd mewn prisiadau yn anghywir, byddai hyn yn effeithio ar werth eiddo, offer a chyfarpar, y gronfa wrth gefn ailbrisio ac o bosibl yr alldro ariannol a nodir yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod adrodd.

Wrth lunio'r barnau hyn rydym yn ymwybodol bod Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) wedi cyhoeddi hysbysiad ymarfer prisio a roddodd ganllawiau i briswyr lle mae prisiwr yn datgan ansicrwydd perthnasol wedi ei gysylltu â phrisiad yn sgil effaith y coronafeirws (COVID-19) ar farchnadoedd. Cynhaliodd Cushman & Wakefield (priswyr cofrestredig RICS) brisiad bwrdd gwaith ym mis Mawrth 2020. Mae'r prisiad hwn yn seiliedig ar wir ansicrwydd yn unol â chanllawiau RICS a gyhoeddwyd ar 15 Ebrill 2020. Mae'r prisiad wedi cael ei adlewyrchu yn y datganiadau ariannol ond dylid nodi bod mwy o ansicrwydd bellach yn y marchnadoedd y mae'r prisiad a gafwyd ac sydd wedi ei gynnwys yn seiliedig arni

oherwydd diffyg data ar ddiwedd y flwyddyn. Yn sgil y barnau a luniwyd a'r ansicrwydd a ddaw yn sgil COVID-19, yn ein barn ni, ceir ansicrwydd perthnasol yn y prisiad hwn adeg adrodd.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn defnyddio ei swyddfeydd at ddiben cyflawni'r ddyletswydd statudol o gofrestru tir ac eiddo a gwarantu teitl. Ni ddefnyddir y swyddfeydd ar gyfer eu potensial buddsoddi, a gwerth yr ystad fel ar 31 Mawrth 2020 yw £53.8m. Y refeniw ailbrisio cronedig yw £25.0m, ac mae hyn yn cynrychioli enillion heb eu realeiddio o 46% o gyfanswm gwerth yr ystad swyddfa. Byddai unrhyw symudiad niweidiol yn y cyfanswm hwn yn cael ei godi yn erbyn y gronfa werth gefn ailbrisio i gychwyn, ac er y gall atebolrwydd)/asedau net yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol newid yn gyffredinol, ni fyddai'r amrywiad hwn yn debygol o effeithio ar berfformiad gweithredol yn y dyfodol yn ogystal â gwneud penderfyniadau rheoli tymor canolig a thymor byr, neu amrywio'n sylweddol fodel gweithredu Cofrestrfa Tir EM.

## 8.3 Eiddo buddsoddiad

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Ar 1 Ebrill | **2,950** | 2,750 |
| Ailbrisiad yn ystod y flwyddyn | **180** | – |
| Ailddosbarthiad asedau | **–** | 300 |
| Gwarediadau | **–** | (100) |
| **Ar 31 Mawrth** | **3,130** | 2,950 |

Mae eiddo buddsoddi yn cynnwys nifer o eiddo a brydlesir i drydydd partïon naill ai'n rhannol neu'n llwyr. Mae cyfnodau gwahanol na ellir eu dileu gan y prydlesi gyda phwyntiau opsiwn torri cyfredol yn amrywio o chwe mis i wyth mlynedd. Mae cyfnod adolygu rhent blynyddol gan un brydles, mae gan ddwy brydles gyfnod adolygu rhent bob pum mlynedd, a does dim cyfnod adolygu rhent gan un brydles. Mae cynnydd yn gysylltiedig â rhent marchnad yn seiliedig ar gymaryddion. Nid oes hawl adnewyddu awtomatig gan yr un ohonynt. Mae rhagor o wybodaeth am y prydlesi hyn i'w gweld yn nodyn 14.2.

Penderfynwyd ar werthoedd teg eiddo buddsoddi gan briswyr eiddo annibynnol allanol sydd â'r cymwysterau proffesiynol cydnabyddedig priodol a phrofiad diweddar yn lleoliad a chategori'r eiddo a brisir. Mae'r priswyr annibynnol yn darparu gwerth teg eiddo buddsoddi Cofrestrfa Tir EM yn flynyddol (gweler nodyn 1.8 am fanylion y priswyr).

Mae gwerthoedd teg eiddo buddsoddi i gyd yn Lefel 3 ar yr hierarchaeth gwerth teg oherwydd cânt eu prisio trwy gyfeirio at dechnegau prisio sy'n defnyddio mewnbynnau nad ydynt yn seiliedig ar ddata marchnad canfyddadwy.

Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau rhwng datgeliadau gwerth teg Lefel 2 a Lefel 3 yn ystod y flwyddyn.

Caiff pob eiddo buddsoddi ei fesur yn seiliedig ar brisiau marchnad gweithredol wedi eu haddasu lle y bo angen ar gyfer unrhyw wahaniaeth o ran natur, lleoliad neu gyflwr pob eiddo penodol. Y pris marchnad weithredol yw'r rhent marchnad gan ystyried unrhyw gyfnodau heb feddiannu a ddisgwylir neu a ragwelir gan denant yn y dyfodol.

# 9 Asedau anniriaethol

## 9.1 Cost neu brisiad

| | E-ddiogelwch | Porthol | Business Gateway | Asedau sy'n cael eu datblygu | Pridiannau Tir Lleol | Trwyddedau meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2019 | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **5,889** | **19,113** | **44,209** | **96,635** |
| Ychwanegiadau | **–** | **–** | **–** | **6,481** | **2,450** | **919** | **9,850** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | **–** | **–** | **–** | **(1,884)** | **(1,461)** | **1,461** | **(1,884)** |
| Gwarediadau | **–** | **–** | **–** | **–** | **(1,402)** | **(5,031)** | **(6,433)** |
| Ar 31 Mawrth 2020 | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **10,486** | **18,700** | **41,558** | **98,168** |
| **Amorteiddio** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **–** | **2,091** | **41,893** | **71,408** |
| Tâl am y flwyddyn | **–** | **–** | **–** | **–** | **3,046** | **1,022** | **4,068** |
| Gwarediadau | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **(4,945)** | **(4,945)** |
| Ar 31 Mawrth 2020 | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **–** | **5,137** | **37,970** | **70,531** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2020** | **–** | **–** | **–** | **10,486** | **13,563** | **3,588** | **27,637** |

## 9.2 Cost neu brisiad

| | E-ddiogelwch | Porthol | Business Gateway | Asedau sy'n cael eu datblygu | Pridiannau Tir Lleol | Trwyddedau meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | 14,995 | – | 43,049 | 85,468 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 10,007 | – | 3,809 | 13,816 |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | – | – | – | (19,113) | 19,113 | – | – |
| Ailddosbarthiad | – | – | – | – | – | (2,649) | (2,649) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | 5,889 | 19,113 | 44,209 | 96,635 |
| **Amorteiddio** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | – | – | 41,012 | 68,436 |
| Tâl am y flwyddyn | – | – | – | – | 2,091 | 793 | 2,884 |
| Ailddosbarthiad asedau | – | – | – | – | – | 88 | 88 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | – | 2,091 | 41,893 | 71,408 |
| Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2019 | – | – | – | 5,889 | 17,022 | 2,316 | 25,227 |

Gweler nodyn 1.10 am fanylion y polisi cyfrifyddu asedau anniriaethol.

Roedd asedau e-ddiogelwch, porthol a Business Gateway i gyd wedi cael eu hamorteiddio'n llawn erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol, ond wedi eu cynnwys yn y cyfrifon am eu bod yn dal i gael eu defnyddio. Mae asedau sy'n cael eu datblygu yn gysylltiedig â chyfalafu costau Pridiannau Tir Lleol yn ystod y flwyddyn, gwelliannau rheoli achos, symud o'r brif ffrâm i gwmwl a morgais digidol. Mae rhagor o fanylion am forgais digidol ar gael ar GOV.UK (chwiliwch am 'HM Land Registry digital mortgage service contingent liability').

## 10 Asedau contract

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwaith ar y gweill | **9,845** | 5,670 |
| | **9,845** | 5,670 |

Mae asedau contract yn gysylltiedig â chostau mewnol staff a gorbenion sy'n uniongyrchol briodoladwy wrth baratoi i gwblhau cofrestr i'r cwsmer.

## 11 Symiau derbyniadwy masnach ac eraill

### 11.1 Cyfredol

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Symiau derbyniadwy masnach | **3,194** | 3,456 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **1,561** | 1,991 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | **4,792** | 4,832 |
| | **9,547** | 10,279 |

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerir ar ddarparu gwasanaethau yw 4.0 diwrnod. Ni chodir unrhyw log ar y symiau derbyniadwy. Rhoddwyd lwfans ar gyfer amcangyfrif o'r symiau nad oes modd eu hadennill o ddarparu gwasanaethau a phennwyd y lwfans hwn trwy gyfeirio at brofiad rhagosodedig blaenorol.

Mae derbynebau cais unigol yn cael eu prosesu dim ond pan fydd y ffi berthnasol wedi cael ei chyfrif amdani. Mewn perthynas ag asedau contract, mae'r ffi hon wedi cael ei chasglu eisoes ac felly ni chydnabyddir unrhyw amhariad. Mae'r cyfanswm casgliadwy yn cael ei ledaenu dros faint uchel o gwsmeriaid gwahanol gyda ffïoedd gwerth isel cysylltiedig. Yn unol â hynny, mae'r tebygolrwydd o beidio â chasglu ffïoedd a bod yn agored i risg credyd wedi cael ei bennu'n anarwyddocaol o ran risg cyffredinol, gyda'r asesiadau hyn heb eu newid yn sgil effaith y coronafeirws (COVID-19).

### 11.2 Anghyfredol

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **180** | 199 |
| Rhagdaliadau | **745** | 1,299 |
| | **925** | 1,498 |

Bernir bod symiau derbyniadwy masnach ac eraill sy'n cario yn fras amcan o'u gwerthoedd teg.

## 12 Arian yn y banc ac mewn llaw

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£’000** | £’000 |
| Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth | **2** | 504,081 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **20,092** | 15,717 |
| | **20,094** | 519,798 |

Asedau ariannol Cofrestrfa Tir EM yw gweddillion banc ac arian parod a symiau derbyniadwy masnach ac eraill, sy’n cynrychioli’r risg credyd mwyaf posibl mewn perthynas ag asedau ariannol. Mae’r risg credyd i’w briodoli’n bennaf i symiau derbyniadwy masnach ac eraill ac mae wedi ei ledaenu dros nifer fawr o gwsmeriaid. Mae’r symiau a gyflwynir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn glir o lwfansau am symiau derbyniadwy amheus, wedi eu hamcangyfrif gan y rheolwyr yn seiliedig ar brofiadau blaenorol ac asesiad o’r hinsawdd economaidd sydd ohoni. Roedd bod yn agored i risg credyd yn gyfyngedig yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol oherwydd cyn taliad difidend arbennig Trysorlys EM ar 31 Mawrth 2020, roedd gweddillion banc Cofrestrfa Tir EM yn cael eu dal yn bennaf gyda Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth, gyda chronfeydd cyfyngedig wedi eu cadw o fewn y cyfleusterau bancio masnachol.

## 13 Symiau taladwy masnach ac eraill

### 13.1 Cyfredol

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£’000** | £’000 |
| Symiau taladwy masnach | **584** | 738 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | **4,087** | 4,987 |
| Symiau taladwy eraill | **4,109** | 3,635 |
| Croniadau | **34,574** | 27,542 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid – adeiladau | **273** | 241 |
| Atebolrwydd contract | **40,567** | 23,661 |
| Difidend taladwy | **6,322** | 6,810 |
| | **90,516** | 67,614 |

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerir ar gyfer pryniannau masnach yw 2.5 diwrnod. Bernir bod y symiau sy’n cario o symiau taladwy masnach yn fras amcan o’u gwerthoedd teg.

### 13.2 Anghyfredol

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£’000** | £’000 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid – adeiladau | **4,009** | 4,282 |
| | **4,009** | 4,282 |

## 14 Rhwymedigaethau o dan brydlesi

### 14.1 Prydlesi cyllid

| | Taliadau prydles lleiaf | | Gwerth presennol taliadau prydles lleiaf | |
|---|---|---|---|---|
| | **2019/20** | 2018/19 | **2019/20** | 2018/19 |
| Symiau taladwy o dan brydlesi cyllid | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| O fewn blwyddyn | **846** | 846 | **273** | 241 |
| Yn yr all i'r bumed flwyddyn | **3,384** | 3,383 | **1,512** | 1,333 |
| Ar ôl pum mlynedd | **3,384** | 4,230 | **2,497** | 2,949 |
| | **7,614** | 8,459 | **4,282** | 4,523 |
| Llai taliadau cyllid yn y dyfodol | **(3,332)** | (3,936) | | |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau prydlesi | **(4,282)** | 4,523 | | |
| Llai swm dyledus i'w setlo o fewn 12 mis (wedi ei ddangos o dan atebolrwydd cyfredol) | | | **(273)** | (241) |
| Swm dyledus i'w setlo ar ôl 12 mis | | | **4,009** | 4,282 |

### 14.2 Prydlesi gweithredu

### Prydlesi fel prydlesai

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Taliadau prydles lleiaf o dan brydlesi gweithredu a gydnabuwyd yn y flwyddyn | **1,627** | 1,570 |
| | **1,627** | 1,570 |

Ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, roedd gan Gofrestrfa Tir EM ymrwymiadau heb eu talu ar gyfer taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu nad oes modd eu dileu, sy'n ddyledus fel a ganlyn:

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| O fewn blwyddyn | **4** | 267 |
| Yn yr all i'r bumed flwyddyn | **1,116** | 951 |
| Ar ôl pum mlynedd | **408** | 409 |
| **Cyfanswm taliadau prydles sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn** | **1,528** | 1,627 |
| **Taliadau prydles sy'n daladwy dros gyfanswm telerau'r brydles** | **8,958** | 9,921 |

Mae taliadau prydles gweithredu yn cynrychioli rhenti sy'n daladwy gan Gofrestrfa Tir EM ar gyfer tir ac adeiladau, gan gynnwys swyddfeydd lleol Nottingham a Peterborough.

**Prydlesi fel prydleswr**
Mae Cofrestrfa Tir EM yn prydlesu eiddo buddsoddi (gweler nodyn 8.3).

Ar 31 Mawrth mae'r taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol o dan brydlesi na ellir eu dileu yn dderbyniadwy fel a ganlyn:

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| O fewn blwyddyn | **–** | – |
| Yn yr all i'r bumed flwyddyn | **–** | – |
| Ar ôl pum mlynedd | **428** | 398 |
| | **428** | 398 |

Yn ystod y flwyddyn, roedd £0.2m o incwm rhentu eiddo buddsoddi yn dderbyniadwy. Er bod yr eiddo'n cael ei osod yn flaenorol o dan Femorandwm Telerau Meddiannaeth (MOTO) i sefydliadau sector cyhoeddus eraill, fe'u gosodir bellach ar delerau masnachol.

## 15 Darpariaethau ar gyfer atebolrwydd a thaliadau

### 15.1 Cynlluniau rhyddhau cynnar ac eraill

| | **Ymddeoliad cynnar** | **Arall** | **Cyfanswm** | Ymddeoliad cynnar | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **2019/20** | | | 2018/19 |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill | **4,911** | **961** | **5,872** | 7,105 | 445 | 7,550 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | **–** | **–** | **–** | – | 721 | 721 |
| Ailbrisiad o ddarpariaeth | **(12)** | **–** | **(12)** | 115 | – | 115 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | **(1,311)** | **(760)** | **(2,071)** | (2,309) | (205) | (2,514) |
| Darpariaeth a adferwyd heb ei defnyddio | **(3,122)** | **(145)** | **(3,267)** | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth** | **466** | **56** | **522** | 4,911 | 961 | 5,872 |
| Wedi ei gynnwys yn atebolrwydd cyfredol | **461** | **56** | **517** | 3,984 | 961 | 4,945 |
| Wedi ei gynnwys yn atebolrwydd anghyfredol | **5** | **–** | **5** | 927 | – | 927 |
| | | | **522** | | | 5,872 |

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yn rhoi buddion ymddeol i weithwyr penodol. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae Cofrestrfa Tir EM yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sydd wedi ymddeol o dan y cynllun. Cyfanswm y taliadau yn y flwyddyn oedd £1.3m yn 2019/20, a darparwyd ar gyfer £1.3m ohono o fewn y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yng nghyfrifon 2019/20. Codir cyfanswm yr atebolrwydd pensiwn hyd at oedran ymddeol arferol ar gyfer pob gweithiwr ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn ymddeol yn gynnar ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Caiff taliadau pensiwn a buddion cysylltiedig y gweithiwr sydd wedi ymddeol tan oedran ymddeol arferol eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

Mae darpariaethau eraill yn gysylltiedig â chostau dadfeiliad eiddo.

## 15.2 Cronfa Indemniad

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi atebolrwydd cyfreithiol ar Gofrestrfa Tir EM i indemnio am golledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau yn y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yr yswiriwr statudol o deitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM. Mae Cofrestrfa Tir EM yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad am hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR).

| | **Darpariaeth sy'n ddyledus** | **Darpariaeth IBNR** | **2019/20 Cyfanswm** | Darpariaeth sy'n ddyledus | Darpariaeth IBNR | 2018/19 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill | **11,200** | **84,200** | **95,400** | 10,800 | 80,200 | 91,000 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | **5,350** | **–** | **5,350** | 2,620 | – | 2,620 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | **(5,350)** | **–** | **(5,350)** | (2,620) | – | (2,620) |
| Ailbrisiad hawliadau | **(4,700)** | **–** | **(4,700)** | 400 | – | 400 |
| Ailbrisiad IBNR | **–** | **(17,500)** | **(17,500)** | – | 4,000 | 4,000 |
| **Ar 31 Mawrth** | **6,500** | **66,700** | **73,200** | 11,200 | 84,200 | 95,400 |

Yn dilyn adolygiad actiwari gan Adran Actwari'r Llywodraeth, mae'r gronfa mewn perthynas â hawliadau wedi eu hadrodd ond heb eu setlo (Darpariaeth ddyledus) wedi lleihau yn 2019/20 gan £4.7m (2018/19: cynnydd o £0.4m). Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (y ddarpariaeth IBNR) wedi lleihau yn 2019/20 gan £17.5m (2018/19: cynnydd o £4.0m).

Mae'r rheswm dros y lleihad o £4.7m mewn hawliadau dyledus oherwydd lleihad yng ngwerth hawliadau indemniad sy'n aros i'w prosesu.

Roedd symudiad £17.5m yn y ddarpariaeth IBNR yn ganlyniad i leihad o £17.5m yn y ddarpariaeth IBNR oherwydd hawliadau twyll a gwallau sydd â gwerthoedd setlo gwahanol, patrymau setlo gwahanol a nifer is na'r hawliadau a ragwelwyd.

Amcangyfrif yw'r Ddarpariaeth ddyledus (ar gyfer hawliadau a dderbyniwyd ond heb eu setlo eto) ac am ei fod yn golygu rhagamcanu taliadau yn y dyfodol, nid yw'r symiau terfynol a delir ar yr hawliadau hyn yn sicr. Y prif ansicrwydd yw:

- cyfran yr hawliadau dyledus a gaiff eu talu yn y pen draw;
- gwerth y taliadau sy'n cael eu gwneud; ac
- effaith unrhyw ddyfarniadau cyfreithiol.

Gall presenoldeb hawliadau dyledus mawr ychwanegu'n sylweddol at yr ansicrwydd hwn.

Mae'r ddarpariaeth IBNR yn fwy ac yn fwy ansicr o'i hanfod na'r Ddarpariaeth ddyledus. Yn wahanol i'r Ddarpariaeth ddyledus, sy'n seiliedig ar wybodaeth am hawliadau presennol, mae'r ddarpariaeth IBNR yn cynnwys hawliadau posibl a allai gael eu gwneud o ganlyniad i wallau sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r gofrestr o ganlyniad i weithgarwch diweddaru o ddydd i ddydd (naill ai trwy dwyll a ffugio neu wall gweinyddol). Y prif ansicrwydd yn y ddarpariaeth IBNR yw:

- bod nifer y gwallau heb eu hadrodd yn y gofrestr ar hyn o bryd yn anhysbys;
- ar ba adeg yn y dyfodol y bydd y gwallau hyn yn cael eu darganfod a bydd hawliadau'n cael eu gwneud; a
- beth fydd cost yr hawliadau cyfatebol.

Gall gymryd sawl blwyddyn i adrodd am hawliadau ac yna eu setlo.

Wrth amcangyfrif y ddarpariaeth IBNR, mae'r actiwari yn rhagamcanu nifer ac amseru adroddiadau hawliadau yn y dyfodol a maint cyfartalog hawliadau, gan ddefnyddio rhagdybiaethau am batrymau setlo hawliadau, effeithiau disgwyliedig unrhyw ddyfarniadau cyfreithiol hysbys a chwyddiant hawliadau. Caiff llifoedd arian amcanestynedig ar gyfer hawliadau yn y dyfodol eu disgowntio wedyn i werth presennol net ar y dyddiad cyfrifyddu gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio rhagnodedig Trysorlys EM.

Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr amcanestyniadau yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata hawliadau hanesyddol, lwfans ar gyfer tueddiadau diweddar ac ystyried effeithiau posibl ffactorau sylfaenol fel maint gweithgarwch Cofrestrfa Tir EM a nifer y teitlau cofrestredig. Darparwn fewnbwn i'r actiwari ar y rhagdybiaethau hyn, yn seiliedig ar wybodaeth y tîm cyfreithiol sy'n ymdrin â'r hawliadau.

**Ansicrwydd yn y darpariaethau – dadansoddi sensitifrwydd**

Mae gwerthoedd darpariaethau'r Gronfa Indemniad yn ddarostyngedig i werth setliad terfynol ansicr yn y dyfodol, ar gyfer hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR). Gallai'r ansicrwydd yng ngwerth hawliadau dyledus arwain at amrywiad yn y ddarpariaeth arfaethedig. Mae amrywiaeth o senarios wedi cael eu hystyried mewn perthynas â'r rhagdybiaethau ynghylch:

- cyfran yr hawliadau sy'n setlo am sero;
- maint hawliad cyfartalog;
- cyfradd disgownt ragnodedig Trysorlys EM;
- nifer yr hawliadau a dderbynnir; a'r
- gyfradd chwyddiant.

Ystyriwyd y senarios hyn ar eu pennau eu hunain ac mewn cyfuniad fel y dangosir yn y tabl dadansoddi sensitifrwydd isod.

Ar sail y gwaith dadansoddi hwn, mae'n rhesymol i ragweld y gallai gwerth atebolrwydd fod tua £6.5m (Darpariaeth ddyledus) neu £66.7m (Darpariaeth IBNR).

Mae'n bosibl y gallai atebolrwydd, mewn senarios ffafriol eithafol, fod yn werth cyn lleied â £6.3m (Darpariaeth ddyledus) a £44.7m (Darpariaeth IBNR).

Rydym hefyd wedi ystyried senarios andwyol eithafol lle mae gwerth atebolrwydd gymaint â £6.7m (Darpariaeth ddyledus) a £89.3m (Darpariaeth IBNR).

Mae natur benagored tymor hir indemniad statudol yn golygu nad yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r atebolrwydd mwyaf posibl. Fodd bynnag, credwn nad yw senarios fel hyn yn y debygol iawn.

Gall graddfa'r ansicrwydd ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol fod yn wahanol i'r hyn a ddangosir yma. Gallai hyn fod am sawl rheswm, er enghraifft, oherwydd bod proffil hawliadau wedi newid neu oherwydd bod y rhagolygon ynghylch tueddiadau hawliadau yn y dyfodol wedi newid.

Ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol, dylid disgwyl:
— y bydd y ddarpariaeth ddyledus yn amrywio yn dibynnu ar faint o hawliadau sy'n cael eu hadrodd ar yr adeg honno, yn enwedig hawliadau mawr;
— os bydd popeth arall yn gyfartal, bydd y Ddarpariaeth IBNR yn cynyddu dros amser oherwydd grymoedd chwyddiant; a
— bydd y Ddarpariaeth ddyledus a'r Ddarpariaeth IBNR yn arbennig o sensitif i nifer a gwerth hawliadau twyll a ffugio oherwydd dyma'r categori o hawliadau mwyaf arwyddocaol yn ariannol.

Y ddarpariaeth Cronfa Indemniad o £73.2m yw ein hamcangyfrif gorau. Yn ogystal, mae gwerthoedd darpariaethau'r Gronfa Indemniad yn y dyfodol yn destun ansicrwydd cynhenid.

## Dadansoddiad sensitifrwydd

| | 2019/20 Darpariaeth ddyledus Uchaf | 2019/20 Darpariaeth ddyledus Lleiaf | 2019/20 Symudiad canran |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | % |
| Darparwyd yn y cyfrifon hyn (gwerth y gellir ei ragweld yn rhesymol – gweler nodyn 15.2) | 6.5 | 6.5 | 0 |
| **Effaith senarios** | | | |
| **Cyfradd disgownt** | | | |
| 1. Cynyddu cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | –0.1 | | – 1 |
| 2. Gostwng cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | | 0.1 | 1 |
| **Costau setlo** | | | |
| 3. Cynyddu costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau gwall | 0.1 | | 2 |
| 4. Gostwng costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau gwall | | –0.1 | – 2 |
| 5. Cynyddu costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau twyll | 0.2 | | 3 |
| 6. Gostwng costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau twyll | | –0.2 | – 3 |
| **Senarios ffafriol eithafol** | | | |
| (1)+ (4) + (6) | | 6.3 | |
| **Senarios andwyol eithafol** | | | |
| (2)+ (3) + (5) | 6.7 | | |

| | 2019/20 Darpariaeth IBNR uchaf | | 2019/20 Symudiad canran cynnydd | |
|---|---|---|---|---|
| | uchaf £m | lleiaf £m | cynnydd % | gostyngiad % |
| Darparwyd yn y cyfrifon hyn (gwerth y mae'n rhesymol ei ragweld – gweler nodyn 15.2) | 66.7 | 66.7 | 0 | 0 |
| **Effaith senarios** | | | | |
| **Senarios ffafriol ond rhagweladwy** | | | | |
| **Cyfran hawliadau dim** | | | | |
| 1. Newid y gyfran hawliadau dim am hawliadau athreuliol +/- 5% | 2.7 | –2.7 | 4 | – 4 |
| 2. Newid y gyfran hawliadau dim am hawliadau mawr +/- 5% | 2.0 | –2.0 | 3 | – 3 |
| **Cost gyfartalog yr hawliad** | | | | |
| 3. Newid cost gyfartalog yr hawliad gan +/- 10% ar gyfer hawliadau gwall athreuliol | 2.0 | –2.0 | 3 | – 3 |
| 4. Newid cost gyfartalog yr hawliad gan +/- 10% ar gyfer hawliadau gwall mawr | 2.0 | –2.0 | 3 | – 3 |
| 5. Newid cost gyfartalog yr hawliad gan +/- 10% ar gyfer hawliadau twyll athreuliol | 2.0 | –2.0 | 3 | – 3 |
| 6. Newid cost gyfartalog yr hawliad gan +/- 10% ar gyfer hawliadau twyll mawr | 1.3 | –1.3 | 2 | – 2 |
| **Cyfradd disgownt** | | | | |
| 7. Cynyddu cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | | –2.7 | | – 4 |
| 8. Gostwng cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | 2.7 | | 4 | |
| **Y nifer amcanestynedig o hawliadau IBNR** | | | | |
| 9. Cynyddu'r nifer amcanestynedig o hawliadau IBNR athreuliol gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad er 2013/14 | 1.3 | | 2 | |
| 10. Gostwng y nifer amcanestynedig o hawliadau IBNR athreuliol gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad | | –1.3 | | – 2 |
| 11. Cynyddu'r nifer amcanestynedig o hawliadau IBNR mawr gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad er 2013/14 | 1.3 | | 2 | |
| 12. Gostwng y nifer amcanestynedig o hawliadau IBNR mawr gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad | | –1.3 | | – 2 |
| **Chwyddiant hawliadau yn y dyfodol** | | | | |
| 13. Cynyddu chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol gan 1% | 5.3 | | 8 | |
| 14. Gostwng chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol gan 1% | | –4.7 | | – 7 |
| **Senarios ffafriol eithafol** | | | | |
| (1)+(2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(7)+(10)+(12)+(14) | | 44.7 | | |
| **Senarios andwyol eithafol** | | | | |
| (1)+(2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(8)+(9)+(11)+(13) | 89.3 | | | |

## 16 Ymrwymiadau cyfalaf

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Gwariant cyfalaf** | **750** | – |
| Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn | **750** | – |

## 17 Atebolrwydd digwyddiadol

### 17.1 Indemniad

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi atebolrwydd cyfreithiol ar Gofrestrfa Tir EM i indemnio ar gyfer colledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau yn y gofrestr teitlau. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yswiriwr statudol teitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM. Mae Cofrestrfa Tir EM yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad, ar gyfer hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR) (gweler nodyn 15.2) yn seiliedig ar lwyddiant tebygol hawliadau.

Fel ar 31 Mawrth 2020, mae gwerth hawliadau indemniad sy'n aros i'w prosesu a wnaed i Gofrestrfa Tir EM i'w weld isod. Amcangyfrifir mai gwerth setlo'r hawliadau sydd yn y ddarpariaeth Cronfa Indemniad yw £6.5m (gweler nodyn 15.2).

**Gwallau neu hepgoriadau**

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Camgymeriadau | **7,064** | 10,510 |
| Twyll a ffugio | **15,107** | 18,967 |
| | **22,171** | 29,477 |

### 17.2 Tribiwnlysoedd cyflogaeth

Ar 31 Mawrth 2020, mae gan Gofrestrfa Tir EM un achos tribiwnlys cyflogaeth, a ystyrir yn atebolrwydd digwyddiadol. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl amcangyfrif ei ganlyniad a'i amseru tebygol. Mae IAS 37 *Darpariaethau, Atebolrwydd Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol* yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatgelu natur gyffredinol yr anghydfod yn unig.

## 18 Nodiadau ar y Datganiad Llif Arian

### 18.1 Cysoni gwarged gweithredu i'r mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwarged gweithredu | **24,096** | 31,041 |
| Effaith newidiadau mewn polisi cyfrifyddu* | **–** | (826) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | **3,129** | 3,494 |
| Costau refeniw Pridiannau Tir Lleol | **–** | (4,681) |
| Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar | **4,978** | 4,351 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **4,068** | 2,972 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **512** | 443 |
| Gostyngiad mewn darpariaethau | **(1,837)** | (4,709) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestrau | **(4,176)** | 978 |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn symiau derbyniadwy | **1,306** | (485) |
| Cynnydd mewn symiau taladwy | **13,521** | 6,569 |
| (Gostyngiad)/cynnydd yn y Gronfa Indemniad | **(22,200)** | 4,400 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **23,397** | 43,547 |

*Ailddatganwyd y symudiad mewn stocrestrau i adlewyrchu effaith IFRS 15.

### 18.2 Cysoni'r llif arian parod net i symudiad mewn arian parod net

| | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Arian parod net ar ddechrau'r flwyddyn | **519,798** | 308,739 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod yn y flwyddyn | **(499,704)** | 211,059 |
| **Arian parod net ar ddiwedd y flwyddyn** | **20,094** | 519,798 |

## 19 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 *Datgeliadau Partion Cysylltiedig*, fel y'i dehonglir gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu am drafodion partïon cysylltiedig.

Hyd at 31 Mawrth 2020, roedd Cofrestrfa Tir EM yn asiantaeth weithredol, yn gronfa fasnachu ac yn adran o'r llywodraeth, a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol oedd ei rhiant-adran. Yn ystod y flwyddyn cafodd Cofrestrfa Tir EM nifer o drafodion perthnasol ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Ni chafodd unrhyw aelodau bwrdd, neu aelodau staff rheoli allweddol neu bartïon cysylltiedig eraill, ddylanwad ar unrhyw drafodion perthnasol a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM.

## 20 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 *Digwyddiadau Ar Ôl y Cyfnod Adrodd*, mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Nid yw'r atodiadau yn destun archwiliad ariannol.

# Atodiad A

## Maint o waith a llwythi gwaith 2019/20 a 2018/19

### Ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl math a dull derbyn

| | 2019/20 | | | 2018/19 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd | Ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein | % y ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein | Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd | Ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein | % y ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein |
| Diweddariadau cofrestr swmpus | 971,542 | – | – | 2,148,099 | – | – |
| Cyfanswm ceisiadau ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | 34,676,913 | 32,879,308 | 94.82 | 34,407,348 | 32,262,218 | 93.77 |
| **Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion** | **35,648,455** | **32,879,308** | **92.23** | **36,555,447** | **32,262,218** | **88.26** |
| Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | 4,904,994 | 4,423,494 | 90.18 | 5,032,142 | 4,511,832 | 89.66 |
| Cynhyrchion gwasanaethau rhagarweiniol | 20,703,603 | 20,597,854 | 99.49 | 20,052,646 | 19,905,920 | 99.27 |
| Ceisiadau gwasanaethau ymholiadau | 9,068,316 | 7,857,960 | 86.66 | 9,322,560 | 7,844,466 | 84.14 |
| **Cyfanswm** | **34,676,913** | **32,879,308** | **94.82** | **34,407,348** | **32,262,218** | **93.77** |
| Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | | | | | | |
| Cofrestriadau cyntaf | 91,093 | – | – | 102,663 | – | – |
| Prydlesi gwaredol cyntaf | 195,432 | 185,723 | 95.03 | 204,576 | 191,826 | 93.77 |
| Trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig | 214,465 | 200,359 | 93.42 | 209,041 | 191,853 | 91.78 |
| Deliadau â'r cyfan o dir cofrestredig | 4,404,004 | 4,037,412 | 91.68 | 4,515,862 | 4,128,153 | 91.41 |
| **Cyfanswm** | **4,904,994** | **4,423,494** | **90.18** | **5,032,142** | **4,511,832** | **89.66** |
| Cynhyrchion gwasanaethau rhagarweiniol | | | | | | |
| Copïau swyddogol[1] | 17,351,299 | 17,273,140 | 99.55 | 16,671,499 | 16,556,937 | 99.31 |
| Chwiliadau swyddogol | 2,588,407 | 2,585,783 | 99.90 | 2,595,584 | 2,591,796 | 99.85 |
| Chwiliadau swyddogol o'r map mynegai[1] | 763,897 | 738,931 | 96.73 | 785,563 | 757,187 | 96.39 |
| **Cyfanswm** | **20,703,603** | **20,597,854** | **99.49** | **20,052,646** | **19,905,920** | **99.27** |
| Ceisiadau gwasanaethau ymholiadau | | | | | | |
| Gweld y gofrestr | 5,591,981 | 5,591,981 | 100.00 | 5,504,351 | 5,504,351 | 100.00 |
| Gweld cynllun teitl | 949,475 | 949,475 | 100.00 | 990,453 | 990,453 | 100.00 |
| Gweld dogfen | 50,575 | 50,575 | 100.00 | 56,858 | 56,858 | 100.00 |
| Gohebiaeth | 305,755 | 84,446 | 27.62 | 303,643 | 76,236 | 25.11 |
| Ymholiadau ffôn | 989,047 | – | – | 1,250,687 | – | – |
| Lawrlwythiadau MapSearch | 1,181,483 | 1,181,483 | 100.00 | 1,216,568 | 1,216,568 | 100.00 |
| **Cyfanswm** | **9,068,316** | **7,857,960** | **86.65** | **9,322,560** | **7,844,466** | **84.14** |

Ar gyfer y testun ategol gweler drosodd.

Mae'r tabl uchod yn amlinellu'r gweithgareddau trafodaethol am y flwyddyn, ynghyd â chymariaethau ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd mwy na 35.6 miliwn o geisiadau, gan fodloni gofynion Deddf Cofrestru Tir 2002. Mae'r rhain yn ffurfio craidd ein gweithgareddau a'r refeniw sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys manylion ein cynnydd tuag at ddarparu gwasanaeth electronig, mewn perthynas â'r gwahanol fathau o geisiadau a dderbyniwn. Ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus, cynyddodd cyfran y ceisiadau a dderbyniwyd yn electronig ychydig o 93.77% i 94.82%.

Mae diweddariadau cofrestr swmpus yn grwpiau o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno i Gofrestrfa Tir EM ac sy'n effeithio ar nifer fawr o deitlau cofrestredig, megis banc yn newid y cyfeiriad ar gyfer gohebu ar bob un o'i bridiannau cofrestredig. Mae lefelau derbyn ceisiadau o'r fath yn gyfnewidiol eu natur ac felly cânt eu nodi ar wahân i fathau eraill o geisiadau er mwyn osgoi ystumio'r data.

Nodyn: Gall cais am gopi swyddogol arwain at ddarparu mwy nag un gofrestr a/neu gynllun teitl.

Gall cais am chwiliad o'r map mynegai arwain at ddatgelu mwy nag un rhif teitl. Am y rheswm hwn mae nifer y cofrestri/cynlluniau teitl neu nifer y rhifau teitl a ddatgelir yn cael ei ddefnyddio fel metrig yn hytrach na nifer y ceisiadau eu hunain. Cynhyrchion a enwyd yw'r rhain.

# Atodiad B

## Maint o waith a llwythi gwaith Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol 2019/20 a 2018/19

### Yr Adran Pridiannau Tir

Mae’r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972.

Mae’r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, gweithrediadau, gwritiau a gorchmynion sydd yn arfaeth sy’n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi eu cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir. Mae’r adran hefyd yn cynnal y Mynegai Enwau Perchnogion. Gellir chwilio’r mynegai hwn dim ond os oes gennych yr awdurdod priodol ac fe’i defnyddir i bennu a yw unrhyw asedau eiddo yn cael eu dal yn erbyn unigolion neu gwmnïau.

Mae rhai elfennau o gyfrifon cwsmeriaid hefyd yn cael eu rheoli yn yr Adran Pridiannau Tir.

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2019/20 | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2018/19 |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 23,637 | 24,672 |
| Dileadau | 5,443 | 6,152 |
| Chwiliadau swyddogol | | |
| – Chwiliadau llawn | 131,601 | 143,268 |
| – Chwiliadau wedi eu cyfyngu i ansolfedd | 1,679,703 | 1,680,801 |
| Copïau swyddfa | 20,421 | 22,846 |
| Cyfanswm | 1,860,805 | 1,877,739 |

### Yr Adran Credydau Amaethyddol

Mae’r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

| Math o gais | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd | 504 | 599 |
| Dileadau a chywiriadau | 867 | 660 |
| Chwiliadau | 2,112 | 2,460 |
| Cyfanswm | 3,483 | 3,719 |

# Atodiad C

## Data hanesyddol cynaliadwyedd

### Data carbon (tunelli)

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 | 2016/17 | 2015/16 | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunelli o CO2 cyfatebol) | | | | | | | |
| Cyfanswm allyriadau gros ar gyfer cwmpasau 1 a 2 | 3,900 | 4,885 | 5,142 | 6,818 | 7,835 | 8,048 | 8,404 |
| Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy | 525 | 1,824 | 1,688 | 1,710 | 1,195 | 2,306 | 2,780 |
| Cyfanswm allyriadau net ar gyfer cwmpasau 1 a 2 (wedi gwaredu elfennau adnewyddadwy) | 3,375 | 3,061 | 3,454 | 5,108 | 6,640 | 6,839 | 5,624 |
| Allyriadau gros teithio cwmpas 3 | 645 | 460 | 528 | 510 | 557 | 608 | 724 |
| Cyfanswm gros yr allyriadau a adroddwyd | 4,545 | 5,345 | 7,361 | 7,328 | 8,392 | 8,656 | 9,128 |
| Dangosyddion anariannol (mWh) | | | | | | | |
| Trydan: wedi ei brynu (grid, gwres a phŵer cyfunol, ac anadnewyddadwy) | 8,757 | 11,994 | 12,478 | 12,808 | 12,956 | 12,902 | 12,200 |
| Trydan: adnewyddadwy | 1,896 | – | – | – | – | – | – |
| Nwy | 6,657 | 6,528 | 6,659 | 5,774 | 7,325 | 6,989 | 8,355 |
| Ffynonellau ynni eraill | – | – | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm ynni | 17,310 | 18,522 | 19,137 | 18,582 | 20,281 | 19,891 | 20,555 |
| Dangosyddion ariannol (£'000) | | | | | | | |
| Gwariant ar ynni | 2,102 | 1,943 | 1,788 | 1,485 | 1,641 | 1,684 | 1,810 |
| Gwariant ar wrthbwysiadau achrededig (er enghraifft Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 1,222 | 1,305 | 1,193 | 1,231 | 1,222 | 1,142 | – |

### Gwastraff sy'n codi (tunelli)

| Gwastraff | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 | 2016/17 | 2015/16 | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol | | | | | | | |
| Gwastraff peryglus | – | – | 6 | 3 | 1.6 | – | – |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | | | | | | | |
| Gwastraff tirlenwi | 20 | 40 | 29 | 13 | 31.9 | 105 | 101 |
| Gwastraff wedi ei ailddefnyddio/ailgylchu | 651 | 966 | 986 | 1,028 | 1,604 | 802 | 858 |
| Ynni o wastraff | 123 | 163 | 26 | 5 | 6.6 | – | – |
| Cyfanswm y gwastraff sy'n codi | 794 | 1,169 | 1,047 | 1,049 | 1,644 | 907 | 959 |
| Dangosyddion ariannol (£'000) | | | | | | | |
| Gwastraff peryglus | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff tirlenwi | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff wedi ei ailddefnyddio/ailgylchu | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff a losgwyd | – | – | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm costau gwastraff | 138 | 75 | 147 | 129 | 212 | 297 | 290 |

### Lleihau dŵr (metrau ciwbig)

| Dŵr | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 | 2016/17 | 2015/16 | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (metrau ciwbig) | | | | | | | |
| Defnydd | | | | | | | |
| Wedi ei gyflenwi | 41,829 | 41,548 | 41,130 | 34,967 | 36,395 | 38,153 | 36,037 |
| Wedi ei dynnu | – | – | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm defnydd | 41,829 | 41,548 | 41,130 | 34,967 | 36,395 | 38,153 | 36,037 |
| Dangosyddion ariannol (£'000) | | | | | | | |
| Cyfanswm costau cyflenwi | 201 | 164 | 139 | 152 | 173 | 188 | 228 |

# Atodiad Ch

## Cronfa Indemniad

Yn 2019/20 talwyd £5,295,059 ar gyfer 845 o hawliadau, o'i gymharu ag £2,620,743 ar gyfer 882 o hawliadau yn 2018/19. Roedd yr hawliad mwyaf a dalwyd y flwyddyn hon ar gyfer gwall mewn cofnod yn y gofrestr lle roeddem wedi gwarantu'n anghywir gofnod hawddfraint, a'r taliad ar ei gyfer oedd £1,142,549. Roedd taliadau'r flwyddyn hon yn ôl i'r lefelau tebyg a welwyd yn ystod 2017/18.

Uchafswm gwerth yr hawliadau safonol a dalwyd oedd £7,610,446 ond cafodd y rhain eu setlo am £4,066,812 gan arbed £3,543,634. Yn ystod y flwyddyn cafodd 245 o hawliadau eraill wedi eu prisio am £7,835,540 eu setlo am ddim gwerth. O'r rhain roedd 18 am dwyll ac fe'u prisiwyd am £5,245,770. Y flwyddyn hon derbyniwyd 1,073 o hawliadau newydd gan roi cyfanswm o £7,917,615, gan gynnwys 16 o hawliadau twyll wedi eu prisio am £4,351,303.

Adenillwyd £175,588 o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £127,750 y flwyddyn ddiwethaf. Gall y ffigurau digolledu amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn, gan adlewyrchu cydadwaith anrhagweladwy elfennau cyfreithiol a ffeithiol a fydd yn pennu dichonoldeb unrhyw ddigolledu.

| Natur yr hawliad | Nifer yr hawliadau | Colled safonol (£) | Costau (£) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Stent teitlau cofrestredig | 104 | 765,459 | 396,334 | 21.94 |
| Gwallau/hepgoriadau mewn cofnodion cofrestr | 88 | 1,162,023 | 495,757 | 31.31 |
| Gwallau cynlluniau amrywiol | 13 | 5,519 | 10,951 | 0.31 |
| Twyll a ffugio | 12 | 1,915,306 | 179,989 | 39.57 |
| Chwiliadau Swyddogol (cynlluniau) | 8 | 184,165 | 15,438 | 3.77 |
| Gwallau methdaliad | 2 | 1,000 | – | 0.02 |
| Chwiliadau swyddogol (cyfreithiol) | 3 | 3,985 | 2,190 | 0.12 |
| Copïau swyddogol | 1 | – | 540 | 0.01 |
| Gwallau mewn chwiliadau o'r map mynegai (SIMs) | 9 | 250 | 10,201 | 0.20 |
| Gwallau mewn darnau wedi eu ffeilio | 345 | 174 | 61,068 | 1.16 |
| Colli dogfennau/gwallau gweinyddol | 260 | 28,931 | 55,779 | 1.60 |
| Gwallau Pridiannau Tir | – | – | – | – |
| Cyfanswm | 845 | 4,066,812 | 1,228,247 | 100 |
| Taliad gros | | | | £5,295,059 |
| Llai'r symiau a adenillwyd o dan hawl ddigolledu statudol Cofrestrfa Tir EM | | | | £175,588 |
| Indemniad net | | | | £5,119,471 |

# Atodiad D

## Amser cyfleuster undeb llafur

### Cyfnod amser: 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020

**Misoedd: 12**

### Tabl 1: Swyddogion undeb perthnasol

| Nifer y gweithwyr a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | Nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|
| 155 | 138.58 |

### Tabl 2: Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster

| Canran yr amser | Nifer y gweithwyr |
|---|---|
| 0% | 76 |
| 1 – 50% | 79 |
| 51 – 99% | 0 |
| 100% | 0 |
| Cyfanswm | 155 |

### Tabl 3: Canran y bil talu a wariwyd ar amser cyfleuster

| | Swm |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £271,766 |
| Cyfanswm bil talu | £225,869,000 |
| Canran y cyfanswm bil talu a dreuliwyd ar amser cyfleuster | 0.12% |

### Tabl 4: Gweithgareddau undeb llafur am dâl

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur am dâl | 0.00 |
| Cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar amser cyfleuster am dâl | 13,000.35 |
| Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur am dâl yn ganran o gyfanswm yr oriau cyfleuster am dâl | 0.00% |

# Atodiad Dd

## Dangosyddion perfformiad allweddol

| Dangosydd perfformiad allweddol | | Perfformiad hyd at 31 Mawrth 2020 | Wedi ei gyflawni / Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|
| 1 | Canran y cwsmeriaid sy'n dweud bod ein gwasanaeth cyffredinol yn dda, yn dda iawn neu'n rhagorol i fod o leiaf 92% | 90% | Heb ei gyflawni |
| 2 | Gweithio gyda thrawsgludwyr i leihau'r gyfradd gyfartalog ar gyfer yr holl geisiadau i fod yn llai na 15% | 18.24% | Heb ei gyflawni |
| 4a | Cwblhau 95% o ymholiadau cofrestr o fewn dau ddiwrnod | 97.81% | Wedi ei gyflawni |
| 4b | Cwblhau 95% o ddiweddariadau cofrestr o fewn pum niwrnod | 94.18% | Heb ei gyflawni |
| 5 | Cwblhau 95% o achosion creu cofrestr cofrestriad cyntaf a chofrestr datblygwr o fewn 25 diwrnod | 94.24% | Heb ei gyflawni |
| 6 | Canran y cofrestriadau cymhleth sy'n aros i greu cofnod teitl newydd i fod yn llai na 90 diwrnod erbyn diwedd y flwyddyn ariannol i fod o leiaf 95% | Diwrnod 154 | Heb ei gyflawni |
| 7 | Gwella'n barhaus ansawdd y gofrestr, gyda cheisiadau safonol yn pasio 98% o'r gwiriadau ansawdd diffiniedig | 97.50% | Heb ei gyflawni |
| 8 | Argaeledd e-wasanaethau allanol cyfartalog i fod o leiaf 99.8% yn ystod oriau gwasanaeth cyhoeddedig | 99.91% | Wedi ei gyflawni |
| 9 | Prosesu'n awtomatig 10,000 o geisiadau trwy'r Gwasanaeth Morgais Digidol | 0 | Heb ei gyflawni |
| 10 | Newidiadau trwy'r Portffolio Trawsnewid i gyflenwi arbedion cynhyrchiant o 200 o staff cyfwerth ag amser llawn | 66 cyfwerth ag amser llawn | Heb ei gyflawni |
| 11 | Sgôr ymgysylltu â staff i fod yn chwartil uchaf y Gwasanaeth Sifil ar gyfer sefydliadau o faint a natur gyfwerth erbyn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil Hydref 2019 | 63% (yn y chwartil uchaf) | Wedi ei gyflawni |
| 12 | Sgôr ymgysylltiad ar gyfer arweinyddiaeth a rheoli newid i fod yn chwartil uchaf y Gwasanaeth Sifil ar gyfer sefydliadau o faint a natur debyg erbyn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil Hydref 2019 | 48% | Wedi ei gyflawni |
| 13 | Darparu cyfleoedd datblygu a dyrchafu ar gyfer o leiaf 275 o gydweithwyr i ac o fewn graddau gweithwyr achos gweithredol | 399 | Wedi ei gyflawni |
| 14 | Cynyddu nifer y menywod mewn swyddi rheolwyr canol ac uwch reolwyr (swyddog gweithredol uwch, uwch swyddog gweithredol (SEO), SEO+ a Gradd 7) gan 30 (o'r ffigur gwaelodlin ar 31 Mawrth 2019) erbyn diwedd chwarter 4 | 45 | Wedi ei gyflawni |
| 15 | Cynyddu nifer y staff duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y swyddi rheoli is (swyddog gweithredol ac uwch swyddog gweithredol), lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen cryfhau'r biblinell bresennol gan 20 | 8 | Heb ei gyflawni |

DPA 3 – Ar gyfer y cyfnod 2019/20 treialwyd DPA 3 sy'n mesur effeithlonrwydd gwaith achos ac a allai gael ei werthuso a'i ddefnyddio wrth ddatblygu targed effeithlonrwydd newydd ac felly ni adroddir arno.

DPA 4 – Y bwriad gwreiddiol oedd uno DPA 4a a 4b i greu un DPA gan eu bod yn mesur cyflymder gwasanaeth ar gyfer meysydd symlach gwaith achos (ymholiadau cychwynnol a diweddariadau cofrestr). Fodd bynnag, penderfynwyd monitro cynnydd ar wahân.

CCS0320287692

978-1-5286-1830-4